

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 24 Ebrill 2018

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: PERFFORMIAD/CYFLENWI / TECHNOLEG GWYBODAETH

Teitl: RHEOLAU WEDI'U CYDGRYNHOI AR GYFER RHEOLI AMSEROEDD AROS RHWNG ATGYFEIRIO A THRINIAETH CARDIAIDD - Mawrth 2018

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad: Amherthnasol

**I'w weithredu gan: Prif Weithredwyr
Prif Swyddogion Gweithredu
Penaethiaid Gwybodaeth**

Angen gweithredu erbyn:

Anfonwr: Lesley Law

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :

Lesley Law, Pennaeth Gofal wedi'i Gynllunio, Cyflewni a Pherfformiad, Y Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaol, Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llundudno LL31 9RZ 03000 625560 Lesley.Law@llyw.cymru

Dogfennau amgaeedig: llythr Lesley Law

WELSH HEALTH CIRCULARS
DISTRIBUTION LIST

<u>Board Secretaries</u>	
ABMU (Pamela Wenger - Chair of Board Secretaries group)	
Aneurin Bevan	
Betsi Cadwaladr	
Cardiff & Vale	
Cwm Taf	
Hywel Dda	
Powys	
Public Health Wales	
Velindre Trust	
WAST	
Secretary to Board Secretary Group	
<u>Chief Execs</u>	
ABMU	
Aneurin Bevan	
Betsi Cadwaladr	
Cardiff & Vale	
<u>Business Manager</u>	
Cwm Taf	
Hywel Dda (PS to CE Hywel Dda)	
Powys	
Public Health Wales	
Velindre Trust	
WAST(Patsy Roseblade – Interim Chief Exc)	
Chairs	
ABMU	
Aneurin Bevan	
Betsi Cadwaladr	
Cardiff & Vale	
Cwm Taf	
Hywel Dda	
Powys	
Public Health Wales	
Velindre Trust	
WAST	
Welsh Government:	
Chief Exec NHS Wales	

WELSH HEALTH CIRCULARS
DISTRIBUTION LIST

Deputy Chief Exec NHS Wales	
HSS Operations Team	
HSS Comms Team	
Relevant Directors	
Wales Audit Office	
Technical Manager Central Govt & NHS sector	
South Wales Cancer Network	
Director	
WHSSC	
Cathie Steele, Board Secretary	
EASC	
Mr Stephen Harray, Interim Ambulance Services Commissioner	
Professor McClelland, Chair	
Robert Williams, Board Secretary	
Velindre NHS Trust	
Cally Hamblyn, Legal Services & Governance Manager	
BMA in Wales - Primary Care policy Lead	
All Wales Health Collaborative	
NHS Wales Shared Services Partnership	
Jacqui Maunder Head of Corporate Services/Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol NHS Wales Shared Services Partnership Managing Director	
NWSSP – Generic Mailbox	
Dr Gill Richardson (Public Health Wales - No. 2 Capital Quarter)	
Cally Hamblyn	

WELSH HEALTH CIRCULARS
DISTRIBUTION LIST

Cwm Taf	
Hywel Dda	
Powys	
WHSSC	
Internal	
Generic Mailbox :	

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd, GIG Cymru

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref: LL

24 Ebrill 2018

Annwyl gydweithwyr

Rheolau Wedi'u Cydgrynhai Ar Gyfer Rheoli Amseroedd Aros Rhwng Atgyfeirio A Thriniaeth Cardiaidd - Mawrth 2018

Rwy'n amgáu fersiwn terfynol wedi'i ddiweddarau o'r "RHEOLAU WEDI'U CYDGRYNHOI AR GYFER RHEOLI AMSEROEDD AROS RHWNG ATGYFEIRIO A THRINIAETH CARDIAIDD - Mawrth 2018". Rwyf hefyd yn amgáu fersiwn terfynol o ganllawiau cyffredinol RHEOLI AMSEROEDD AROS RHWNG ATGYFEIRIO A THRINIAETH, a gwblhawyd yng Ngorffennaf 2017.

Yn gywir

Lesley Law

Pennaeth Gofal wedi'i Gynllunio

c.c. Prif Swyddogion Gweithredu, GIG Cymru
Penaethiaid Gwybodaeth, GIG Cymru

**RHEOLAU WEDI'U CYDGRYNHOI AR GYFER RHEOLI
AMSEROEDD AROS RHWNG ATGYFEIRIO A
THRINIAETH CARDIAIDD**

8 Mawrth 2018

Rheoli Fersiynau		Cyhoeddwyd
Fersiwn 1.1	Gwyn Roberts	Tachwedd 2017
Fersiwn 1.2	Gwyn Roberts	14 Tachwedd 2017
Fersiwn 2	Lesley Law	17 Tachwedd 2017
Diwygiwyd	Gwyn Roberts	Rhagfyr 2017
Diwygiwyd	Olivia Shorrocks	Ionawr 2018
Fersiwn 3	Gwyn Roberts	Chwefror 2018
Fersiwn 4	Olivia Shorrocks	8 Mawrth 2018

Cynnwys

Trosolwg	4
Crynodeb o'r ddogfen	4
Datblygu targedau – targed AiD 26 wythnos	4
Prif egwyddorion	5
Cwmpas targedau	7
Targed AiD 26 wythnos	7
Eithriadau targed AiD 26 wythnos	11
Cyfrifoldebau clinigol	12
Cyfrifoldebau staff clinigol o ran monitro amseroedd aros	12
Atgyfeiriadau	14
Trefnu apwyntiad a chynnig rhesymol	17
Prosesau trefnu apwyntiad	17
Trefnu apwyntiad yn uniongyrchol	18
Trefnu apwyntiad yn rhannol (proses dau gam)	18
Methu â chysylltu â chlaf	19
Cynnig rhesymol	19
Gwrthod cynnig rhesymol	20
Methu dod (CNA)	20
Heb ddod (DNA)	21
Canlyniadau derbyn	23
Canlyniadau cloc yn parhau	23
Canlyniadau cloc yn stopio	24
Canlyniadau cloc newydd yn dechrau	27
Addasiadau	29
Claf ddim ar gael	29
Atebolrwydd	30
Cofnodi ac adrodd	30
Fformatau adrodd	30
Atebolrwydd am fonitro llwybrau agored	30
Atebolrwydd am berfformiad	31
Atebolrwydd am adrodd	31
Geirfa	33
Atodiad A: Sefyllfaoedd dechrau cloc llwybr	41

Safbwynt y claf

Nod y GIG fydd i chi aros cyn lleied o amser â phosibl, yn unol â'ch angen clinigol.

Ni fydd 95% o gleifion ar llwybr AiD cardiaidd yn aros mwy na 26 wythnos am driniaeth. Ni fydd unrhyw glaf yn aros mwy na 36 wythnos.

Dylech gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn ystod y broses atgyfeirio, drwy drafod â chi ac, os oes angen, cewch daflen i gleifion. Dylai hon roi gwybod beth a ddisgwylir gennych ar hyd y llwybr atgyfeirio i driniaeth (AiD).

Pan gewch eich atgyfeirio, rydych yn cydsynio bod rhywun yn cysylltu â chi er mwyn cael adolygiad meddygol a/neu brawf meddygol a fydd yn dechrau eich llwybr i gael gwasanaethau ysbyty.

Rhaid i chi sicrhau bod gan eich meddyg teulu a'r gwasanaethau ysbyty eich manylion cyswllt cywir a diweddaraf.

Er mwyn eich helpu, mae nifer o fyrddau iechyd bellach yn cynnig gwasanaeth atgoffa ar gyfer eich apwyntiadau, felly gwnewch yn siŵr fod gan eich meddyg teulu a'r ysbyty eich rhif ffôn symudol er mwyn iddynt allu cysylltu â chi.

Trosolwg

Crynodeb o'r ddogfen

1. Mae'r ddogfen hon yn darparu ffynhonnell gyfeirio gyflawn o'r rheolau ar gyfer rheoli amseroedd aros sy'n ymwneud â'r targed atgyfeirio i driniaeth cardiaidd (AiD) 26 wythnos.

Datblygu targedau – targed AiD 26 wythnos

2. GIG Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni'r targed AiD cardiaidd 26 wythnos.
3. Prif egwyddor y targed yw y dylai cleifion gael gofal ardderchog heb unrhyw oedi ac y dylent ddechrau cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio.
4. Yn ystod yr amser aros hwn, mae gan y claf a GIG Cymru eu rolau a'u cyfrifoldebau er mwyn cyflawni'r targed hwn.
5. Nod y ddogfen hon yw amlinellu, mewn ffordd glir a chryno, beth yw'r rheolau er mwyn sicrhau bod cyfnod AiD cardiaidd pob claf yn dechrau ac yn gorffen mewn ffordd deg a chyson. Yn achos y llwybr AiD cardiaidd, mae'r cloc yn dal i dician i fyrddau iechyd a/neu feddygon ymgynghorol o ran rheoli a chofnodi eu llwybr.
6. Ar gyfer AiD cardiaidd, dylai'r holl brofion diagnostig sydd eu hangen i gefnogi llwybr cardiaidd gael eu cynnwys yn yramser aros, hyd yn oed os na ellir adrodd ar y prawf eto. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau'r claf a'r GIG, a'r canlyniadau posibl os caiff y contract hwn rhwng y naill a'r llall ei dorri.

Safbwynt y claf

Cedwir eich manylion yn ddiogel a dilynir yr holl weithdrefnau o ran cyfrinachedd y systemau hyn. Fodd bynnag, os nad ydych am i neb ffonio eich rhif symudol, nodwch hyn.

Bydd y clinigydd sy'n adolygu eich cais am atgyfeiriad yn penderfynu ar eich angen clinigol yn seiliedig ar y wybodaeth yn eich atgyfeiriad.

Ar ôl i'ch atgyfeiriad gael ei asesu, bydd yr ysbyty yn eich hysbysu ei fod wedi cael eich atgyfeiriad. Yn y llythyr/galwad ffôn/neges destun dan sylw, bydd yn rhoi syniad i chi o faint o amser y bydd angen i chi aros am eich adolygiad/profion.

Byddwch yn cael eich cynnwys yn y broses o drefnu eich apwyntiadau. Ar ôl i chi gytuno ar eich apwyntiad, rhaid i chi wneud pob ymdrech i ddod iddo.

Gall fod adegau pan na fydd yn bosibl i chi gadw'r apwyntiad ar y dyddiad neu'r amser y cytunwyd arno, am ryw reswm neu'i gilydd. Os felly, bydd angen i chi hysbysu'r ysbyty cyn gynted â phosibl er mwyn trefnu dyddiad newydd. Bydd eich amser aros yn cael ei ailosod er mwyn adlewyrchu'r amser a gollwyd oherwydd y newid, ond byddwch yn parhau i fod ar y rhestr aros.

Prif egwyddorion

7. Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod y cyfnod o amser y mae cleifion yn aros am ofal cardiaidd dewisol (a gynlluniwyd) yn cael ei fesur, ac yr adroddir arno, mewn ffordd deg a chyson. Mae prif egwyddorion y targed atgyfeirio i driniaeth yn amlwg yn adlewyrchu'r egwyddorion iechyd darbodus.
8. Mae nifer o egwyddorion allweddol sy'n sail i'r rheolau ar gyfer amseroedd aros, ac maent yn gymwys i bob targed. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob achos o ryngweithio â chleifion, a rhaid eu hystyried wrth lunio pob polisi a gweithdrefn ar gyfer amseroedd aros a mynediad.

Gwnewch yr hyn sydd angen ei wneud a pheidiwch ag achosi unrhyw niwed

9. Dylai cleifion aros cyn lleied o amser â phosibl am driniaeth.

Gofalwch am y rhai sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf

10. Angen clinigol ddylai bennu'r amser aros priodol ar gyfer unrhyw lwybr cardiaidd. Ni ddylai'r targed AiD cardiaidd cenedlaethol wyrdroi'r brys clinigol.

Mae'r Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol yn bartneriaid cydradd drwy gyd-gynhyrchu

11. Mae'r cysyniad o 'gompact' y GIG/cleifion yn ymwneud â chyflawni amseroedd aros yn ddealedig ac wedi'i adlewyrchu yn y diffiniadau isod. Mae gan y naill a'r llall hawliau a chyfrifoldebau o fewn y trefniant. Bydd gofyn i fyrddau iechyd ddarparu gofal o ansawdd uchel yn yr amser targed, ac i ganiatáu ar gyfer dewisiadau cleifion o fewn yr amser hwnnw. Bydd disgwyl i gleifion sicrhau eu bod ar gael am driniaeth o fewn terfynau amser rhesymol, ac ar safleoedd ac ar adegau lle darperir y gwasanaeth, a hynny weithiau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gall methu â gwneud hyn arwain at aros mwy o amser.

Safbwynt y claf

Mae'n bwysig eich bod yn ceisio cadw'r dyddiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer eich apwyntiadau. Os bydd angen mwy nag un newid arnoch ar hyd y llwybr, gellir anfon eich atgyfeiriad yn ôl i'ch atgyfeiriwr a bydd eich amser aros yn cael ei stopio.

Os na fyddwch yn troi i fyny neu os na fyddwch yn hysbysu'r ysbyty tan ar ôl yr apwyntiad, gallwch gael eich atgyfeirio yn ôl i'ch meddyg teulu a bydd eich llwybr yn cael ei stopio.

Tra'n aros, cewch eich annog i ddilyn cyngor eich meddyg teulu drwy'r amser.

Dylech geisio cadw'n iach a chymryd unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd i chi.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ymuno â grŵp cymorth lleol neu geisio cyngor ar yr hyn y gallwch ei wneud tra'n aros. Dylai fod gan eich meddyg teulu wybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn eich ardal leol.

12. Mae'n bwysig bod hawliau a chyfrifoldebau'r claf yn cael eu hegluro iddo ar yr adeg y caiff ei atgyfeirio, naill ai'n uniongyrchol, drwy adnoddau ysgrifenedig neu drwy ei gyfeirio at adnoddau electronig (gwefannau). Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad gan atgyfeirwyr ac adnoddau gwybodaeth priodol i gleifion a staff gofal iechyd. Mae gan gleifion ddyletswydd i hysbysu'r GIG, yr ysbyty a'u meddyg teulu am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau tra'u bod yn aros i gael eu gweld ar unrhyw gam.
13. Rhaid i'r wybodaeth a roddir i'r cyhoedd gynnwys digon o wybodaeth am y terfynau amser disgwylledig, y broses ddisgwylledig a'u cyfrifoldebau i helpu'r GIG i drin eu cyflwr mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Caiff cleifion eu grymuso drwy'r wybodaeth hon i gwestiynu a monitro hynt eu taith yn erbyn y targed.
14. Dylid annog cleifion i ymwneud â phob penderfyniad am eu gofal. Dylai hyn gynnwys opsiynau triniaeth a threfniadau gweinyddol posibl. Rhaid i bob apwyntiad o fewn cyfnod AiD gael ei drefnu o dan y rheolau sy'n ymwneud â chynnig rhesymol, ac felly gael ei gytuno gan y claf a'r sefydliad ill dau. Pan gaiff claf ei dynnu o lwybr am resymau heblaw triniaeth, rhaid i'r claf a'r atgyfeiriwr gael eu hysbysu'n llawn am y rhesymau dros y penderfyniad hwn ac unrhyw ofynion o ran ailymuno â'r llwybr.

Lleihau gwahaniaethau amhriodol drwy weithredu ar sail tystiolaeth.

15. Mae'r rheolau wedi'u hysgrifennu mewn ffordd gadarn a chlir. Bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd (Blau) gynnal strwythurau llywodraethu priodol er mwyn sicrhau, lle ceir hyblygrwydd yn y rheolau, fod ysbyrd y targedau yn cael ei gyflawni. Dylai'r holl fethodolegau rheoli cleifion fod yn dryloyw ac wedi'u llywio gan yr egwyddor y dylai cleifion aros cyn lleied o amser â phosibl i gael triniaeth. Mae angen i'r canllawiau cenedlaethol

Safbwynt y claf

Pan fydd eich llythyr atgyfeirio yn dod i law safle ysbyty bydd eich amser aros yn dechrau. Weithiau, gelwir hyn yn ddechrau eich cloc amser aros neu ddyddiad dechrau eich llwybr (DDL).

Dylech gael cadarnhad gan yr ysbyty yn eich hysbysu bod eich atgyfeiriad wedi dod i law ac wedi'i dderbyn. Dylai hefyd nodi amseroedd aros bras cyfredol ar gyfer yr arbenigedd rydych wedi cael eich atgyfeirio iddo. Caiff y manylion hyn eu hanfon i'ch meddygfa hefyd. Dylai hyn eich helpu i wybod faint o amser y byddwch yn aros am eich apwyntiad cychwynnol.

Dylai'r llythyr, neges destun, rhif ffôn gyda'r daflen wybodaeth a/neu wefan yr ysbyty roi gwybodaeth i chi am yr hyn i'w wneud os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich amser aros a/neu atgyfeiriad.

Ar gyfer rhai gwasanaethau, fel cardioleg, mae gwasanaethau penodol yn y gymuned wedi'u sefydlu. Efallai mai'r gwasanaeth hwn fydd yn eich gweld gyntaf lle tybir bod asesiad a/neu driniaeth gan weithiwr proffesiynol arall yn briodol ar gyfer eich gofal. Dylai eich meddyg teulu ddweud wrthy ch i le mae'n anfon eich atgyfeiriad.

hyn gael eu hategu gan bolisiâu mynediad lleol ar gyfer pob Bl.

Cwmpas y targedau

Targed AiD cardiaidd 26 wythnos

16. Mae'r targed AiD cardiaidd 26 wythnos yn cwmpasu triniaeth ddewisol ac arbenigol i bawb sy'n byw yng Nghymru, p'un a ydynt yn cael eu trin yng Nghymru neu'r tu hwnt. Mae'r targed yn cwmpasu cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol at feddyg ymgynghorol mewn gofal eilaidd neu drydyddol, gan gynnwys meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y gymuned.
17. Bydd y cyfnod AiD cardiaidd yn dechrau pan ddaw'r atgyfeiriad i law gofal eilaidd a bydd yn gorffen pan fydd y driniaeth yn dechrau. Yn aml, bydd triniaeth yn parhau y tu hwnt i driniaeth gyntaf ac ar ôl i gloc stopio.
18. Ni fydd hunanatgyfeiriad nac apwyntiad dilynol a ysgogir gan glaf (SOS) yn dechrau cyfnod AiD oni fydd yn dilyn cyfnod ddim ar gael (gweler yr adran ar ddim ar gael, tudalen 29). Os gwneir penderfyniad newydd, yn dilyn yr apwyntiad hwn, i ddechrau neu newid cynllun rheoli, bydd yn dechrau cloc AiD newydd.
19. Efallai y caiff rhai cleifion eu mesur ar fwy nag un cyfnod AiD wrth reoli eu cyflwr mewn gofal eilaidd neu drydyddol. **Fodd bynnag, y rheol ar gyfer llwybr AiD cardiaidd yw bod y cloc yn parhau rhwng Blau a meddygon ymgynghorol.**
20. Ymhlith y digwyddiadau heblaw am driniaeth a all orffen cyfnod AiD mae:
 - Penderfyniad i beidio â thrin claf.
 - Dechrau cyfnod monitro gweithredol (gwyllo ac aros). Caiff cyfnod AiD cardiaidd newydd ei sbarduno os gwneir penderfyniad clinigol i roi'r gorau i fonitro gweithredol.
 - Atgyfeiriad rhwng meddygon ymgynghorol am gyflwr nad yw'n gardiaidd sy'n golygu na all y llwybr cardiaidd

Safbwynt y claf

Mae'r amser aros targed yn cynnwys yr amser o gael eich atgyfeiriad i ofal eilaidd i ddechrau unrhyw driniaeth ofynnol ar gyfer eich angen clinigol.

Mewn rhai achosion, efallai mai dim ond un cam mewn llwybr hwy fydd dechrau triniaeth.

Bydd eich llwybr triniaeth gofal eilaidd yn seiliedig ar eich angen clinigol.

Gyda'ch gweithiwr iechyd proffesiynol (meddyg, deintydd, nyrs neu therapyddion), dylech chwarae rôl weithredol yn trafod pob cam o'ch llwybr ac yn gwneud penderfyniadau yn ei gylch.

Dylech sicrhau eich bod yn deall y cam nesaf ar eich llwybr yn glir ar ôl pob cyfarfod/trafodaeth er mwyn i chi allu monitro eich llwybr eich hun.

barhau, y bydd y llwybr cardiaidd yn stopio ac y bydd cloc llwybr AiD cyffredinol newydd yn dechrau.

21. Rhoddir rhagor o fanylion am bwyntiau dechrau a stopio cloc yn ddiweddarach yn y ddogfen hon a cheir nifer o senarios yn atodiad A.
22. Rhaid i bob arhosiad am wasanaethau diagnostig a therapi fod yn rhan o'r llwybr AiD cardiaidd.

Noder: Bydd canllawiau ar wasanaethau cardioleg cymunedol yn dilyn, ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o'r gwasanaeth.

23. Mae'r tabl isod yn nodi rhai gwasanaethau penodol sy'n rhan o gwmpas y targed AiD cardiaidd 26 wythnos. Mae'r rhain yn wasanaethau y gofynnwyd am eglurder yn eu cylch wrth ddatblygu'r rheolau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Wedi'i gynnwys yng nghwmpas y targed AiD 26 wythnos	
Maes gwasanaeth/grŵp cleifion sydd wedi'i gynnwys	Nodiadau
Personél milwrol	Wedi'i gynnwys i'r graddau mae Blau sy'n gyfrifol am eu gofal. Nid yw'r targed yn gymwys i ofal wedi'i gomisiynu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn oni nodir hynny mewn cytundebau â'r BI. Mae amseroedd aros personél milwrol yn destun y ddarpariaeth yn y llythyr gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau at y Cyfarwyddwyr Cynllunio ym mis Gorffennaf 2011.
Carcharorion	Dylai carcharorion gael eu trin o fewn yr un targed amser aros â holl gleifion eraill y GIG. Derbynnir, mewn rhai achosion, y bydd amgylchiadau sy'n unigryw i'r boblogaeth hon a all olygu ei bod yn heriol iawn cyflawni'r targed AiD 26 wythnos. Dylai'r rhesymau manwl dros fynd y tu hwnt i'r amser targed ar gyfer y cleifion hyn gael eu cofnodi yn y dadansoddiad o'r methiant.
Cleifion Preifat	<p>Ni all claf fod yn glaf preifat ac yn glaf y GIG wrth drin un cyflwr yn ystod ymweliad unigol â sefydliad y GIG.</p> <p>Caiff unrhyw glaf preifat newid ei statws a cheisio triniaeth fel un o gleifion y GIG.</p> <p>Ni ddylai unrhyw glaf sy'n newid ei statws ar ôl derbyn gwasanaethau preifat gael mantais annheg dros gleifion eraill. (Neidio'r ciw)</p> <p>Dylai cleifion a atgyfeirir ar gyfer gwasanaeth y GIG yn dilyn ymgynghoriad preifat neu driniaeth breifat ymuno â rhestr aros y GIG ar yr un pwynt â phetai'r ymgynghoriad neu'r driniaeth flaenorol yn wasanaeth y GIG.</p> <p>Dylai eu blaenoriaeth ar y rhestr aros gael ei phennu ar sail yr un meini prawf â'r hyn sy'n gymwys i atgyfeiriadau eraill.</p> <p>Bydd ymuno â'r cam priodol yn dechrau cloc 26 wythnos newydd.</p> <p>Os bydd triniaeth eisoes wedi dechrau yn y sector preifat, yna ni fyddai atgyfeiriad o'r sector preifat i'r GIG yn dechrau cloc AiD newydd ond byddai'n cael ei gofnodi fel gofal dilynol parhaus. Dim ond petai newid</p>

sylweddol wedi'i gynllunio i driniaeth y byddai cloc AiD newydd yn dechrau.

Safbwynt y claf

Nid yw pob llwybr a thriniaeth yn cael eu cwmpasu gan y targed mynediad 26 wythnos.

Fodd bynnag, yr egwyddor o aros cyn lleied o amser â phosibl waeth beth fo'r llwybr yw'r rheol aur o hyd.

Os na fyddwch wedi clywed gan yr ysbyty bod eich atgyfeiriad wedi'i dderbyn, neu os na fyddwch wedi clywed am eich apwyntiad yn yr amser disgwylidig, gallwch ffonio'r ysbyty/maes i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr amseroedd aros disgwylidig.

O ganlyniad i natur arbenigol rhai llwybrau, efallai na fyddant yn cael eu cynnwys yn y targed 26 wythnos.

Dylech gael gwybod beth yw'r amseroedd aros disgwylidig ac, fel y nodwyd yn flaenorol, y rheol aur yw mai eich blaenoriaeth glinigol fydd y sbardun allweddol ac y dylech aros cyn lleied o amser â phosibl.

Eithriadau targed AiD 26 wythnos

24. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at ddau wasanaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghwmpas y targed AiD cardiaidd 26 wythnos. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Heb ei gynnwys yng nghwmpas y targed AiD 26 wythnos	
Maes gwasanaeth/ grŵp cleifion sydd heb ei gynnwys	Nodiadau
Achosion gofal brys	Unrhyw achos gofal brys. Rhoddir rhagor o wybodaeth am reoli atgyfeiriadau sy'n deillio o achos gofal brys yn y ddogfen hon.
Trawsblaniad a threialon clinigol	Pan gytunir ar opsiwn triniaeth lle ymunir â rhestr drawsblannu neu dreial clinigol, bydd y cloc AiD cardiaidd yn stopio. Mae'r amser aros ar gyfer y gwasanaethau hyn y tu allan i'r rheolau AiD.

Safbwynt y claf

Bydd y clinigydd sy'n atgyfeirio eich manylion i'w hadolygu yn eu hanfon i'r maes arbenigol sydd fwyaf priodol ar gyfer eich angen yn ei farn ef neu hi.

Dylai ond atgyfeirio'n benodol at feddyg ymgynghorol/gweithiwr meddygol proffesiynol wedi'i enwi lle:

1. ef neu hi yw'r unig glinigydd â'r sgiliau cydnabyddedig i ddelio â'ch anghenion clinigol **neu**
2. rydych wedi bod yng ngofal y clinigydd am yr un cyflwr/cyflwr tebyg yn ddiweddar.

Y gweithiwr meddygol proffesiynol sy'n cael ac yn adolygu eich atgyfeiriad fydd yn arddel barn glinigol am eich blaenoriaeth glinigol i'ch gweld. Yna, bydd yn hysbysu'r gwasanaethau trefnu apwyntiadau er mwyn cytuno ar eich apwyntiad.

Mae'n bwysig bod eich holl fanylion perthnasol yn gywir ac yn gyfredol megis: gwybodaeth gyswllt; anghenion cyfathrebu arbennig; os ydych yn gyn-aelod o'r lluoedd arfog ac ati.

Cyfrifoldebau clinigol

Cyfrifoldebau staff clinigol o ran monitro amseroedd aros

25. Mae amseroedd aros cleifion yn un o ddangosyddion ansawdd gwasanaeth. Dylai clinigwyr fod yn ymwybodol o'r amseroedd aros cyfredol sy'n gymwys i'w gwasanaeth, a gweithio gyda Blau er mwyn cymryd camau lle nad yw'r amseroedd aros hynny yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o ansawdd gofal.
26. Rhaid i staff clinigol fod yn ymwybodol o ofynion cenedlaethol a pholisïau sefydliadol o ran amseroedd aros. Fel rhan o hyn, dylent fod yn llwyr ymwybodol o'u hamseroedd aros cyfredol eu hunain a defnyddio'r wybodaeth hon i drafod opsiynau ac amseroedd aros posibl gyda'u cleifion ar hyd eu llwybr.
27. Dylai clinigwyr sicrhau bod eu camau gweithredu yn hyrwyddo'r egwyddor y dylai cleifion aros cyn lleied o amser â phosibl am driniaeth.
28. Dylai clinigwyr hefyd sicrhau bod cleifion yn ffit i barhau â'r driniaeth fwyaf priodol. Os nad ydynt yn ffit, dylid trafod hyn gyda'r claf er mwyn deall ei opsiynau.
29. Rhaid i atgyfeirwyr ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd darbodus er mwyn sicrhau y cymerir y camau atgyfeirio mwyaf effeithlon posibl, sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n lleihau'r camau sydd eu hangen er mwyn cael triniaeth.
30. Dylai clinigwyr wneud penderfyniadau mewn modd amserol, a dylai unrhyw atgyfeiriadau pellach gael eu cwblhau'n brydlon, yn ôl canllawiau lleol/cenedlaethol, a chynnwys gwybodaeth ddigonol er mwyn galluogi'r clinigydd sy'n gweld y claf i gymryd ymyriadau priodol gan sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl. Rhaid i atgyfeirwyr sicrhau bod y claf yn ymwybodol ac yn cytuno i'r atgyfeiriad gael ei wneud.
31. Rhaid i glinigwyr gydweithredu â systemau lleol cytûn er mwyn gallu cofnodi canlyniad clinigol pob rhyngweithiad â

chleifion, boed hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy lythyr.

- 32 Rhaid i glinigwyr mewn gofal eilaidd neu drydyddol sicrhau bod y claf a'i glinigydd gofal sylfaenol yn cael gwybod am bob penderfyniad a wneir am ei ofal neu driniaeth yn amserol, p'un a ydynt yn cael eu gwneud yng ngŵydd y claf ai peidio.
- 33 Rhaid i glinigwyr sicrhau bod unrhyw ymyriad clinigol fel profion neu driniaeth yn glir i gleifion, a ph'un a yw'n gam ar y llwybr cytûn neu'n cael ei ystyried yn ddechrau triniaeth ddiffiniol ac fel y cyfryw ei fod yn dod â chloc y llwybr i ben.

Safbwynt y claf

Dylech drafod y rheswm dros yr atgyfeiriad a'r opsiynau posibl gyda'r meddyg teulu neu'r gweithiwr proffesiynol.

Pan gytunwch gael eich atgyfeirio, rydych yn dechrau ar lwybr gofal a fydd yn defnyddio adnoddau gwerthfawr y GIG. Ar unrhyw adeg wrth i chi aros, os byddwch yn teimlo nad ydych am gael eich atgyfeirio mwyach, rhaid i chi roi gwybod i'ch meddyg teulu a'r ysbyty fel y gellir stopio eich llwybr.

Fel rhan o'r atgyfeiriad, efallai y gofynnir i chi am wybodaeth ychwanegol naill ai gan eich meddyg teulu neu'r ysbyty, y gall fod ei hangen er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich gweld gan yr unigolyn mwyaf priodol yn yr amser byrraf.

Atgyfeiriadau

34. Mae'r cyfnod AiD cardiaidd yn dechrau pan fydd atgyfeiriad gan feddyg teulu i feddyg ymgynghorol mewn gofal eilaidd yn cael ei dderbyn, a chan unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall lle mae protocolau atgyfeirio yn bodoli. Bydd y cloc yn dechrau ar y dyddiad y bydd y sefydliad yn cael yr atgyfeiriad.
35. Rhaid i atgyfeirwyr ddefnyddio'r camau atgyfeirio mwyaf effeithlon posibl, sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n lleihau'r camau sydd eu hangen er mwyn cael triniaeth, yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus. Fel rhan o'r wybodaeth atgyfeirio, dylai atgyfeirwyr gynnwys manylion cyswllt cyfredol cleifion sydd wedi'u dilysu, gan gynnwys rhifau ffôn symudol a chyfeiriadau e-bost lle maent ar gael. Dylai atgyfeirwyr ofyn am ganiatâd y claf i'r BI gysylltu ag ef neu hi mewn ffyrdd fel neges destun, e-bost neu dros y ffôn a dynodi a ganiateir i hyn. Dylid cynnwys hyn yn y wybodaeth atgyfeirio. Rhaid i Blau sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan yr unigolyn mwyaf priodol unwaith y daw'r atgyfeiriad i law ac y caiff ei dderbyn.
36. Dylai Blau roi gwybodaeth gyfredol i atgyfeirwyr am lwybr y claf a ddilynir, yr amser aros tebygol a ble y darperir y gwasanaeth, er mwyn cyfleu hyn yn glir i'r claf. Dylai unrhyw drafodaeth hefyd gael ei hategu gan wybodaeth ysgrifenedig i gleifion, a ddarperir naill ai yn ystod yr ymgynghoriad neu drwy eu cyfeirio at wybodaeth ychwanegol. Dylai Blau sicrhau bod systemau ar waith i ddiweddarau'r wybodaeth hon a sicrhau ei bod ar gael i atgyfeirwyr.
37. Os gwneir atgyfeiriad ar gyfer triniaeth nad yw'n cael ei chynnig gan y BI, dylai gael ei ddychwelyd at yr atgyfeiriwr gydag esboniad llawn, heb i unrhyw gloc ddechrau.
38. Pan wneir atgyfeiriad i glinigydd neu arbenigedd nad yw'n trin y cyflwr hwn, ond ei fod yn cael ei drin gan y BI, y BI sy'n gyfrifol

am gyfeirio'r atgyfeiriad at y clinigydd / tîm clinigol cywir ac nid yw'r cloc yn stopio.

39. Pan fydd y BI yn cyfeirio atgyfeiriad mewn camgymeriad at glinigydd nad yw'n trin y cyflwr hwn, ni fydd atgyfeiriad ymlaen at y clinigydd priodol yn stopio'r cloc. Rhaid i'r claf gael ei weld gan y meddyg ymgynghorol newydd o fewn yr un cyfnod AiD.
40. Pan na fydd atgyfeiriad yn cydymffurfio â chanllawiau atgyfeirio cytûn, ni ddylai'r atgyfeiriad ddechrau nes i'r atgyfeiriwr gadarnhau cydymffurfiaeth lawn a bod priodolrwydd yr atgyfeiriad wedi'i gadarnhau. Gall hyn gynnwys holiaduron penodol er mwyn cefnogi'r broses flaenoriaethu. Dylai Blau weithio gyda gofal sylfaenol er mwyn ymdrin ag atgyfeiriadau o'r fath o fewn 48 awr.
41. Os na fydd yr atgyfeiriad yn cynnwys digon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniad clinigol, dylai gael ei ddychwelyd at yr atgyfeiriwr i'w gwblhau, gyda chanllawiau ar yr hyn sydd ei angen. Bydd y cyfnod AiD yn parhau tra bod y wybodaeth yn cael ei chasglu gan nad yw'r oedi yn ymwneud â thorri'r cytundeb a rennir gan y claf, ond oherwydd proses y GIG.
42. Mae angen i Blau weithio gyda gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod llifau gwybodaeth o ansawdd da rhwng y ddau faes er mwyn cefnogi gofal cleifion effeithiol.
43. Pan fydd gofal cleifion yn trosglwyddo rhwng sefydliadau a/neu feddygon ymgynghorol, cyfrifoldeb y sefydliad sy'n trosglwyddo yw darparu'r dyddiad dechrau llwybr (DDLl) cywir. Dylai'r broses o gyfeirio cleifion ymlaen gael ei safoni â'r gofyniad bod y DDLl yn cael ei ddarparu gan y meddyg ymgynghorol sy'n atgyfeirio ar frig yr atgyfeiriad.
44. Rhaid i'r sefydliad sy'n derbyn sicrhau bod y DDLl a gyfathrebir yn glinigol yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac yn cael ei nodi yn ei system derbyn cleifion (SDC). Bydd hyn yn sicrhau bod yr arhosiad parhaus yn parhau'n gywir ar hyd y llwybr.

45. Mae'r DDLI ar gyfer cleifion o dan y categori monitro gweithredol neu wylidwraeth yn llai syml. Mae'r rhwydwaith cardiaidd wedi cytuno mai'r DDLI mwyaf priodol ar gyfer y cleifion hyn yw'r dyddiad pan wneir penderfyniad i drin:
- i) naill ai ar ôl cael atgyfeiriad gan feddyg ymgynghorol yn dilyn apwyntiad dilynol fel claf allanol, lle ystyrir bod symptomau wedi gwaethygu a bod angen ymyrryd; neu
 - ii) y dyddiad pan gaiff y meddyg ymgynghorol cardiaidd wybod am ddirywiad yn dilyn profion diagnostig.

Safbwynt y claf

Rôl yr ysbyty yw cynnig apwyntiad i chi o fewn y terfynau amser clinigol y gofynnir amdanynt gan eich meddyg ymgynghorol a, lle bo modd, o fewn yr amseroedd aros cenedlaethol.

Tra yr ymdrechir i sicrhau ei fod mor agos â phosibl i'ch cartref, yn dibynnu ar yr arbenigedd a'r amseroedd aros, efallai y bydd yr apwyntiad cyflymaf ar safle arall.

Cewch gynnig apwyntiad sy'n gweddu orau i'ch gofynion; fodd bynnag, cewch gyfle i'w newid os na fydd yn addas pan gaiff ei gynnig.

Unwaith y byddwch wedi cytuno ar apwyntiad, gallai unrhyw newidiadau dilynol sydd eu hangen arnoch arwain at aros mwy o amser neu hyd yn oed ddychwelyd eich gofal at eich meddyg teulu, os na fyddwch yn dod i apwyntiad heb roi gwybod ymlaen llaw.

Nodir y ffordd y caiff eich apwyntiad ei drefnu yn y llythyr/galwad ffôn/neges destun derbyn. Rhaid i chi gymryd rhan lawn yn y broses gytûn neu efallai yr effeithir ar eich amser aros.

Trefnu apwyntiad a chynnig rhesymol

Prosesau trefnu apwyntiad

46. Dylid trefnu pob apwyntiad i gleifion gan ddefnyddio'r system trefnu apwyntiadau sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae angen i'r prosesau a ddefnyddir gan Blau gael eu cyfleu'n glir i gleifion ar y pwynt atgyfeirio er mwyn sicrhau bod cleifion yn glir ynghylch eu rôl yn y broses leol. Dylai pob apwyntiad gael ei wneud gan gynnwys y claf a dylai ei rôl o ran gwneud unrhyw newidiadau fod yn glir o ran y ffordd y cytunir ar yr apwyntiad. Rhaid cadw at hyn, hyd yn oed lle nad oes gan y sefydliad fanylion cyswllt llawn y claf.
47. Ni ddylai unrhyw sefydliad fod yn ceisio cyfnodau ddim ar gael er mwyn cyflawni targedau. Dylai'r broses trefnu apwyntiad ganolbwyntio ar gytuno ar ddyddiad, ac nid yn syml gynnig dau apwyntiad yn unig (*gweler rhagor o fanylion am gynnig rhesymol*).
48. Lle defnyddir model cwbl awtomataidd, a bod y BI yn anfon llythyr/neges destun at y claf, neu'n ei ffonio, yn cynnig dyddiad iddo, dylai fod gan y BI broses ar waith sy'n galluogi'r claf i chwarae rôl weithredol o ran newid yr apwyntiad os nad yw'n gyfleus. Mae angen i gleifion fod yn glir ynghylch eu rôl yn cytuno ar ddyddiadau wrth fodloni egwyddorion cyd-gynhyrchu. Mae angen i'r broses hon gael ei hegluro i'r cleifion yn glir wrth eu hatgyfeirio. Lle bynnag y bo modd, dylai sefydliadau sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn eu tro, gan alluogi ystyried blaenoriaeth glinigol (*gweler yr adran ar drefnu apwyntiad yn uniongyrchol ac yn rhannol*).
49. Os gwelir claf o fewn chwe wythnos, dylai system trefnu apwyntiadau uniongyrchol gael ei defnyddio. Os bydd yr apwyntiad fwy na chwe wythnos i ffwrdd, bydd angen cadarnhau derbyn yr atgyfeiriad drwy lythyr, neges destun neu dros y ffôn.

Safbwynt y claf

Yn aml, efallai y bydd yr ysbyty am gysylltu â chi dros y ffôn. Sicrhewch fod gan eich meddyg teulu a'r ysbyty eich manylion diweddaraf.

Os bydd unrhyw broblem yn cysylltu â chi drwy neges destun neu dros y ffôn, rhowch wybod i'ch meddyg teulu a'r ysbyty.

50. Rhaid i bob ymgais i gysylltu â'r claf o dan y prosesau trefnu apwyntiadau gael eu cofnodi a bod ar gael i'w harchwilio.

Trefnu apwyntiad yn uniongyrchol

51. Gall y broses o drefnu apwyntiad yn uniongyrchol ddigwydd mewn dwy ffordd. Gall apwyntiad naill ai gael ei drefnu wyneb yn wyneb â'r claf neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r claf drwy llythyr/e-bost a/neu neges destun.
52. O dan y broses trefnu apwyntiad yn uniongyrchol, os gwneir yr apwyntiad dros y ffôn, dylai'r Bl geisio gysylltu â'r claf ddwywaith o leiaf. Rhaid i'r galwadau ffôn hyn ddigwydd ar ddiwrnodau gwahanol, a rhaid i o leiaf un fod y tu allan i oriau gwaith arferol (dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm). Os na lwyddwyd i gysylltu â'r claf, rhaid anfon llythyr ato yn gofyn iddo ffonio a threfnu apwyntiad neu gadarnhau y bydd yn dod iddo. Os na fydd y claf wedi ymateb i'r llythyr yn ei atgoffa o fewn pythefnos i ddyddiad anfon y llythyr, a bod o leiaf bedair wythnos wedi mynd heibio ers ceisio cysylltu ag ef y tro cyntaf, dylai'r claf gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, gan roi gwybod i'r claf a'r atgyfeiriwr.

Trefnu apwyntiad yn rhannol (proses dau gam)

53. O dan y broses trefnu apwyntiad yn rhannol, rhaid anfon cydnabyddiaeth at y claf pan fydd yr atgyfeiriad yn dod i law a'i fod wedi'i dderbyn. Dylai hon egluro'r broses o drefnu'r apwyntiad ar ei gyfer. Yna, dylai llythyr gael ei anfon at y claf bedair wythnos cyn y disgwylir ei weld, yn gofyn iddo ffonio a threfnu apwyntiad yn y 10 diwrnod nesaf (llythyr galwad ffôn).
54. Os na fydd y claf wedi ymateb i'r llythyr galwad ffôn o fewn pythefnos, dylid anfon llythyr yn ei atgoffa neu gysylltu ag ef mewn ffordd arall (e-bost, neges destun, ac ati) gan ofyn iddo gysylltu o fewn pythefnos arall a nodi, os na wneir hynny, y caiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros.

Safbwynt y claf

Mae ystod eang o apwyntiadau mewn llawer o arbenigeddau, a gall y dewis o ddyddiadau ac amseroedd ar gyfer un arbenigedd fod yn gyfyngedig.

Gwneir pob ymdrech i gytuno ar ddyddiad addas gyda chi ond gall fod angen bod yn hyblyg er mwyn cytuno ar ddyddiad ac amser addas pan gynhelir y clinig sydd ei angen arnoch.

Os na fyddwch yn gallu mynd i apwyntiad yn ystod y cyfnod yr anelir ato, gwneir addasiad i'ch cloc amser aros, ac eglurir hyn i chi pan drefnir eich apwyntiad.

55. Os bydd y broses trefnu apwyntiad leol yn anfon dyddiad arfaethedig ar gyfer yr apwyntiad yn yr ail lythyr, (ar ôl y llythyr cydnabod o'r atgyfeiriad), dylai'r claf gael gwybod yn glir beth yw ei opsiynau a'r amserlen (pythefnos) er mwyn newid yr apwyntiad hwn. Ar ôl y dyddiad hwn, tybir bod yr apwyntiad wedi'i gytuno gan y naill ochr a'r llall ar yr amod bod y dyddiad wedi'i anfon o fewn tair wythnos i'r dyddiad a gynigir. Rhaid cynnig y cyfle i gadarnhau'r dyddiad, naill ai drwy atgoffa'r claf dros y ffôn neu drwy neges destun.

Methu â chysylltu â chlaf

56. Os na fydd y claf wedi ymateb i'r broses o drefnu apwyntiad o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y ceisiwyd cysylltu ag ef y tro cyntaf, dylai gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, gan roi gwybod i'r atgyfeiriwr.

Cynnig rhesymol

57. Diffinnir cynnig rhesymol i glaf fel unrhyw ddyddiad y mae'r claf a'r sefydliad yn cytuno arno. Gellir ond cymhwyso rheolau amseroedd aros ar sail y cynnig hwn wedyn (e.e. Methu Dod, Heb Ddod) os cytunwyd ar ddyddiad yr apwyntiad gan y naill ochr a'r llall, ac felly yr ystyrir ei fod yn rhesymol.
58. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod y naill ochr a'r llall yn cytuno ar apwyntiadau, a bod y claf wedi cael cynnig dewis o ddyddiadau o fewn y terfynau amser cytûn, os oes angen er mwyn cytuno ar ddyddiad.
59. Dylai cleifion gael cynnig nifer o ddyddiadau a/neu amseroedd posibl, y mae'n rhaid i ddau ohonynt o leiaf fod fwy na phythefnos i ffwrdd. (gweler y rheolau ar gyfer rhesymoldeb nifer y cynigion o dan bara 63).
60. Dylai cleifion gael cynnig apwyntiadau mewn unrhyw leoliad sy'n darparu'r gwasanaeth gofynnol, yn ddelfrydol mewn lleoliad sydd agosaf i'w cartref. Ystyrir bod lleoliadau sydd bellter o gartref y claf yn rhesymol os eglurwyd hyn i'r claf pan gafodd ei atgyfeirio

Safbwynt y claf

Caiff cleifion nad ydynt wedi cadw apwyntiad ar unrhyw adeg ar hyd y llwybr ac nad ydynt wedi hysbysu'r sefydliad ymlaen llaw eu nodi'n rhai 'heb ddod'.

Oni fydd y clinigydd o'r farn y caiff hyn effaith glinigol ar eich gofal, bydd eich cloc yn stopio a chaiff eich gofal ei atgyfeirio'n ôl at eich meddyg teulu.

Os bydd y clinigydd am eich gweld o hyd, caiff eich amser aros ei ailosod i'r dyddiad na wnaethoch ddod i'ch apwyntiad.

neu wrth gael y gydnabyddiaeth o'r atgyfeiriad.

61. Rhaid i bob dyddiad a gynigir gael ei gofnodi a bod ar gael i'w archwilio wedyn. Os na chaiff y wybodaeth ofynnol ei chofnodi, nid ystyrir bod cynnig rhesymol wedi'i wneud.
62. Gellir ailosod lle na fu modd cytuno ar ddyddiad addas o fewn y cyfnod trefnu apwyntiad roeddech yn ei gynllunio'n wreiddiol. Bydd yr addasiad ar gyfer yr amser rhwng y cyfnod trefnu apwyntiad a gynlluniwyd gennych i ddyddiad yr apwyntiad y byddwch yn cytuno arno'n derfynol gyda'r claf.

Gwrthod cynnig rhesymol

63. Gellir ond tybio bod claf wedi gwrthod cynnig rhesymol pan gynigiwyd o leiaf ddau apwyntiad â chyfnod priodol rhyngddynt, ac ar ddyddiadau amgen, ac na fu'n bosibl cytuno ar apwyntiad. Efallai na fydd dau apwyntiad yn bosibl ar gyfer rhai apwyntiadau, fel cytuno ar leoliadau triniaeth, dyddiadau profion diagnostig neu ar gyfer clinigau a gynhelir unwaith y mis yn unig. Mae'n briodol arfer disgrisiwn lleol o ran cynnig rhesymol yn yr achosion hyn, a dylai hyn gael ei egluro i'r claf a'i nodi yn ei gofnodion. *(Gall hefyd fod yn fuddiol cynnig mwy na dau ar y tro lle mae'n rhesymol gwneud hynny)*
64. Os bydd y claf yn datgan nad yw ar gael yn y cyfnod o amser lle gwneir y cynigion, bydd y rheolau diffyg argaeledd cymdeithasol yn gymwys (gweler yr adran ar dudalen 29).
65. Os bydd y claf ar gael yn ystod cyfnod y cynnig, ond ei fod yn gwrthod cynnig rhesymol, caiff y cloc ei ailosod. Bydd y cloc newydd yn dechrau ar y dyddiad y mae'r claf yn gwrthod yr apwyntiadau a gynigiwyd iddo.

Methu dod (CNA)

66. Nodir methu dod pan fydd y claf wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw na all ddod i apwyntiad y cytunwyd arno. Gall claf roi rhybudd ymlaen llaw hyd at, a chan gynnwys, diwrnod yr apwyntiad ond

cyn union amser yr apwyntiad.

67. Os bydd claf yn methu dod ar unrhyw adeg yn ystod ei llwybr, rhaid trefnu apwyntiad newydd y cytunir arno gan y naill ochr cyn gynted â bod y claf ar gael a chaiff ei gloc ei ailosod ond bydd yn parhau ar gam presennol y llwybr. Dylai'r claf gael gwybod am ailosod y cloc wrth aildrefnu'r apwyntiad.
68. Os bydd ail achos o fethu dod o fewn yr un llwybr AiD, dylid ystyried bod y claf heb ddod gan ei fod wedi torri'r "compact" i fod ar gael yn rhesymol, ac fel y cyfryw mae mewn perygl o gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, a'r atgyfeiriwr fydd yn gyfrifol am ei ofal parhaus eto. Rhaid i'r claf a'r atgyfeiriwr gael gwybod y caiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros yn briodol.
69. Os bydd y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am y claf o'r farn na ddylid gwneud hynny, am resymau clinigol, gall barhau ar y llwybr a chaiff ei gloc ei ailosod.

Heb ddod (DNA)

70. Os na fydd y claf yn dod i apwyntiad y cytunwyd arno heb roi rhybudd, dylai'r claf gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, a'r atgyfeiriwr fydd yn gyfrifol am ei ofal parhaus eto. Rhaid i'r claf a'r atgyfeiriwr gael gwybod y caiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros yn briodol.
71. Os bydd y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am y claf o'r farn na ddylid gwneud hynny, am resymau clinigol, bydd yn parhau ar y llwybr a chaiff ei gloc ei ailosod.
72. Gellir ailosod statws heb ddod ddwywaith mewn unrhyw llwybr AiD penodol. Rhaid rhoi gwybod i'r claf a'r atgyfeiriwr am hynny ar lafar a/neu drwy lythyr pan gysylltir yn y dyfodol. Os na fydd y claf yn dod i apwyntiad deirgwaith neu fwy, a bod y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol o'r farn y dylai aros ar y rhestr aros, dylai'r llwybr gael ei stopio a dylai'r clinigydd ysgrifennu at yr atgyfeiriwr a'r claf gan geisio eglurhad bod angen iddo barhau ar y llwybr. Dim ond os caiff hyn ei gadarnhau gan yr atgyfeiriwr a'r

claf y bydd yn cael ailymuno â'r rhestr aros ac y caiff y cloc ei ailosod i ddyddiad cadarnhad yr atgyfeiriwr a'r claf eu bod am i'r claf aros ar y llwybr. Dylai ailddechrau ar y cam mwyaf priodol o'r llwybr yn seiliedig ar ei angen clinigol a'i llwybr yn y gorffennol.

Safbwynt y claf

Dylai unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar reolaeth glinigol eich gofal ac a wnaed pan nad oeddech yn bresennol gael ei ddogfennu a'i rannu â chi a'ch meddyg teulu.

Fel rhan o unrhyw ryngweithio rhyngoch chi a'ch tîm clinigol, dylech gael gwybod beth yw'r cam disgwylidig nesaf ac unrhyw opsiynau posibl.

Os bydd yr ysbyty yn canslo apwyntiad, caiff un arall ei drefnu cyn gynted â phosibl. Ni chaiff eich amser aros ei addasu ar gyfer y newid hwn a bydd y cloc yn parhau i dician. Mae angen i'r ysbyty wneud pob ymdrech i barhau i ddiwallu'r anghenion clinigol a chenedlaethol ar gyfer eich anghenion.

Yn dibynnu ar eich llwybr a rhai o'ch dewisiadau, gall y cloc gael ei addasu. Os bydd unrhyw newid ar hyd y llwybr o ganlyniad i'r ysbyty ni ddylai unrhyw addasiad gael ei wneud.

Canlyniadau derbyn

(*Rhoddir senarios enghreifftiol yn Atodiad A Tudalen 41*)

73. Rhaid i ganlyniad gael ei gofnodi yn y system wybodaeth ar gyfer pob rhyngweithiad â chlaf, p'un a yw'n bresennol ai peidio.
74. Bydd y canlyniad yn perthyn i un o dri chategori: cloc yn parhau, cloc yn stopio, neu gloc newydd yn dechrau.
75. Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r broses o godio canlyniadau ar ôl unrhyw achos o ryngweithio â chlaf, naill ai wyneb yn wyneb neu mewn ffordd rithwir, er mwyn lleihau'r angen i ddilysu gweithgarwch heb ei godio.

Canlyniadau cloc yn parhau

76. Defnyddir canlyniad cloc yn parhau i ddiffinio pwyntiau penderfynu ar hyd y llwybr lle bydd y cloc presennol yn parhau. O fewn cyfnod AiD, bydd y cloc yn parhau i dician nes gwneir penderfyniad clinigol i stopio. Pan nad oes cyfnod AiD cyfredol, bydd y cloc blaenorol yn parhau ar stop. *Gall cloc newydd ddechrau os bydd angen clinigol claf yn newid wrth ddarparu gofal dilynol parhaus.*
77. Os caiff apwyntiad ei ganslo gan y sefydliad, bydd y cloc yn parhau, a rhaid i apwyntiad newydd gael ei drefnu heb wneud unrhyw addasiad i gloc y llwybr ar gyfer y newid hwn.
78. **Bydd pob atgyfeiriad o fewn llwybr AiD cardiaidd at brofion diagnostig, gwasanaethau therapi neu asesiadau anesthetig yn gwneud i'r cloc barhau.**
79. Pan fydd y claf wedi cael gwybod am opsiynau gwasanaeth a chanlyniadau aros gyda meddyg ymgynghorol wedi'i enwi (a/neu safle ysbyty), gall y sefydliad ailosod y cloc i'r dyddiad y cafodd y claf wybod gan y sefydliad am ei benderfyniad. Dylai'r claf gael gwybod am ganlyniadau ei benderfyniad ar lafar neu'n

Safbwynt y claf

Er ei bod yn glir pan fydd cloc yn dechrau pan ddaw eich atgyfeiriad i law'r ysbyty, gall y cloc gael ei stopio am sawl rheswm; fodd bynnag, dylech chwarae rôl weithredol yn y broses hon.

Y prif bwynt stopio yw pan fydd y driniaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer eich cyflwr yn dechrau, os oes angen triniaeth arnoch.

Yn dibynnu ar eich angen clinigol, gall dechrau triniaeth olygu'r dechrau'n deg, ond i eraill gall olygu diwedd y cyfnod penodol hwnnw o ofal.

ysgrifenedig. Byddai disgwyl i gleifion gadw eu lle ar y rhestr aros er mwyn cydnabod eu harhosiad blaenorol a chael eu trin yn briodol pan fo adnoddau ar gael. O fewn amseroedd aros wedi'u cofnodi, gwelir hyn fel trin claf allan o drefn ond mae'n rhesymol ac yn deg i arhosiad gwirioneddol cleifion. Dim ond *unwaith* y gellir ailosod o fewn llwybr claf unigol. Rhaid i'r claf gael gwybod am ganlyniadau ei benderfyniad, o ran ei amseroedd aros disgwyledig newydd pan wnaiff y penderfyniad, ar lafar neu'n ysgrifenedig.

80. Pan gaiff claf ei atgyfeirio o sefydliad y GIG at sefydliad yn y sector annibynnol fel rhan o lwybr y GIG, bydd y cloc yn parhau.

Canlyniadau cloc yn stopio

81. Defnyddir canlyniad cloc yn stopio i ddiffinio pwyntiau penderfynu ar hyd y llwybr lle bydd cyfnod AiD presennol yn gorffen.
82. Defnyddir canlyniadau cloc yn stopio ar gyfer digwyddiadau sy'n gyfystyr â thriniaeth, penderfyniad nad oes angen unrhyw driniaeth neu lle nad yw'r claf ar gael am resymau meddygol neu gymdeithasol sy'n hwy na'r cyfnodau y cytunwyd arnynt.
83. Diffinnir triniaeth fel ymyriad clinigol y bwriedir iddo, ar adeg yr ymyriad, reoli cyflwr y claf. Mae hyn yn cynnwys pob triniaeth ar hyd y llwybr cardiaidd, gan gynnwys llawdriniaeth gardiaidd, TAVI, ymyriad coronaidd, abladiad, dyfeisiau rhythm y galon ac amseriaduron.
84. Isod ceir rhai enghreifftiau o driniaeth ddiffiniol (noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

Ailfasgwlaiddio	Angioplasti (Ymyriad Coronaidd drwy'r Croen) CABG (llawdriniaeth i ddargyfeirio'r rhydweliâu coronaidd)
Llawdriniaeth Falf	Llawdriniaeth falf aortig Llawdriniaeth falf feitrol Llawdriniaeth falf aortig a meitrol gyfunol
Llawdriniaeth gardiaidd arall	Llawdriniaeth gardiaidd gynhenid i oedolion Tiwmorau Llawdriniaethau eraill ee. tynnu pericardiwm
Therapi drwy ddyfais a therapi triniaethol arall	Rheoliaduron ar gyfer rhwystr ar y galon Diffibrilwyr mewnblianadwy ar gyfer arhythmia Rheoliaduron deufrentigol ar gyfer methiant y galon Cardiofersiwn DC ar gyfer ffibriliad atrïaidd Abladiad
Diweddbwyntiau meddygol	Cychwynnir therapi meddygol diffiniol yn dilyn asesiad cynhwysfawr gan y cardiolegydd <i>Ni fyddai treial therapi meddygol cyn ailystyried ailfasgwlaiddio yn cael ei gynnwys</i>

85. Pan roddir triniaeth mewn lleoliad nad yw'n derbyn cleifion, bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad y bydd y driniaeth yn dechrau.
86. Pan roddir triniaeth yn dilyn derbyn claf, bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad derbyn. Os na chaiff y driniaeth ei rhoi pan fo'r claf wedi'i dderbyn, rhaid rhoi'r gorau i stopio'r cloc a bydd y cloc yn parhau.
87. Pan wneir penderfyniad i beidio â thrin claf ar y pryd, bydd y cloc yn stopio. Gall y penderfyniad hwn fod yn un clinigol, gan gynnwys monitro gweithredol, neu gall y claf benderfynu gwrthod neu oedi triniaeth. Bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad y rhoddir gwybod i'r claf am y penderfyniad.

Safbwynt y claf

Ar gyfer rhai llwybrau, gallai eich clinigydd gynnig cymryd rhan mewn treial clinigol. Cynigir hyn yn seiliedig ar eich cyflwr clinigol ac mewn ymgynghoriad â chi. Bydd angen i chi ystyried hyn a'i drafod â'ch clinigydd.

Yn ystod eich llwybr, gallwch gael eich anfon am brofion neu driniaethau therapi, a all gael eu hystyried yn opsiynau triniaeth posibl. Dylid egluro hyn i chi.

Os mai'r dewis opsiwn yw triniaeth/llawdriniaeth bydd yn bwysig sicrhau eich bod yn ffit pan fo angen.

Os byddwch yn mynd yn sâl gyda chyflwr arall tra'ch bod yn aros sy'n golygu nad ydych yn ddigon iach i gael triniaeth, gellir gwneud addasiad i'ch arhosiad, tra'ch bod yn gwella.

Os bydd hyn ar gyfer cyflwr mwy hirdymor sydd dros dair wythnos, cewch eich tynnu oddi ar y rhestr aros a byddwch chi, a'ch meddyg teulu, yn cael llythyr sy'n egluro'r rhesymau a'r canllawiau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer dychwelyd i'r llwybr ar ddyddiad diweddarach.

88. Pan gaiff claf ei drosglwyddo rhwng meddygon ymgynghorol gwahanol oherwydd anghenraid clinigol, heblaw am rai cardiaidd, sy'n atal y llwybr cardiaidd presennol rhag cael ei gwblhau, bydd y cloc cardiaidd yn stopio. Fodd bynnag, os mai cais am gyngor yw hyn yn syml, ni chaiff y cloc cardiaidd ei stopio a rhaid i amser aros y claf gael ei reoli o fewn y cyfnod AiD cardiaidd o 26 wythnos.
89. Y dyddiad yr eglurir i'r claf fod cyfrifoldeb clinigol am ei ofal yn cael ei drosglwyddo i feddyg ymgynghorol arall (**nid ar y llwybr cardiaidd**) fydd y dyddiad y caiff y cloc cardiaidd ei stopio. Pan gaiff yr ail feddyg ymgynghorol (**nid ar y llwybr cardiaidd**) yr atgyfeiriad, bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau. Dylai'r sefydliad sy'n cael yr atgyfeiriad ystyried yr amser mae'r claf eisoes wedi aros wrth benderfynu ar flaenoriaeth/amserlenni triniaeth.
90. Os bydd claf yn ymuno â threial clinigol neu'n cael ei ychwanegu at restr drawsblannu, bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad y caiff y claf wybod am y penderfyniad.
91. Os bydd claf yn dewis cael cam(au) nesaf ei lwybr yn breifat y tu allan i'r GIG, bydd y cloc yn stopio pan gaiff y sefydliad wybod am hyn.
92. Pan fydd triniaeth ddiagnostig yn newid i ymyriad therapiwtig sy'n bodloni'r diffiniad o driniaeth, bydd y cloc yn stopio. Dyddiad yr ymyriad fydd y dyddiad y caiff y cloc ei stopio.
93. Ystyrir bod atgyfeiriad ar gyfer triniaeth therapi lle mai dyma'r ymyriad y bwriedir iddo reoli cyflwr y claf (triniaeth) yn ddechrau triniaeth ddiffiniol a chaiff y cloc ei stopio.
94. Os caiff claf ei dderbyn fel achos brys a'i fod yn cael ymyriad ar gyfer y cyflwr y mae ganddo gyfnod AiD cardiaidd agored ar ei gyfer, a bod yr ymyriad yn bodloni'r diffiniad o driniaeth, caiff y cloc ei stopio. Dyddiad yr ymyriad fydd y dyddiad y caiff y cloc ei stopio.

95. Os na fydd claf yn dod i apwyntiad ac y tybir ei fod yn glinigol briodol ei dynnu oddi ar y rhestr, neu ei fod yn methu dod am yr eildro yn ystod y llwybr, neu ei fod ddim ar gael am fwy nag wyth wythnos mewn un cyfnod, bydd y cloc yn stopio. Dyddiad stopio'r cloc fydd y dyddiad y daw'r sefydliad yn ymwybodol o'r digwyddiad.
96. Os bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig o'r farn bod gan glaf gyflwr meddygol na chaiff ei ddatrys o fewn 21 diwrnod, dylai'r claf gael ei ddychwelyd at ei glinigydd atgyfeiriol, neu glinigydd arall a wnaiff drin y cyflwr, a bydd y cloc yn stopio. Dyddiad stopio'r cloc fydd y dyddiad y tybir nad yw'r claf ar gael yn feddygol ar gyfer y cyfnod hwn.
97. Os caiff claf ei dynnu oddi ar y rhestr aros am resymau heblaw am driniaeth, rhaid i'r claf a'i atgyfeiriwr gael gwybod am hyn a'r rhesymau dros y penderfyniad. Rhaid i'r wybodaeth a roddir gynnwys y rhesymau llawn dros wneud y penderfyniad a'r canllawiau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer dychwelyd i'r llwybr. Rhaid cadw llwybr archwilio llawn o'r ohebiaeth hon.
98. Os yw'r claf a gaiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros o dan 18 oed, rhaid ystyried goblygiadau amddiffyn plant a'r risgiau iddo os caiff ei dynnu oddi arni, gan eu dogfennu hefyd. Os yw'r claf o dan bump oed, dylai'r ymwelydd iechyd gael gwybod ei fod wedi'i dynnu oddi ar y rhestr aros.

Canlyniadau cloc newydd yn dechrau

99. Ar ôl stopio cloc cardiaidd, dylai claf ond parhau i gael ei adolygu gan y clinigydd lle bo angen hyn am resymau clinigol. Pan barheir i adolygu claf ac y gwneir penderfyniad newydd i'w drin, dylai cyfnod AiD cardiaidd newydd ddechrau. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y gwneir y penderfyniad newydd i'w drin neu ymchwilio ymhellach **naill ai** mewn apwyntiad dilynol cleifion allanol, lle ystyrir bod symptomau wedi gwaethygu a bod angen ymyrryd, **neu** y dyddiad pan gaiff y meddyg ymgynghorol

cardiaidd wybod fod y claf wedi gwaethygu yn dilyn profion diagnostig.

100. Pan fo newid sylweddol mewn triniaeth barhaus ac na ellir dechrau'r driniaeth newydd ar yr adeg y caiff y newid ei drafod â'r claf, bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau. Enghraifft o hyn yw pan ystyrir nad yw triniaeth feddyginiaethol yn effeithiol mwyach ac mai ymyriad yw'r driniaeth orau bellach, byddai cloc newydd yn cael ei ddechrau pan wneir y penderfyniad hwn ac yn parhau nes i'r claf gael ei dderbyn am y llawdriniaeth. Dylid cadw llwybr archwilio llawn o hyn. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y caiff y claf wybod am y penderfyniad i newid y driniaeth. Ni fydd newid cynyddol i driniaeth barhaus yn dechrau cyfnod Ai D newydd: enghraifft o hyn yw ffisiotherapi a gynigir er mwyn helpu i leddfu poen yn barhaus.
101. Wrth dderbyn claf nad yw ar restr aros gardiaidd mewn achos brys, lle ystyrir bod angen triniaeth ddewisol gardiaidd arno ar ôl ei ryddhau, caiff cloc cardiaidd newydd ei ddechrau ar ôl ei ryddhau o'i gyfnod brys yn yr ysbyty. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y caiff ei ryddhau o'i arhosiad brys.
102. Pan fydd claf wedi'i dynnu oddi ar y rhestr aros am resymau heblaw am driniaeth, yn bennaf nad yw wedi bod ar gael wrth geisio trefnu apwyntiadau, dylai sefydliadau adael i'r claf hunanatgyfeirio yn ôl i'r llwybr yn hytrach na chreu atgyfeiriad newydd drwy'r meddyg teulu ar yr amod bod y claf bellach yn ymrwymo i fod ar gael. (Dylid arfer disgresiwn lleol a chyfathrebu â'r claf). Dylai'r claf ddychwelyd i'r llwybr ar y pwynt clinigol mwyaf priodol, a bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y daw'r atgyfeiriad i law'r BI. Y cyfnod mwyaf a ganiateir rhwng tynnu claf oddi ar y rhestr aros a hunanatgyfeiriad yw chwe mis. Ar ôl hyn, dylai atgyfeiriad newydd gael ei greu. Gall y cyfnod o chwe mis gael ei ymestyn yn amhenodol yn achos clinigau 'claf arbenigol' neu SOS (See on Symptoms), lle mae canllawiau ar waith ac wedi'u cytuno ar y

cyd gan y clinigydd a'r claf er mwyn hwyluso'r defnydd priodol o SOS ar gyfer pob claf.

Addasiadau

Claf ddim ar gael

103. Pan na fydd claf ar gael oherwydd cyflwr meddygol byrdymor, fel annwyd, gall addasiad gael ei wneud i'r cyfnod AiD. Lle gall hyn gael ei wneud gan staff derbynfa, lle bo'n ofynnol dylai gael ei gefnogi gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig, sy'n cytuno bod gan glaf gyflwr a wnaiff gael ei ddatrys o fewn 21 diwrnod. Dylai'r claf aros ar y rhestr aros weithredol a gall addasiad o hyd at 21 diwrnod gael ei wneud. Os bydd gweithiwr meddygol proffesiynol cymwysedig o'r farn nad yw'n gyflwr a ddylai gael ei ddatrys mewn 21 diwrnod, dylai'r cloc gael ei stopio.
104. Dylai'r addasiad ddechrau o'r dyddiad y penderfynir nad yw'r claf yn ffit yn feddygol a dylai barhau tan y dyddiad y datgenir bod y claf yn ffit i gael triniaeth. Ni ddylai'r cyfnod hwn fod yn fwy na 21 diwrnod ar bob cam o'r llwybr.
105. Os caiff claf ei adolygu ar ôl y cyfnod y disgwyliwyd iddo wella ac nad yw hynny wedi digwydd, neu fod cyflwr arall wedi datblygu, dylai'r claf gael ei ddychwelyd at ei glinigydd atgyfeiriol, neu glinigydd arall a wnaiff drin y cyflwr, a daw'r cyfnod AiD i ben. Ni all ail gyfnod 21 diwrnod gael ei roi ar waith ar yr un cam o'r llwybr.
106. Pan na fydd claf ar gael am resymau cymdeithasol, gall addasiad gael ei wneud i'r cyfnod AiD (*uchafswm o wyth wythnos*).
107. Pan fydd llai na phythefnos pan nad yw ar gael, ni chaiff unrhyw addasiad ei wneud.
108. Pan na fydd y claf ar gael am gyfnod o bythefnos i wyth wythnos, gall addasiad gael ei wneud am y cyfnod llawn nad yw ar gael.

109. Pan na fydd y claf ar gael am fwy nag wyth wythnos, dylai'r claf gael ei ddychwelyd at yr atgyfeiriwr ond dylai hyn gael ei drafod a'i gytuno gan ei feddyg ymgynghorol.

Atebolrwydd

Cofnodi a chyflwyno adroddiadau

Fformatau adrodd

110. Rhaid cofnodi pob targed yn ôl gofynion Geiriadur Data GIG Cymru. Rhaid i sefydliadau gyfeirio at y geiriadur data am fanylion fformatau, meysydd, amserlenni a llwybrau adrodd gofynnol.
111. Rhaid i Blau sicrhau bod systemau priodol ar waith i nodi'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn bodloni'r gofynion adrodd.

Atebolrwydd am fonitro llwybrau agored

112. Y BI sydd â chyfrifoldeb clinigol cyfredol am y claf sy'n atebol am fonitro llwybr y claf hwnnw.
113. Pan fydd cyfnod AiD cardiaidd y claf yn cynnwys mwy nag un sefydliad neu system wybodaeth, rhaid i Blau sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod modd rhannu gwybodaeth briodol a mesur cyfnodau AiD yn gywir, yn enwedig ar gyfer llwybrau cardiaidd pan fo'r cloc yn parhau ar hyd y llwybr o'r atgyfeiriad i'r ymyriad a/neu lawdriniaeth.
114. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr sector annibynnol (nad yw'n rhan o'r GIG), y BI sy'n comisiynu'r llwybr sy'n atebol am fonitro llwybr y claf hwnnw. Rhaid i Blau sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod y cyfnodau AiD cardiaidd yn cael eu mesur yn gywir.
115. Pan wneir atgyfeiriad at ddarparwr y GIG yn Lloegr, darparwr y GIG yn Lloegr sy'n atebol am fonitro llwybr y claf hwnnw. Rhaid i ddarparwyr y GIG yn Lloegr sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei

rhannu, a bod cyfnodau AiD yn cael eu mesur yn gywir. Mae angen i dargedau Cymru gael eu rhannu fel rhan o unrhyw gontract â darparwyr eraill y GIG (Cymru a Lloegr).

Atebolrwydd am berfformiad

116. Pan gaiff cyfnod AiD y claf ei reoli'n gyfan gwbl o fewn un BI, y BI hwnnw sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau.
117. Pan fydd cyfnod AiD y claf yn cynnwys mwy nag un BI, BI cartref y claf sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau AiD.
118. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr sector annibynnol, y BI sy'n comisiynu'r gweithgarwch sy'n atebol.
119. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr yn Lloegr, y BI sy'n comisiynu'r gweithgarwch sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau.
120. Pan gaiff llwybr y claf ei gomisiynu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y byrddau iechyd y mae'r Pwyllgor yn comisiynu ar eu rhan sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau. Y bwrdd iechyd â chyfrifoldeb clinigol dros y claf ar ddyddiad cofnodi'r cyfrifiad sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn yr amser aros llwybr agored. Rhaid i bob bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith er mwyn bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod cyfnodau AiD yn cael eu mesur yn gywir.

Atebolrwydd am adrodd

121. Y BI â chyfrifoldeb clinigol dros y claf ar ddyddiad cofnodi'r cyfrifiad sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn targed yr amser aros llwybr agored.
122. Y BI â chyfrifoldeb clinigol dros y claf ar adeg triniaeth sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed amser aros llwybr caeedig.
123. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr sector annibynnol, y BI sy'n comisiynu'r llwybr sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed. Rhaid i Blau sicrhau bod

protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod y cyfnodau AiD yn cael eu cofnodi'n gywir. Pan wneir atgyfeiriad at ddarparwr yn Lloegr, y darparwr hwnnw sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed. Rhaid i Blau sicrhau bod gofynion adrodd wedi'u cynnwys yn gytundebol mewn trefniadau comisiynu.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn cynnig diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon. Lle bo modd, defnyddir diffiniad Geiriadur Data GIG Cymru, a dylid cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf ohono am ddiffiniadau cyfredol lle bo angen. Dim ond mewn perthynas â'r ddogfen hon y dylid ystyried y diffiniadau esboniadol hyn.

Targed atgyfeirio i driniaeth 26 wythnos Targed amseroedd aros Llywodraeth Cymru a sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2009, na ddylai unrhyw glaf aros mwy na 26 wythnos o atgyfeiriad i driniaeth.

Monitro gweithredol Ymyriad clinigol lle penderfynir monitro cyflwr claf yn agos o fewn gofal eilaidd, gan arwain at gymryd camau er mwyn sicrhau bod y claf yn cael ei asesu'n rheolaidd ac y gellir ymateb i unrhyw newid yn ei gyflwr.

Addasiad Cyfnod o amser lle nad yw'r claf ar gael, am resymau clinigol neu gymdeithasol, neu lle caiff y claf ei atgyfeirio at wasanaeth sydd y tu allan i gwmpas AiD.

Derbyn Derbyn claf ar gyfer triniaeth achos dydd neu glaf mewnol.

Targed AiD cardiaidd Ni fydd 95% o gleifion ar lwybr AiD cardiaidd yn aros mwy na 26 wythnos am driniaeth. Ni fydd unrhyw glaf yn aros mwy na 36 wythnos.

Cardiolegydd Clinigydd sy'n treulio o leiaf 80% o'i fywyd proffesiynol mewn cardioleg.

Clefyd cronig y galon Gall clefyd cronig y galon gynnwys unrhyw glaf â phoen neu anesmwythder ar y frest; diffyg anadl; llesgedd, llewyg neu grychguriad y galon; ffactorau

risg lluosog ar gyfer clefyd cronig y galon / sgrinio e.e. cyn llawdriniaeth fawr.

Canlyniad clinigol

Cofnod o benderfyniad clinigol gan glinigydd. Ni chaiff y penderfyniad hwn ei wneud mewn amgylchedd clinigol o reidrwydd.

Cloc yn parhau

Unrhyw ddigwyddiad ar hyd llwybr y claf, ond nad yw'n gyfystyr â dechrau cloc neu stopio cloc o fewn rheolau AiD.

Ailosod cloc

Proses weinyddol i newid dechrau'r cyfnod AiD a gofnodwyd i ddyddiad y digwyddiad sydd wedi arwain at ailosod y cloc.

Dechrau cloc

Digwyddiad sy'n cychwyn cyfnod AiD o fewn rheolau AiD.

Stopio cloc

Digwyddiad sy'n gorffen cyfnod AiD o fewn rheolau AiD.

Meddyg ymgynghorol

Unigolyn sydd wedi'i contractio gan fwrdd iechyd sydd wedi'i benodi gan Bwyllgor Penodiadau Cynghorol. Rhaid iddo neu iddi fod yn aelod o Goleg Brenhinol neu gyfadran. Mae hyn yn cynnwys meddygon teulu lle maent yn gyfrifol am ofal cleifion a bod trefniant â bwrdd iechyd. Ar gyfer adrannau diagnostig, mae hyn yn cynnwys gwyddonydd anfeddygol sydd â'r un statws â meddyg ymgynghorol.

Penderfyniad swyddfa meddyg ymgynghorol

Unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar reolaeth glinigol y claf ac a wnaed heb i'r claf fod yn bresennol.

Atgyfeiriad rhwng meddygon ymgynghorol

Unrhyw achos o atgyfeirio claf mewn amgylchedd gofal eilaidd/trydyddol rhwng meddygon

ymgynghorol.

Methu dod (CNA)

Cofnodir 'methu dod' yn achos unrhyw glaf sy'n cysylltu â'r sefydliad i ddweud na fydd yn gallu dod i'w apwyntiad y cytunwyd arno.

Penderfyniad i drin

Cofnodi penderfyniad i dderbyn claf i sefydliad gofal iechyd penodol.

Penderfyniad i beidio â thrin

Penderfyniad clinigol nad oes angen trin y cyflwr yr atgyfeiriwyd y claf ar ei gyfer, ar hyn o bryd. Fel rheol bydd hyn yn arwain at ddychwelyd y claf at y meddyg a wnaeth ei atgyfeirio.

Triniaethau diffiniol

Yr holl driniaethau ar hyd y llwybr cardiaidd, gan gynnwys llawdriniaeth gardiaidd, TAVI, ymyriad coronaidd, abladiad, dyfeisiau rhythm y galon ac amseriaduron.

Arhosiad diagnostig

Yr amser aros rhwng cael atgyfeiriad am ymchwiliad diagnostig a'r apwyntiad ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw.

Heb ddod (DNA)

Caiff cleifion nad ydynt wedi cadw apwyntiad ar unrhyw adeg ar hyd y llwybr ac nad ydynt wedi hysbysu'r sefydliad ymlaen llaw eu nodi'n rhai 'heb ddod).

Mynediad uniongyrchol

Cleifion a gaiff eu hatgyfeirio'n uniongyrchol yn hytrach na thrwy glinig a arweinir gan feddyg ymgynghorol.

Trefnu apwyntiad yn uniongyrchol

Methodoleg trefnu apwyntiad lle cytunir ar apwyntiad drwy gyswllt uniongyrchol rhwng y sefydliad a'r claf.

Atgyfeiriad uniongyrchol	Atgyfeiriad a wneir gan glinigydd mewn gofal sylfaenol yn uniongyrchol at wasanaeth diagnostig neu therapi.
Derbyniad brys	Cleifion a dderbynnir i'r ysbyty pan na ragwelir hynny ac am gyfnod byr oherwydd angen clinigol.
Claf arbenigol	Cleifion â chyflwr iechyd hirdymor sy'n dod yn 'arbenigwyr' ar eu gofal eu hunain er mwyn gwella ansawdd eu bywyd.
Triniaeth ddiffiniol gyntaf	Unrhyw driniaeth gychwynnol sy'n trin y claf, yn sefydlogi ei symptomau, neu'n sefydlogi ei iechyd fel y gall triniaeth ddechrau
Newid cynyddol mewn triniaeth	Newid bach i'r cynllun triniaeth presennol, e.e. addasu dos meddyginiaeth a ragnodwyd.
Arhosiad cleifion mewnol/achos dydd	Yr amser aros rhwng gwneud penderfyniad i drin claf fel claf mewnol/achos dydd a'i dderbyn am y driniaeth.
Triniaeth fwriadedig	Ymyriad sydd, ar yr adeg honno, yn anelu at reoli cyflwr y claf.
Triniaeth dros dro	Ymyriad sy'n anelu at helpu'r claf i ymdopi â'i gyflwr nes bod modd rhoi'r driniaeth a gynllunnir.
Cardiolegydd ymyriadol	Clinigydd gydag angioplasti yn ddiddordeb is-arbenigol iddo.
Bwrdd Iechyd (BI)	Corff statudol y GIG.
Cytundeb ar y cyd	Wedi'i gytuno gan y claf a'r BILL.
Digwyddiad lle na dderbynnir claf	Digwyddiad lle mae'r claf yn dod am apwyntiad ond nad oes gwely na throli wedi'i gadw ar ei

gyfer, e.e. apwyntiad cleifion allanol.

Sefydliad

Y gwasanaeth gofal eilaidd, sef yr Ymddiriedolaeth gynt.

Cyswllt y tu allan i oriau

Rhwng 6pm a 9pm yn ystod yr wythnos a rhwng 9am a 9pm ar y penwythnos.

Trefnu apwyntiad yn rhannol

System lle cytunir ar apwyntiadau â'r claf, yn dilyn cais ysgrifenedig gan y BILI i'r claf ffonio i drefnu apwyntiad.

Dyddiad dechrau'r llwybr (DDLl)

Fe'i defnyddir o fewn y targed AiD cardiaidd i ddynodi dyddiad dechrau gwreiddiol y cloc pan ddaw atgyfeiriad i law. Fe'i defnyddir pan atgyfeirir llwybr cardiaidd rhwng sefydliadau a/neu feddygon ymgynghorol er mwyn sicrhau bod cloc y llwybr yn parhau o'r dyddiad dechrau gwreiddiol a bennwyd yn glinigol

Llwybr y claf

Proses gofal claf ar gyfer cyflwr penodol o fewn y GIG cyfan, o ofal sylfaenol ymlaen.

Gofal wedi'i gynllunio

Derbyniadau dewisol a gynllunnir i ddigwydd yn y dyfodol, lle, am resymau meddygol, y mae'n rhaid eu hoedi cyn y gellir cyflawni ymyriad penodol.

Amgylchedd cyfunol

Dyluniad gwasanaeth lle mae pawb wedi cael gwybod, ar adeg yr atgyfeiriad neu'r ymweliad cleifion allanol cyntaf, fod grŵp o glinigwyr yn cydweithio er mwyn darparu'r gwasanaeth, a lle gall cleifion gael eu gweld gan unrhyw un o'r clinigwyr yn y grŵp, ar unrhyw gam o'r driniaeth.

Cynnig rhesymol

Unrhyw gynnig o apwyntiad y mae'r claf a'r BI yn cytuno arno gyda'i gilydd.

Bl yn cael atgyfeiriad

Tybir bod yr atgyfeiriad wedi dod i law pan fydd yn cyrraedd y gwasanaeth gofal eilaidd neu drydyddol gyntaf, waeth pa adran neu unigolyn sy'n ei gael. Bydd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau electronig a phapur.

Canllawiau atgyfeirio

Meini prawf ysgrifenedig a ragbennir sy'n cael eu ffurfioli a'u cytuno rhwng y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gwneud yr atgyfeiriad ac yn ei gael.

Protocolau atgyfeirio

Cytundebau a wneir ac a ddogfennir yn lleol er mwyn nodi ffynonellau a dderbynnir ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau penodol.

Atgyfeirio i driniaeth

Y cyfnod rhwng gwneud atgyfeiriad ar gyfer cyflwr penodol a dechrau triniaeth ar gyfer y cyflwr hwnnw.

Cyfnod AiD

Caiff yr amser aros ei fonitro gan ddefnyddio'r cysyniad o gloc, a fydd yn dechrau ac yn stopio yn ôl digwyddiadau a thrafodion ar hyd llwybr y claf. Y cyfnod o amser a fesurir rhwng dechrau a stopio cloc, o dan reolau AiD, a gofnodir fel yr amser aros AiD.

Rhaglen sgrinio

Rhaglen sgrinio genedlaethol gydnabyddedig ar gyfer cyflyrau penodol

Gofal eilaidd

Gofal y GIG a ddarperir yn dilyn atgyfeiriad o ofal sylfaenol.

Hunanatgyfeiriad

Y broses lle mae claf yn ysgogi apwyntiad gyda gwasanaeth gofal eilaidd, heb atgyfeiriad gan glinigydd gofal sylfaenol nac eilaidd.

Cyflwr meddygol byrdymor

Cyflwr meddygol sy'n golygu na ellir symud ymlaen i gam nesaf y llwybr am lai nag 21 diwrnod.

Clinigau SOS

Clinigau mynediad uniongyrchol arbenigol y mae cleifion arbenigol yn mynd iddynt i gael sylw brys.

Cam y llwybr

Rhan o'r cyfnod AiD. Mae pedwar cam: atgyfeiriad am apwyntiad cleifion allanol cyntaf; aros am brawf diagnostig; aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol; aros o'r penderfyniad i drin i ddechrau triniaeth. Mae camau'r llwybr yn cydgyffwrdd, nid oes rhaid iddynt ddigwydd yn y drefn hon, a gall unrhyw gam unigol ddigwydd fwy nag unwaith mewn unrhyw lwybr penodol.

Newid sylweddol mewn triniaeth

Newid sylweddol i'r cynllun triniaeth presennol, e.e. newid o roi meddyginiaeth drwy'r geg i'w roi drwy'r croen

Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig

Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'i gymeradwyo gan y meddyg ymgynghorol yn gymwysedig i wneud penderfyniad am ffitrwydd meddygol claf i fynd ymlaen i gam nesaf y llwybr.

Gweithdrefnau gwyliadwriaeth

Gweithdrefnau a ailadroddir ar adegau cytûn er mwyn monitro cyflwr y claf.

Atal dros dro

Cyfnod pan fo saib yn y cloc canser neu gardiaidd am nad yw'r claf ar gael neu am nad yw'n ffit yn feddygol oherwydd cyd-afiachusrwydd i symud ymlaen i gam nesaf y llwybr.

Gofal trydyddol

Gofal arbenigol y GIG mewn gwasanaethau a ddynodwyd i ddarparu'r gwasanaeth mewn canolfan arbenigol, ac a ddarparwyd o ganlyniad i

atgyfeiriad o ofal eilaidd.

Gwasanaethau therapi

Gwasanaethau'r GIG sy'n darparu triniaeth gan broffesiynau cofrestredig y Cyngor Proffesiynau Iechyd h.y. therapiâu celfyddydol, deieteteg, therapi galwedigaethol, orthoteg, orthoteg a phrostateteg, ffisiotherapi, podiatreg, therapi lleferydd ac iaith.

Trin mewn trefn

Rheoli'r rhestr aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld a'u trin yn y drefn briodol, yn seiliedig ar eu hangen clinigol a'r amser maent wedi bod yn aros. Mae angen i Blau allu egluro a dangos unrhyw amrywiad i gyfraddau trin mewn trefn drwy eu polisiâu lleol ar yr amod eu bod yn adlewyrchu nodau strategol eraill Llywodraeth Cymru

Atodiad A – Senarios dyddiad dechrau llwybr

Mae'r senarios canlynol yn anelu at danlinellu sut y dylai'r rheolau hyn gael eu rhoi ar waith mewn amgylchiadau gwahanol. Caiff senarios eu grwpio fel a ganlyn:

- A) Atgyfeiriadau gan feddyg teulu
- B) Atgyfeiriadau rhwng meddygon ymgynghorol
- C) Clefyd cardiaidd fel cyflwr cronig â chyfnodau aciwt
- D) Derbyniadau brys
- E) Ymgynghoriad cychwynnol cleifion allanol gan unigolyn nad yw'n feddyg
- F) Claf a reolir gan feddyg teulu sydd â diddordeb arbennig mewn cardioleg
- G) Cleifion a reolir mewn mwy nag un bwrdd iechyd

A) Atgyfeiriadau gan feddyg teulu

Senario A/1

Mae menyw 44 oed sydd wedi bod yn cael poen yn ei brest am bedair wythnos yn cael ei hatgyfeirio gan ei meddyg teulu at gardiolegydd am ei fod yn amau bod ganddi glefyd cronig y galon. Fe'i gwelir yn y clinig cardioleg, mae'n cael prawf ymarfer corff yn yr un clinig sy'n cadarnhau angina ac mae'n cael ei rhoi ar y rhestr aros am angiograffi. Mae'n cael angiogram ac mae'r un cardiolegydd yn penderfynu bod angen angioplasti arni. Caiff ei rhoi ar y rhestr aros ac mae'n cael ei derbyn yn ddiweddarach i gael angioplasti.

- Atgyfeiriad gan feddyg teulu at gardiolegydd
- Bl yn cael llythyr y meddyg teulu. **Cloc yn dechrau**
- Claf yn cael ei rhoi ar restr aros cleifion allanol cardioleg
- Ymgynghoriad cychwynnol gyda'r cardiolegydd yn y clinig un stop ac yn cael ei rhoi ar y rhestr aros am angiograffi
- Angiogram yn cael ei wneud ac yn cael ei rhoi ar y rhestr aros am angioplasti
- Cael ei derbyn ac yn cael yr angioplasti. **Cloc yn stopio**

Senario A/2

Mae dyn 66 oed a gafodd CABG yn flaenorol yn cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu at y cardiolegydd lleol er mwyn ymchwilio i grugrychiad y galon.

Mae'r cardiolegydd yn cynnal prawf ymarfer corff ac ecocardiogram yn yr un apwyntiad. Mae'r rhain yn foddhaol ond gofynnir am gyfnod monitro gyda chofnodwr rhythm. Pan geir

canlyniadau hyn caiff y claf apwyntiad dilynol a dechreuir rhoi cyffuriau iddo ar gyfer arythmia atriol ysbeidiol. Fe'i gwelir am adolygiad arall ac mae'n dioddef sgil-ffeithiau oherwydd y cyffuriau. Caiff ei atgyfeirio at y ganolfan drydyddol i weld electroffisiolegydd sy'n argymhell abladiad. Yna caiff ei dderbyn ar gyfer y driniaeth ddiffiniol hon.

Yma mae gan y claf glefyd cronig y galon sylfaenol ac mae'n debygol mai dyma sy'n achosi'r arythmia. Bydd triniaeth ddiffiniol yn digwydd ar ôl sawl cam fel claf allanol, ond mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau'n glinigol am fod angen cofnodi rhythm dros gyfnod ac mae wedyn angen cynnal apwyntiad dilynol er mwyn asesu'r ymateb i gyffuriau.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at y cardiolegydd lleol
- Bwrdd iechyd yn cael llythyr y meddyg teulu. **Cloc cyntaf yn dechrau**
- Profion ymarfer corff ac eco
- Cyfnod monitro diagnostig
- Cael y canlyniadau a dechrau ar gyffuriau. **Cloc cyntaf yn stopio**
- Apwyntiad dilynol fel claf allanol, problemau gyda'r cyffuriau, meddyg ymgynghorol yn penderfynu ei atgyfeirio at y ganolfan drydyddol am asesiad a thriniaeth bosibl
- Y ganolfan drydyddol yn cael yr atgyfeiriad. **Cloc newydd (ail gloc) yn dechrau**
- Cael ei dderbyn am driniaeth ddiffiniol. **Ail gloc yn stopio**

Senario A/3

Mae dyn 65 oed a gafodd CABG yn 1998 wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty lleol o leiaf deirgwaith gyda phoen ar y frest yn y pedwar mis diwethaf. Nid yw'n fodlon nad yw wedi cael ei atgyfeirio am ymchwiliadau pellach ac mae'n gofyn am ail farn. Mae ei feddyg teulu yn ei atgyfeirio at y ganolfan drydyddol. Yn yr ymgynghoriad cychwynnol mae'n cael prawf ymarfer corff arall ac ecocardiogram ac fe'i cynghorir i gael angiograffi arall. Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau'r eco, sef methiant difrifol y galon (camweithrediad LV difrifol) a grafftiau achludedig. Teimlir bod mwy o lawdriniaeth yn peri gormod o risg ac mae'n parhau â therapi meddygol. Gan fod ganddo fethiant difrifol y galon a'i fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer therapi ailgydamseru a'i fod hefyd yn wynebu risg uchel o arythmia caiff ei atgyfeirio at yr electroffisiolegydd am therapi ailgydamseru a diffibriliwr, a wneir ar fyrder.

- Camau rhagarweiniol: derbyniadau blaenorol. Claf yn gofyn am ail farn.
- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at y ganolfan drydyddol am ail farn
- Y ganolfan drydyddol yn cael llythyr y meddyg teulu. **Cloc yn dechrau**
- Prawf ymarfer corff ac ecocardiogram ac angiograffi arall

- Therapi meddygol yn parhau (er mwyn helpu i sefydlogi'r claf, nad yw'n rhan o'r driniaeth ddiffiniol).
- Atgyfeiriad at electroffisiologydd
- Cael ei dderbyn ar gyfer therapi ailgydamseru a mewnblannu diffibriliwr. **Cloc yn stopio**

Senario A/4

Mae Mr Evans yn cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu at feddyg cyffredinol am ei fod yn brin ei anadl a bod ganddo hanes o broblemau anadlu. Mae'r meddyg cyffredinol yn amau bod ganddo gyflwr cardiaidd, mae'n trefnu ecocardiogram ac, ar ôl cael y canlyniad, yn atgyfeirio Mr Evans at gardiolegydd. Mae'r cardiolegydd yn gweld Mr Evans, yn diagnosio methiant y galon ac yn ei drin yn feddygol.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at feddyg cyffredinol
- Cael llythyr y meddyg teulu: **Cloc yn dechrau**
- Meddyg cyffredinol yn gweld y claf
- Trefnu prawf diagnostig
- Cael y canlyniad
- Claf yn cael ei atgyfeirio at y cardiolegydd - mae'r claf yn cael ei bigo i fyny fel rhan o broses fonitro AiD cardiaidd a chaiff ei olrhain yn ôl-weithredol i'w ddyddiad dechrau llwybr gwreiddiol.
- Triniaeth feddygol yn cael ei hysgogi gan y cardiolegydd: **Cloc yn stopio**

Senario A/5

Mae Mr Elwyn yn cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu at feddyg cyffredinol sydd â chryn dipyn o brofiad ym maes cardioleg ac mae'n ei atgyfeirio'n uniongyrchol at lawfeddyg cardiaidd am lawdriniaeth gardiaidd heb fynd drwy gardiolegydd.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at feddyg cyffredinol
- Cael llythyr y meddyg teulu: **Cloc yn dechrau**
- Meddyg cyffredinol yn gweld y claf
- Cael ei atgyfeirio at lawfeddyg cardiaidd
- Llawfeddyg cardiaidd yn cael yr atgyfeiriad - mae'r claf yn cael ei bigo i fyny fel rhan o broses fonitro AiD cardiaidd a chaiff ei olrhain yn ôl-weithredol i'w ddyddiad dechrau llwybr gwreiddiol.

- Llawfeddyg cardiaidd yn gofyn am farn cardiolegydd sy'n gweld y claf ac yn cytuno bod angen iddo gael llawdriniaeth gardiaidd
- Cael ei dderbyn am lawdriniaeth: **Cloc yn stopio**

Senario A/6

Mae claf 75 oed yr amheuir bod ganddo glefyd cronig y galon yn cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu at yr ysbyty lleol. Mae'r claf yn cael poen rhagweladwy ar y frest pan fydd yn gwneud gweithgarwch egnïol ac mae'n teimlo'n fyr iawn ei anadl. Mae'n cael ei weld gan feddyg nad yw'n feddyg cardiaidd yn y clinig sy'n trefnu iddo gael prawf ymarfer corff ac ecocardiogram gan ei bod wedi clywed murmur y galon. Yna caiff y claf ei weld yn y clinig a chaiff ei atgyfeirio at y ganolfan drydyddol leol am angiogram. Mewn apwyntiad cleifion allanol mae'r cardiolegydd yn rhoi'r claf ar ei restr aros. Pan gynhelir yr angiogram mae'n amlwg bod angen newid falf aortig y claf a bod angen iddo gael CABG. Caiff ei atgyfeirio at y llawfeddyg cardiaidd sy'n trefnu apwyntiad cleifion allanol iddo ac yna'n ei roi ar ei restr aros. Yna caiff ei dderbyn ac mae'r claf yn cael y driniaeth ddiffiniol.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at feddyg cyffredinol
- Bl yn cael llythyr y meddyg teulu: **Cloc yn dechrau**
- Claf yn cael ei roi ar restr aros cleifion allanol y meddyg cyffredinol
- Ymgynghoriad cychwynnol gyda'r meddyg cyffredinol, cael ei atgyfeirio am brawf ymarfer corff ac ecocardiogram.
- Apwyntiad ar gyfer y prawf ymarfer corff
- Apwyntiad ar gyfer yr ecocardiogram
- Apwyntiad dilynol gyda'r meddyg cyffredinol pan benderfynir ei atgyfeirio am angiogram
- Cardiolegydd trydyddol yn cael y llythyr - mae'r claf yn cael ei bigo i fyny fel rhan o broses fonitro AiD cardiaidd a chaiff ei olrhain yn ôl-weithredol i'w ddyddiad dechrau llwybr gwreiddiol.
- Ymgynghoriad cychwynnol gyda'r cardiolegydd trydyddol
- Angiogram ac atgyfeiriad at y llawfeddyg cardiaidd
- Ymgynghoriad cychwynnol gan y llawfeddyg
- Cael ei dderbyn am lawdriniaeth: **Cloc yn stopio**

B) Atgyfeiriad rhwng Meddygon Ymgynghorol

Senario B/1

Mae Miss Williams wedi bod o dan ofal meddyg cyffredinol ers sawl blwyddyn am fod ganddi gydafiacheddau meddygol lluosog. Yn ei hapwyntiad dilynol mwyaf diweddar, gwelir bod ei chyflwr wedi gwaethygu ac mae'r meddyg cyffredinol yn gofyn am farn cardioleg.

- Mae'r meddyg cyffredinol yn gweld y claf fel rhan o adolygiad clinig rheolaidd
- Atgyfeiriad at y cardiolegydd yn dod i law'r adran cardioleg: **Cloc yn Dechrau**
- Triniaeth feddygol yn cael ei hysgogi gan y cardiolegydd: **Cloc yn stopio**

Senario B/2

Mae Mrs Jones wedi cael ei hatgyfeirio am apwyntiad cleifion allanol meddygaeth gyffredinol gan ei meddyg teulu am fod ganddi niwralgia. Yn ystod yr apwyntiad mae'r meddyg cyffredinol yn dod o hyd i broblem gardiaidd gysylltiedig y mae angen barn gardiaidd yn ei chylch ac mae'n atgyfeirio Mrs Jones at gardiolegydd.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at feddyg cyffredinol
- Cael llythyr y meddyg teulu
- Meddyg cyffredinol yn gweld y claf ac yn dod o hyd i gyflwr cardiaidd **cysylltiedig**
- Atgyfeiriad at y cardiolegydd yn dod i law'r adran cardioleg: **Cloc yn dechrau**
- Cynnal ymchwiliadau
- Cael ei derbyn am angioplasti: **Cloc yn stopio**

Senario B/3

Mae meddyg cyffredinol yn atgyfeirio claf yr amheuir bod ganddo glefyd cronig y galon at ei gydweithiwr cardioleg mewn canolfan drydyddol. Mae'r cardiolegydd yn gweld y claf ac yn nodi bod prawf straen eisoes wedi'i gynnal a'i fod yn bositif. Mae'r claf yn cael ei roi ar y rhestr aros angiograffi yn y clinig. Caiff y claf ei dderbyn ac mae'n cael y driniaeth, a phenderfynir cynnal sgan darlifo. Os yw'r canlyniadau'n bositif efallai y bydd angen i'r claf gael angioplasti. Cynhelir y sgan darlifo ar ôl sawl mis a chaiff y claf ei adolygu yn y clinig lle dywedir wrtho fod angen iddo gael angioplasti. Yn dilyn y clinig caiff y claf ei roi ar y rhestr a chynhelir triniaeth ddiffiniol wedyn.

- Meddyg teulu yn atgyfeirio'r claf at feddyg cyffredinol
- Bwrdd iechyd yn cael llythyr y meddyg teulu. **Cloc yn dechrau**
- Meddyg cyffredinol yn atgyfeirio'r claf at gardiolegydd
- Cael y llythyr atgyfeirio - mae'r claf yn cael ei bigo i fyny fel rhan o'r broses fonitro a chaiff ei olrhain yn ôl-weithredol i'w ddyddiad dechrau llwybr gwreiddiol.
- Ymgynghoriad cychwynnol gyda'r cardiolegydd a chaiff ei roi ar y rhestr am angiogram

- Cael angiogram a phenderfynu ymchwilio ymhellach.
- Sgan darlifo: ***Nid dechrau'r driniaeth ddiffiniol yw'r sgan darlifo – ymchwiliad ydyw a fydd yn helpu i benderfynu p'un a oes angen triniaeth ddiffiniol ai peidio. Bydd y cloc yn parhau i dician.***
- Adolygiad cleifion allanol a phenderfynu rhoi'r claf ar y rhestr amangioplasti
- Cael ei dderbyn am angioplasti. **Cloc yn stopio**

Senario B/4

Mae meddyg teulu yn atgyfeirio dyn 64 oed at y cardiolegydd lleol am ei fod yn amau bod ganddo glefyd cronig y galon. Mae gan y claf nifer o broblemau meddygol, gan gynnwys anaemia a nam ar yr arennau. Mae'r cardiolegydd yn ei adolygu ond nid yw'r claf yn ddigon da i gael prawf ymarfer corff ac mae angen ei atgyfeirio at feddyg arennol. Mae angen ymchwilio i anaemia a phroblemau arennol y claf ymhellach ac unwaith y cânt eu datrys caiff ei atgyfeirio'n ôl at y cardiolegydd sy'n cael prawf straen yn yr ail apwyntiad clinig. Gwelir problemau ac mae angen iddo gael angiograffi a wneir yn y lab DGH. Mae angen iddo gael CABG ac mae'r cardiolegydd yn ysgrifennu at y ganolfan drydyddol lleol lle mae'r llawfeddyg cardiaidd yn trefnu apwyntiad cleifion allanol ac yna'n rhoi'r claf ar restr aros CABG. Yn y pen draw mae'r claf yn cael triniaeth ddiffiniol.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at y cardiolegydd lleol
- Bl yn cael llythyr y meddyg teulu. **Cloc yn dechrau**
- Ymgynghoriad cychwynnol gyda'r cardiolegydd ac atgyfeiriad at y meddyg arennol: **Mae'r cloc cardiaidd yn stopio** ar gyfer yr atgyfeiriad gwreiddiol (Claf yn dechrau **cloc llwybr newydd ar gyfer llwybr arennol**).
- Ymgynghoriad cychwynnol gyda'r meddyg arennol
- Ymweliadau ag adrannau ymchwiliol e.e. radioleg
- Apwyntiad dilynol gyda'r meddyg arennol a thriniaeth. (**Cloc llwybr arennol yn stopio**)
- Adolygiad gan y tîm arennol ac atgyfeiriad yn ôl at y cardiolegydd. **Cloc cardiaidd newydd yn dechrau** pan fo'r atgyfeiriad yn dod i law'r adran cardioleg.
- Adolygiad gan y cardiolegydd
- Cynnal prawf ymarfer corff a'r claf yn cael ei roi ar y rhestr angiogram
- Angiogram yn DGH ac atgyfeiriad at y llawfeddyg cardiaidd yn y ganolfan drydyddol
- Llawfeddyg cardiaidd yn cael y llythyr
- Ymgynghoriad cychwynnol gyda'r llawfeddyg a chael ei roi ar y rhestr CABG

- Cael ei dderbyn a CABG yn cael ei gynnal. **Cloc yn stopio**

Pan fydd claf yn trosglwyddo o ofal un sefydliad i un arall ond o fewn yr un llwybr triniaeth, mae'n bwysig bod yr atgyfeiriad ymlaen yn egluro dyddiad dechrau'r llwybr.

Senario B/5

Mae dyn 58 oed sydd wedi cael dau drawiad ar y galon yn cael ei atgyfeirio at y ganolfan drydyddol gyda hanes o angina ac yn fwy diweddar achosion o lewygu gan arwain at fynd yn anymwybodol. Caiff apwyntiad clinig ar fyrder gyda'r cardiolegydd ynghyd â phrawf ymarfer corff, sy'n dangos bod ganddo glefyd coronaidd difrifol. Ar ddiwedd yr ymarfer corff, mae'n datblygu arhythmia difrifol. Mae'r cardiolegydd yn ei dderbyn i'r ysbyty. Mae'n cael angiograffi coronaidd y diwrnod wedyn a gwelir bod ganddo glefyd coronaidd difrifol. Caiff CABG yr un diwrnod gan y llawfeddyg cardiaidd. Mae'r electroffisiolegydd yn ei weld yn ystod yr un cyfnod yn yr ysbyty er mwyn cynnal prawf pryfocio i weld a yw'n dal i fod yn agored i arhythmia, ac mae hynny'n wir. Mae'r arbenigwr EP yn mewnbrannu diffibriliwr yn ystod yr un cyfnod yn yr ysbyty.

Er bod y llwybr hwn yn dod yn llwybr brys, dechreuodd fel llwybr wedi'i gynllunio drwy'r atgyfeiriad a gynlluniwyd ac mae'r cloc eisoes wedi dechrau ac, fel y cyfryw, mae'n iawn nodi diwedd y cloc a thrwy hynny gwblhau'r llwybr AiD o'r atgyfeiriad cychwynol.

- Atgyfeiriad at y ganolfan drydyddol
- Y ganolfan drydyddol yn cael y llythyr: **Cloc yn dechrau**
- Ymgynghoriad gyda'r cardiolegydd ar fyrder
- Prawf ymarfer corff – datblygu arhythmia
- Cael ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer angiograffi
- Cael angiograffi. Cael CABG yr un dydd: **Cloc yn stopio**
- Prawf pryfocio
- Mewnbrannu diffibriliwr

Senario B/6

Mae Mrs Morgan wedi bod ar y rhestr aros am ben-glin newydd ers 10 mis ac mae ar fin cael ei thriniaeth. Mewn asesiad cyn llawdriniaeth nodir bod ganddi furmur y galon nas nodwyd yn flaenorol ac mae'r llawfeddyg orthopedig yn ei hatgyfeirio at gardiolegydd. Mae'r cardiolegydd yn cynnal profion diagnostig ac yn dweud bod Mrs Morgan yn ffit i gael llawdriniaeth orthopedig. Ni thbyir bod angen trin murmur y galon ymhellach.

- Meddyg teulu yn ei hatgyfeirio am lawdriniaeth orthopedig
- Gofal eilaidd yn cael yr atgyfeiriad: **Cloc orthopedig yn dechrau**
- Llawfeddyg orthopedig yn gweld y claf

- Cynllunio llawdriniaeth orthopedig, anfon ar gyfer asesiad cyn llawdriniaeth
- Claf yn cael ei gweld ar y cam cyn llawdriniaeth lle nodir bod ganddi furnur y galon
- Claf yn cael ei hatgyfeirio at y cardiolegydd ar gam cyn llawdriniaeth murmur y galon:
Cloc AiD orthopedig yn stopio, cloc cardiaidd yn dechrau
- Claf yn cael ei gweld gan y cardiolegydd
- Cynnal profion diagnostig
- Dweud bod y claf yn ffit i gael llawdriniaeth - Cael ei rhyddhau o'r uned gardioleg a'i hatgyfeirio'n ôl at orthopaedeg. **Cloc AiD cardiaidd yn stopio, cloc AiD orthopedig newydd yn dechrau**
- Cael ei gweld mewn asesiad cyn llawdriniaeth a'i rhoi ar y rhestr am lawdriniaeth orthopedig
- Llawdriniaeth orthopedig yn cael ei chyflawni. **Cloc AiD orthopedig yn stopio**

C) Clefyd cardiaidd fel cyflwr cronig â chynodau aciwt

Senario C/1

Mae gan Mr Davies angina sefydlog ac mae ei ofal yn cael ei reoli ar y cyd gan y meddyg teulu a'r cardiolegydd. Mewn apwyntiad adolygu gyda'r meddyg teulu, daw'n glir nad yw ei gyflwr yn sefydlog mwyach ac mae'r meddyg teulu yn gofyn i'r cardiolegydd sydd wedi bod yn gyfrifol am ei ofal ei weld ar fyrder. Yn yr ymgynghoriad cardioleg trefnir angiogram a ddilynir gan ailfasgwlaiddio.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at gardiolegydd oherwydd angina ansefydlog
- Bl yn cael llythyr atgyfeirio'r meddyg teulu: **Cloc yn dechrau**
- Cardiolegydd yn gweld y claf
- Angiogram yn cael ei drefnu a'i gyflawni
- Cael y canlyniad
- Claf yn cael ei atgyfeirio am angioplasti
- Claf yn cael ei dderbyn i'r ysbyty ac yn cael angioplasti: **Cloc yn stopio**

D) Derbyniadau brys

Dylai pobl sy'n cael eu derbyn fel achosion brys am gyflwr cardiaidd gael triniaeth yn unol â'u blaenoriaeth glinigol.

Senario D/1

Mae Mr Ellis ar wyliau yn y gorllewin lle caiff ei dderbyn i'r uned gofal cardiaidd agosaf. Mae angen i'r adran gardioleg yn ei ysbyty lleol yn y de-ddwyrain ei weld wedyn.

- Caiff ei dderbyn fel achos brys i fwrdd iechyd 1
- Caiff ei ryddhau o fwrdd iechyd 1 a'i atgyfeirio am ymchwiliadau pellach yn ei fwrdd iechyd lleol 2. Mae'r **cloc yn dechrau** pan fydd bwrdd iechyd 2 yn cael yr atgyfeiriad
- Caiff ei weld mewn clinig cleifion allanol ym mwrdd iechyd 2
- Mae'r claf yn cael archwiliadau
- Ar ôl cael canlyniadau'r profion caiff ei roi ar y rhestr am reolydd calon
- Caiff ei dderbyn i'r ysbyty am fewnblaniad rheolydd calon: **Cloc yn stopio**

Senario D/2

Mae Mr Brown wedi dod am apwyntiad cleifion allanol am gyflwr rheumatoleg. Mae'n mynd yn sâl yn y clinig gyda phoen aciwt ar y frest a chaiff ei dderbyn i'r ward gofal cardiaidd. Caiff ei sefydlogi a'i anfon adref - gydag apwyntiad dilynol ar gyfer cleifion allanol cardioleg.

- Caiff y claf ei dderbyn i'r uned gofal cardiaidd fel achos brys
- Gwelir y claf gan gardiolegydd ar y ward ac mae'n cael ei anfon adref gydag apwyntiad dilynol ar gyfer cleifion allanol cardioleg
- Yn yr apwyntiad dilynol, penderfynir y bydd angen triniaeth ailfasgwlaidd ar Mr Brown fwy na thebyg. **Cloc cardiaidd yn dechrau**
- Mae'r claf yn cael archwiliadau
- Claf yn cael ei dderbyn am angioplasti **Cloc yn stopio**

E) Ymgynghoriad cychwynnol cleifion allanol gan unigolyn nad yw'n feddyg

Senario E/1

Mae meddyg teulu Miss Pugh yn ei hatgyfeirio am asesiad o'r poen ar ei brest yn yr adran gardioleg yn ei hysbyty lleol. Fel rhan o aiddylunio'r gwasanaeth cardiaidd, mae Miss Pugh yn cael ei hapwyntiad cyntaf mewn clinig nad yw'n cael ei arwain gan feddyg lle mae staff yn gweithio i brotocolau cytûn ac mae ganddynt y cymwyseddau gofynnol. Yna, ar ôl cael asesiad, gwelir Miss Pugh gan y cardiolegydd ac mae'r driniaeth yn dechrau.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu i'r adran gardioleg
- Bl yn cael atgyfeiriad y meddyg teulu: **Cloc yn dechrau**

- Claf yn cael ei gweld mewn clinig nad yw'n cael ei arwain gan feddyg
- Trefnu profion diagnostig
- Cael y canlyniadau
- Claf yn cael ei gweld gan y cardiolegydd
- Triniaeth feddygol yn dechrau: **Cloc yn stopio**

F) Claf a reolir gan feddyg teulu sydd â diddordeb arbennig mewn cardioleg

Senario F/1

Mae Mr Roberts yn cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu at feddyg teulu sydd â diddordeb arbennig mewn cardioleg sy'n gweithio yn y BI cyfan. Mae'r meddyg teulu hwn yn cynnal profion diagnostig priodol, yn cynghori meddyg teulu Mr Roberts ar sut i'w reoli ac yn ei ddychwelyd at ofal ei feddyg teulu.

Ni chaiff y cloc ei ddechrau na'i stopio am fod yr atgyfeiriad hwn y tu hwnt i gwmpas y targed.

G) Cleifion a reolir mewn mwy nag un bwrdd iechyd

Senario G/1

Mae Mrs Williams wedi bod yn cael triniaeth ar gyfer clefyd cronig y galon ers sawl blwyddyn yn ei bwrdd iechyd lleol. Yn ystod apwyntiad adolygu rheolaidd, daw'n glir bod ei chyflwr wedi gwaethygu ac mae angen ei hatgyfeirio'n drydyddol at fwrdd iechyd dau.

- Atgyfeiriad gan feddyg ymgynghorol ym mwrdd iechyd un at gardiolegydd ym mwrdd iechyd dau.
- Bwrdd iechyd dau yn cael yr atgyfeiriad. Bwrdd iechyd dau yn dechrau **cloc dechrau** llwybr newydd

Senario G/2

Mae Mrs Kirkham yn cael ei hatgyfeirio gan ei meddyg teulu at gardiolegydd yn ei hysbyty lleol am fod ganddi boen achlysurol ar y frest. Wrth adolygu Mrs Kirkham yn ei hapwyntiad cyntaf mae'r cardiolegydd yn penderfynu bod angen iddi gael profion cardiaidd penodol ac y gall fod angen iddi gael triniaeth. Nid yw ei bwrdd iechyd lleol yn darparu'r profion sydd eu hangen ac felly caiff ei hatgyfeirio am brofion diagnostig mewn bwrdd iechyd arall. Mae'r meddyg ymgynghorol yn atgyfeirio achos Mrs Kirkham at gardiolegydd ar y safle trydyddol er mwyn iddo adolygu canlyniadau'r prawf diagnostig a phenderfynu a oes angen iddi gael triniaeth arbenigol. Wrth adolygu'r profion diagnostig mae'r cardiolegydd trydyddol yn penderfynu bod angen iddi gael triniaeth arbenigol a chaiff gofal clinigol Mrs Kirkham ei drosglwyddo i'r safle trydyddol. Caiff ei hadolygu gan y cardiolegydd ar y safle trydyddol a chytunir ar ddyddiad ar gyfer y driniaeth.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at y cardiolegydd lleol
- Bl yn cael llythyr y meddyg teulu. **Cloc yn dechrau**
- Mae ymgynghoriad cychwynnol gyda'r cardiolegydd yn dynodi bod angen cynnal profion diagnostig arbenigol er mwyn penderfynu a oes angen triniaeth arbenigol.
- Atgyfeiriad ar gyfer profion diagnostig yn cael ei anfon at y ganolfan drydyddol gyda chais ychwanegol i'r cardiolegydd trydyddol adolygu'r canlyniadau er mwyn ystyried y posibilrwydd o roi triniaeth arbenigol.
- Profion diagnosteg yn cael eu cynnal.
- Cardiolegydd trydyddol yn adolygu'r canlyniadau ac yn cytuno bod angen rhoi triniaeth arbenigol. Y safle trydyddol a ddaw'n gyfrifol am ofal clinigol y claf nawr a bydd angen iddo gofnodi llwybr agored Mrs Kirkham gyda'i dyddiad dechrau llwybr gwreiddiol a ddylai gael ei gynnwys yn y cais am atgyfeiriad oddi wrth y bwrdd iechyd sy'n ei hatgyfeirio.
- **Pan gadarnheir bod angen rhoi triniaeth arbenigol, bydd y bwrdd iechyd a wnaeth ei hatgyfeirio yn rhoi'r gorau i gofnodi llwybr Mrs Kirkham.**
- **Y safle trydyddol sydd bellach yn gyfrifol am barhau i gofnodi llwybr AiD agored y claf gyda'r dyddiad dechrau llwybr cywir nes i'r driniaeth ddechrau**
- Fe'i hadolygir gan y cardiolegydd trydyddol a chytunir ar ddyddiad ar gyfer y driniaeth
- Caiff ei derbyn ac mae'r driniaeth yn dechrau – **Cloc yn stopio**

Senario G/3

Mae Mr Evans yn cael ei weld yn ei ysbyty lleol am ei apwyntiad dilynol chwe-misol gyda'i gardiolegydd. Yn ystod yr apwyntiad mae'r cardiolegydd yn penderfynu bod angen iddo gael profion ychwanegol er mwyn sicrhau bod ei gynllun triniaeth presennol yn effeithiol o hyd. Nid yw'r profion diagnostig ar gael yn ei fwrdd iechyd lleol felly gwneir atgyfeiriad at fwrdd iechyd arall ar gyfer y profion. Mae Mr Evans yn cael ei brofion yn y bwrdd iechyd arall ac yna caiff apwyntiad dilynol gyda'i gardiolegydd yn ei ysbyty lleol a chaiff ei feddyginaeth ei newid.

- Atgyfeiriad gan feddyg ymgynghorol ar gyfer profion diagnostig ym mwrdd iechyd 2
- Bl 2 yn cael yr atgyfeiriad ar gyfer profion diagnostig **cloc llwybr diagnostig yn dechrau** (targed 8 wythnos)
- Claf yn cael y profion diagnostig – **Cloc diagnostig yn stopio**

Nid oes angen cloc AiD newydd am fod y llwybr triniaeth yn parhau er ei fod yn cael ei ddiwygio ychydig.

Senario G/4

Mae Mr Burgess yn cael ei atgyfeirio at ei fwrdd iechyd lleol am ei fod yn brin o anadl. Yn ei apwyntiad cyntaf gyda'i gardiolegydd lleol penderfynir bod angen profion diagnostig arbennig arno (nad ydynt ar gael yn lleol) er mwyn cefnogi ei ddiagnosteg. Mae Mr Burgess yn cael ei brofion a chaiff ei adolygu eto yn ei ysbyty lleol lle penderfynir nad oes angen unrhyw driniaeth ar yr adeg hon ond y caiff ei fonitro'n weithredol er mwyn sicrhau bod ei gyflwr yn parhau'n sefydlog.

- Atgyfeiriad gan y meddyg teulu at y cardiolegydd lleol
- Bl yn cael llythyr y meddyg teulu. **Cloc cardiaidd yn dechrau**
- Mae ymgynghoriad cleifion allanol cychwynnol gyda'r cardiolegydd yn dynodi bod angen cynnal profion diagnostig arbenigol er mwyn cefnogi'r llwybr diagnostig a thriniaeth.
- Anfonir atgyfeiriad ar gyfer profion diagnostig at y ganolfan drydyddol (**Dyddiad dechrau llwybr diagnostig**)
- Cynhelir profion diagnostig (**Dyddiad cau'r llwybr diagnostig**)
- Caiff y claf ei adolygu gyda chanlyniadau'r profion diagnostig yn yr ysbyty lleol, a chytunir ar broses fonitro weithredol **Cloc cardiaidd yn stopio**

Senario G/5

Mae Mr Jones wedi cael ei reoli'n feddygol am ei gyflwr cardiaidd gan ei gardiolegydd lleol. Dros amser mae'n dechrau gwaethygu a nodir bod ei symptomau wedi gwaethygu yn ei apwyntiad cleifion allanol.

Mae'r cardiolegydd yn gofyn am nifer o brofion ar fyrder na ellir eu cynnal yn lleol ac mae'n rhaid eu cynnal ym mwrdd iechyd 2. Mae'r profion diagnostig yn dynodi bod angen triniaeth ymyriadol. Caiff y claf ei atgyfeirio at fwrdd iechyd 2 lle rhoddir y driniaeth

- Atgyfeiriad gan feddyg ymgynghorol ar gyfer profion diagnostig ym mwrdd iechyd 2 – Dechrau'r cloc AiD cardiaidd a diagnostig – bwrdd iechyd 1
- Cynhelir profion diagnostig – cloc diagnostig yn stopio
- Cael y canlyniadau
- Penderfynu rhoi triniaeth – cloc cardiaidd yn stopio ym mwrdd iechyd 1. Ym mwrdd iechyd 2, mae'r claf yn cael ei bigo i fyny fel rhan o broses fonitro AiD cardiaidd a chaiff ei olrhain yn ôl-weithredol i'w ddyddiad dechrau llwybr gwreiddiol

- Claf yn cael ei dderbyn am lawdriniaeth ymyriadol: **Cloc cardiaidd yn stopio.**

Pan fydd claf yn trosglwyddo o ofal un sefydliad i un arall ond o fewn yr un llwybr triniaeth, mae'n bwysig bod yr atgyfeiriad ymlaen yn egluro dyddiad dechrau'r llwybr.

**RHEOLAU AR GYFER RHEOLI AMSEROEDD AROS
RHWNG ATGYFEIRIO A THRINIAETH**

Fersiwn 7

Gorffennaf 2017

Rheoli Fersiynau		Cyhoeddwyd
Fersiwn 1.1		Rhagfyr 2009
Fersiwn 2.1	Andrew Sallows / James Ross / Martyn Rees	Medi 2011
Fersiwn 3	Lesley Law, Martyn Rees, Andrew Jones, Phil Barry gydag adborth gan Paul Rothwell a Sandra McConnell	Drafft Chwefror 2017
Fersiwn 4	Adborth gan bob BI heblaw am Bowys	Mawrth 2017 ar gyfer sylwadau terfynol
Fersiwn 5	Fersiwn derfynol at ddiben cyflwyno'n raddol o fis Ebrill 2017	3 Ebrill 2017
Fersiwn 6	Fersiwn derfynol ddiwygiedig yn sgil adborth o gam cyflwyno graddol Ch1	Gorffennaf 2017
Fersiwn 7	Gwneud newidiadau am fod CAN yn ailosod nid addasu am na allai'r system gefnogi hyn	Hydref 2017

Diwygiadau o fersiwn 6

- Tudalen 20 (57)** CAN wedi'i ddiwygio i ddarllen CNA
- Tudalen 20 (62)** egluro'r cyfnod addasu a ganiateir
- Tudalen 21 (67)** CNA yn arwain at ailosod nid addasu fel y nodwyd yn fersiwn 6
- Tudalen 24 (80)** Eglurder ynghylch newidiadau i feddygon ymgynghorol a stopio'r cloc (heb gynnwys cardiaidd)
- Tudalen 25 (92)** egluro addasu yw'r amser a gymerir i'r gwasanaeth wedi'i eithrio gael ei ddarparu o'r atgyfeiriad
- Tudalen 26 (94)** Ddim ar gael am fwy nag wyth wythnos

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Crynodeb o'r Ddogfen.....	4
Datblygu targedau – targed AiD 26 wythnos.....	4
Prif egwyddorion	6
Targed AiD 26 wythnos	8
Eithriadau targed AiD 26 wythnos	12
Cyfrifoldebau staff clinigol o ran monitro amseroedd aros.....	14
Prosesau trefnu apwyntiad	18
Trefnu apwyntiad yn uniongyrchol	19
Trefnu apwyntiad yn rhannol (proses dau gam)	19
Methu â chysylltu â chlaf	20
Cynnig rhesymol.....	20
Gwrthod cynnig rhesymol	21
Methu dod (CNA).....	21
Heb ddod (DNA)	22
Canlyniadau derbyn	23
Canlyniadau cloc yn parhau	23
Canlyniadau cloc yn stopio	24
Canlyniadau cloc newydd yn dechrau	26
Claf ddim ar gael	29
Gwasanaethau AiD sydd wedi'u heithrio.....	30
Gofal brys	32
Atebolrwydd.....	33
Cofnodi a chyflwyno adroddiadau	33
Fformatau adrodd.....	33
Atebolrwydd am fonitro llwybrau agored.....	33
Atebolrwydd am berfformiad	34
Atebolrwydd am adrodd.....	34
Rhestr Termau	36
Profion diagnostig a gynhwysir.....	44
Atodiad B	45
Gwasanaethau therapi a gynhwysir	45
Atodiad C	46
Dogfennau polisi.....	46

Safbwynt y claf

Nod y GIG fydd i chi aros cyn lleied o amser â phosibl, yn unol â'ch angen clinigol.

Y targed yw dechrau triniaeth o fewn 26 wythnos i gael eich atgyfeiriad ar gyfer 95% o gleifion gydag uchafswm o 36 wythnos ar gyfer pob claf

Dylech gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen amoch yn ystod y broses atgyfeirio, drwy drafod â chi ac, os oes angen, cewch daflen i gleifion. Dylai hon roi gwybod beth a ddisgwyllir gennych ar hyd y llwybr atgyfeirio i driniaeth (AiD).

Pan gewch eich atgyfeirio, rydych yn cydsynio bod rhywun yn cysylltu â chi er mwyn cael adolygiad meddygol a/neu brawf meddygol a fydd yn dechrau eich llwybr i gael gwasanaethau ysbyty.

Rhaid i chi sicrhau bod gan eich meddyg teulu a'r gwasanaethau ysbyty eich manylion cyswllt cywir a diweddaraf.

Er mwyn eich helpu, mae nifer o Biau bellach yn cynnig gwasanaeth atgoffa ar gyfer eich apwyntiadau, felly gwnewch yn siŵr fod gan eich meddyg teulu a'r ysbyty eich rhif ffôn symudol er mwyn iddynt allu cysylltu â chi.

Cedwir eich manylion yn ddiogel a dilynir yr holl weithdrefnau o ran cyfrinachedd y systemau hyn. Fodd bynnag, os nad ydych

Trosolwg

Crynodeb o'r Ddogfen

1. Mae'r ddogfen hon yn darparu ffynhonnell gyfeirio gyflawn o'r rheolau ar gyfer rheoli amseroedd aros sy'n ymwneud â'r targed atgyfeirio i driniaeth (AiD) 26 wythnos a'r targedau diagnosteg a therapïau mynediad uniongyrchol. Ar gyfer AiD nodir y gall rhai achosion cymhleth gymryd mwy na hyn a phennwyd uchafswm o 36 wythnos er mwyn adlewyrchu hyn.

Datblygu targedau – targed AiD 26 wythnos

2. Ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fyddai unrhyw glaf yng Nghymru, erbyn mis Rhagfyr 2009, yn aros mwy na 26 wythnos o atgyfeiriad meddyg teulu i driniaeth, gan gynnwys amseroedd aros am unrhyw brofion diagnostig neu therapïau angenrheidiol. Yna, nododd *Cynllun Oes* (Llywodraeth Cymru, 2005) weledigaeth o wasanaeth wedi'i gynllunio o gwmpas cleifion, gyda rhaglen 10 mlynedd i drawsnewid y system a chreu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf i bobl Cymru.
3. Cafodd prif egwyddorion y targed eu nodi mewn polisi drwy amrywiaeth o Gylchlythyrau Iechyd Cymru. (atodiadC)
4. Byrddau Iechyd (Blau) sy'n gyfrifol am gyflawni'r targed AiD 26 wythnos.
5. Prif egwyddor y targed yw y dylai cleifion gael gofal ardderchog heb unrhyw oedi, heblaw am resymau clinigol cymhleth, ac y dylent ddechrau cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio, gydag uchafswm o 36 wythnos er mwyn caniatáu ar gyfer achosion clinigol gymhleth.
6. Yn ystod yr amser aros hwn, mae gan y claf a'r GIG eu rolau a'u cyfrifoldebau er mwyn cyflawni'r targed hwn.
7. Nod y ddogfen hon yw amlinellu, mewn ffordd glir a chryno, beth yw'r rheolau er mwyn sicrhau bod cyfnod AiD pob claf yn dechrau ac yn gorffen mewn ffordd deg a chyson. Mae'n nodi'n glir rolau a

chyfrifoldebau'r claf a'r GIG, a'r canlyniadau posibl os caiff y contract hwn rhwng y naill a'r llall ei dorri.

Safbwynt y claf

Bydd y clinigydd sy'n adolygu eich cais am atgyfeiriad yn penderfynu ar eich angen clinigol yn seiliedig ar y wybodaeth yn eich atgyfeiriad.

Ar ôl i'ch atgyfeiriad gael ei asesu, bydd yr ysbyty yn eich hysbysu ei fod wedi cael eich atgyfeiriad. Yn y llythyr/galwad ffôn/nefes destun dan sylw, bydd yn rhoi syniad i chi o faint o amser y bydd angen i chi aros am eich adolygiad/proffion.

Byddwch yn cael eich cynnwys yn y broses o drefnu eich apwyntiadau. Ar ôl i chi gytuno ar eich apwyntiad, rhaid i chi wneud pob ymdrech i ddod iddo.

Gall fod adegau pan na fydd yn bosibl i chi gadw'r apwyntiad ar y dyddiad neu'r amser y cytunwyd arno, am ryw reswm neu'i gilydd. Os felly, bydd angen i chi hysbysu'r ysbyty cyn gynted â phosibl er mwyn trefnu dyddiad newydd. Bydd eich amser aros yn cael ei ailosod er mwyn adlewyrchu'r amser a gollwyd oherwydd y newid, ond byddwch yn parhau i fod ar y rhestr aros.

Mae'n bwysig eich bod yn ceisio cadw'r dyddiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer eich apwyntiadau. Os bydd angen mwy nag un newid arnoch ar hyd y llwybr,

Prif egwyddorion

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod y cyfnod o amser y mae cleifion yn aros am ofal dewisol (a gynlluniwyd) yn cael ei fesur, ac yr adroddir arno, mewn ffordd deg a chyson. Mae prif egwyddorion y targed atgyfeirio i driniaeth yn amlwg yn adlewyrchu'r egwyddorion Iechyd Darbodus:

8. Mae nifer o egwyddorion allweddol sy'n sail i'r rheolau ar gyfer amseroedd aros, ac maent yn gymwys i bob targed. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob achos o ryngweithio â chleifion, a rhaid eu hystyried wrth lunio pob polisi a gweithdrefn ar gyfer amseroedd aros a mynediad.

Gwnewch yr hyn sydd angen ei wneud a pheidiwch ag achosi unrhyw niwed

9. Dylai cleifion aros cyn lleied o amser â phosibl am driniaeth.

Gofalwch am y rhai sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf

10. Ni ddylai'r targed wyrdroi'r blaenoriaethau clinigol. Targedau AiD yw'r uchafswm amser y mae'n dderbyniol aros, a dylai cleifion brys gael eu trin fel sy'n ofynnol gan eu hanghenion clinigol.

Mae'r Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol yn bartneriaid cydradd drwy gyd-gynhyrchu

11. Mae'r cysyniad o 'gompact' y GIG/cleifion yn ymwneud â chyflawni amseroedd aros yn ddealedig ac wedi'i adlewyrchu yn y diffiniadau isod. Mae gan y naill a'r llall hawliau a chyfrifoldebau o fewn y trefniant. Bydd gofyn i fyrddau iechyd ddarparu gofal o ansawdd uchel yn yr amser targed, ac i ganiatáu ar gyfer dewisiadau cleifion o fewn yr amser hwnnw. Bydd disgwyl i gleifion sicrhau eu bod ar gael am driniaeth o fewn terfynau amser rhesymol, ac ar safleoedd ac ar adegau lle darperir y gwasanaeth, a hynny weithiau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gall methu â gwneud hyn arwain at aros mwy o amser.

12. Mae'n bwysig bod hawliau a chyfrifoldebau'r claf yn cael eu hegluro iddo ar yr adeg y caiff ei atgyfeirio, naill ai'n uniongyrchol, drwy

Safbwynt y claf

Os na fyddwch yn troi i fyny neu os na fyddwch yn hysbysu'r ysbyty tan ar ôl yr apwyntiad, gallwch gael eich atgyfeirio yn ôl i'ch meddyg teulu a bydd eich llwybr yn cael ei stopio.

Tra'n aros, cewch eich annog i ddilyn cyngor eich meddyg teulu drwy'r amser.

Dylech geisio cadw'n iach a chymryd unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd i chi.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ymuno â grŵp cymorth lleol neu geisio cyngor ar yr hyn y gallwch ei wneud tra'n aros. Dylai fod gan eich meddyg teulu wybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn eich ardal leol.

adnoddau ysgrifenedig neu drwy ei gyfeirio at adnoddau electronig (gwefannau). Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad gan atgyfeirwyr ac adnoddau gwybodaeth priodol i gleifion a staff gofal iechyd. Mae gan gleifion ddyletswydd i hysbysu'r GIG, yr ysbyty a'u meddyg teulu am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau tra'u bod yn aros i gael eu gweld ar unrhyw gam.

13. Rhaid i'r wybodaeth a roddir i'r cyhoedd gynnwys digon o wybodaeth am y terfynau amser disgwylidig, y broses ddisgwylidig a'u cyfrifoldebau i helpu'r GIG i drin eu cyflwr mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Caiff cleifion eu grymuso drwy'r wybodaeth hon i gwestiynu a monitro hyn eu taith yn erbyn y targed.
14. Dylid annog cleifion i ymwneud â phob penderfyniad am eu gofal. Dylai hyn gynnwys opsiynau triniaeth a threfniadau gweinyddol posibl. Rhaid i bob apwyntiad o fewn cyfnod AiD gael ei drefnu o dan y rheolau sy'n ymwneud â chynnig rhesymol, ac felly gael ei gytunog gan y claf a'r sefydliad ill dau. Pan gaiff claf ei dynnu o lwybr am resymau heblaw triniaeth, rhaid i'r claf a'r atgyfeiriwr gael eu hysbysu'n llawn am y rhesymau dros y penderfyniad hwn ac unrhyw ofynion o ran ailymuno â'r llwybr.

Lleihau gwahaniaethau amhriodol drwy weithredu ar sail tystiolaeth.

15. Mae'r rheolau wedi'u hysgrifennu mewn ffordd gadarn a chlir. Bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd (Blau) gynnal strwythurau llywodraethu priodol er mwyn sicrhau, lle ceir hyblygrwydd yn y rheolau, fod ysbyrd y targedau yn cael ei gyflawni. Dylai'r holl fethodolegau rheoli cleifion fod yn dryloyw ac wedi'u llywio gan yr egwyddor y dylai cleifion aros cyn lleied o amser â phosibl i gael triniaeth. Mae darpariaeth ar gyfer amrywiadau lleol i'r rheolau hyn lle maent o fudd uniongyrchol i'r claf. Mae angen i'r canllawiau cenedlaethol hyn gael eu hategu gan bolisiau mynediad lleol ar gyfer pob BI.

Safbwynt y claf

Pan fydd eich llythyr atgyfeirio yn dod i law safle ysbyty bydd eich amser aros yn dechrau. Weithiau, gelwir hyn yn ddechrau eich cloc amser aros.

Dylech gael cadarnhad gan yr ysbyty yn eich hysbysu bod eich atgyfeiriad wedi dod i law ac wedi'i dderbyn. Dylai hefyd nodi amseroedd aros bras cyfredol ar gyfer yr arbenigedd rydych wedi cael eich atgyfeirio iddo. Caiff y manylion hyn eu hanfon i'ch meddygfa hefyd. Dylai hyn eich helpu i wybod faint o amser y byddwch yn aros am eich apwyntiad cychwynnol.

Dylai'r llythyr, neges destun, rhif ffôn gyda'r daflen wybodaeth a/neu wefan yr ysbyty roi gwybodaeth i chi am yr hyn i'w wneud os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich amser aros a/neu atgyfeiriad.

Cwmpas y targedau

Targed AiD 26 wythnos

16. Mae'r targed AiD 26 wythnos yn cwmpasu triniaeth ddewisol i bawb sy'n byw yng Nghymru, p'un a ydynt yn cael eu trin yng Nghymru neu'r tu hwnt. Mae'r targed yn cwmpasu cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol at feddyg ymgynghorol mewn gofal eilaidd neu drydyddol, gan gynnwys meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y gymuned.
17. Nid yw'r targed AiD 26 wythnos yn cymryd lle'r targedau amser aros canlynol:
 - Targed canser (31 a 62 diwrnod) (gweler y ddogfen sy'n benodol i ganser mis Ebrill 2017)
 - Gosod cymhorthion clyw oedolion (mynediad uniongyrchol) (targed amser aros 14 wythnos)
 - Profion diagnostig (nad ydynt yn AiD) (targed gweithredol amser aros 8 wythnos gweler atodiad A am y rhestr)
 - Gwasanaethau therapi (nad ydynt yn AiD) (targed gweithredol amser aros 14 wythnos gweler atodiad B am y rhestr)Dylai'r holl dargedau uchod gael eu rheoli yn unol â'u rheolau penodol eu hunain, lle maent yn bodoli.
18. Bydd y cyfnod AiD yn dechrau pan ddaw'r atgyfeiriad i law gofal eilaidd neu drydyddol a bydd yn gorffen pan fydd y driniaeth yn dechrau. Yn aml, bydd triniaeth yn parhau y tu hwnt i driniaeth gyntaf ac ar ôl i gloc stopio.
19. Pan ddaw atgyfeiriad o wasanaeth sgrinio, bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau.
20. Ni fydd hunanatgyfeiriad nac apwyntiad dilynol a ysgogir gan glaf yn dechrau cyfnod AiD oni fydd yn dilyn cyfnod ddim ar gael (gweler yr adran ar argaeledd tudalen 29). Os gwneir penderfyniad newydd i drin neu newid cynllun rheoli, bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau.

Safbwynt y claf

Ar gyfer rhai gwasanaethau, fel orthopedig, mae gwasanaethau penodol yn y gymuned wedi'u sefydlu. Efallai mai'r gwasanaeth hwn fydd yn eich gweld gyntaf lle tybir bod asesiad a/neu driniaeth gan weithiwr proffesiynol arall yn briodol ar gyfer eich gofal. Dylai eich meddyg teulu ddweud wrthyfch i le mae'n anfon eich atgyfeiriad.

Mae'r amser aros targed yn cynnwys yr amser o gael eich atgyfeiriad i ofal eilaidd i ddechrau unrhyw driniaeth ofynnol ar gyfer eich angen clinigol.

Mewn rhai achosion, efallai mai dim ond un cam mewn llwybr hwy fydd dechrau triniaeth.

Bydd eich llwybr triniaeth gofal eilaidd yn seiliedig ar eich angen clinigol.

Gyda'ch gweithiwr iechyd proffesiynol (meddyg, deintydd, nyrs neu therapyddion), dylech chwarae rôl weithredol yn trafod pob cam o'ch llwybr ac yn gwneud penderfyniadau yn ei glych.

Dylech sicrhau eich bod yn deall y cam nesaf ar eich llwybr yn glir ar ôl pob cyfarfod/trafodaeth er mwyn i chi allu monitro eich llwybr eich hun.

21. Efallai y caiff rhai cleifion eu mesur ar fwy nag un cyfnod AiD wrth reoli eu cyflwr mewn gofal eilaidd neu drydyddol. Bydd hyn yn cynnwys cleifion â thriniaeth dilyniant wedi'i chynllunio. (e.e. ail driniaeth ar y glun neu'r ben-glin ar ôl y penderfyniad newid dwyochrog gwreiddiol)
22. Ymhlith y digwyddiadau heblaw am driniaeth a all orffen cyfnod AiD mae:
 - Penderfyniad i beidio â thrin claf
 - Dechrau cyfnod monitro gweithredol (gwylio ac aros)
 - Atgyfeiriad rhwng meddygon ymgynghorol (heblaw am un o'r uned gardioleg i ymyriad/llawdriniaeth gardiaidd)

Rhoddir rhagor o fanylion am bwyntiau dechrau a stopio cloc yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

23. Dim ond gwasanaethau diagnostig a therapi penodedig a gaiff eu cynnwys yn y targed AiD 26 wythnos. Mae atodiadau A a B yn manylu ar y profion diagnostig a'r gwasanaethau therapi a gaiff eu cynnwys. Gellir gwneud addasiad am yr amser a dreulir yn aros am brofion diagnostig neu therapïau sydd wedi'u heithrio lle mae'r gofyniad am brawf neu wasanaeth o'r fath yn golygu na ddechreuir triniaeth. ***(Ni ddylid gwneud unrhyw addasiad am lwybr cardiaidd yn unol â'r rheol rheoli llwybr cardiaidd)***
24. Bydd cleifion â chanser sydd wedi dychwelyd, nas cwmpeisir gan y targedau 31 a 62 diwrnod, yn dod o dan y targed AiD 26 wythnos ond dylai eu blaenoriaeth glinigol bennu eu harhosiad clinigol priodol.
25. Ar gyfer orthodonteg a gwaith deintyddol adferol, bydd yr apwyntiad cleifion allanol cyntaf yn cael ei gynnwys yn y cyfnod AiD. Bydd unrhyw driniaeth ddilynol y tu allan i'r targed AiD 26 wythnos.

Noder: Caiff canllawiau ar wasanaethau CMAT eu cyhoeddi gan y rhaglen ofal arfaethedig ym mis Gorffennaf 2017.

Safbwynt y claf

Nid yw pob llwybr a thriniaeth yn cael eu cwmpasu gan y targed mynediad 26 wythnos.

Fodd bynnag, yr egwyddor o aros cyn lleied o amser â phosibl waeth beth fo'r llwybr yw'r rheol aur o hyd.

Os na fyddwch wedi clywed gan yr ysbyty bod eich atgyfeiriad wedi'i dderbyn, neu os na fyddwch wedi clywed am eich apwyntiad yn yr amser disgwylidig, gallwch ffonio'r ysbyty/maes i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr amseroedd aros disgwylidig.

26. Mae'r tabl isod yn nodi rhai gwasanaethau penodol sy'n rhan o gwmpas y targed AiD 26 wythnos. Mae'r rhain yn wasanaethau y gofynnwyd am eglurder yn eu cylch wrth ddatblygu'r rheolau hyn. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Wedi'i gynnwys yng nghwmpas y targed AiD 26 wythnos	
Maes gwasanaeth/ grŵp cleifion sydd wedi'i gynnwys	Nodiadau
Canser yn dychwelyd	Unrhyw achos o hyn nas cwmpesir gan y targedau canser 31 a 62 diwrnod.
Triniaeth ffrwythlondeb	Triniaeth ar lefel 1 a lefel 2 yn unig (a gwmpesir gan www.wales.nhs.uk/sites3/docpen.cfm?orgin=898&id=176655).
Geneteg glinigol	Cyflyrau newydd a nodir o ganlyniad i brawf genetig.
Personél milwrol	Wedi'i gynnwys i'r graddau mae Blau sy'n gyfrifol am eu gofal. Nid yw'r targed yn gymwys i ofal wedi'i gomisiynu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn oni nodir hynny mewn cytundebau â'r BI. Mae amseroedd aros personél milwrol yn destun y ddarpariaeth yn y llythyr gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau at y Cyfarwyddwyr Cynllunio ym mis Gorffennaf 2011.
Carcharorion	Dylai carcharorion gael eu trin o fewn yr un targed amser aros â holl gleifion eraill y GIG. Derbynnir, mewn rhai achosion, y bydd amgylchiadau sy'n unigryw i'r boblogaeth hon a all olygu ei bod yn heriol iawn cyflawni'r targed AiD 26 wythnos. Dylai'r rhesymau manwl dros fynd y tu hwnt i'r amser targed ar gyfer y cleifion hyn gael eu cofnodi yn y dadansoddiad o'r methiant.
Cleifion Preifat	<p>Ni all claf fod yn glaf preifat ac yn glaf y GIG wrth drin un cyflwr yn ystod ymweliad unigol â sefydliad y GIG.</p> <p>Caiff unrhyw glaf preifat newid ei statws a cheisio triniaeth fel un o gleifion y GIG.</p> <p>Ni ddylai unrhyw glaf sy'n newid ei statws ar ôl derbyn gwasanaethau preifat gael mantais annheg dros gleifion eraill. (Neidio'r ciw)</p> <p>Dylai cleifion a atgyfeirir ar gyfer gwasanaeth y GIG yn dilyn ymgynghoriad preifat neu driniaeth breifat ymuno â rhestr aros y GIG ar yr un pwynt â phetai'r ymgynghoriad neu'r driniaeth flaenorol yn wasanaeth y GIG.</p> <p>Dylai eu blaenoriaeth ar y rhestr aros gael ei phennu ar sail yr un meini prawf â'r hyn sy'n gymwys i atgyfeiriadau eraill.</p> <p>Bydd ymuno â'r cam priodol yn dechrau cloc 26 wythnos newydd.</p> <p>Os bydd triniaeth eisoes wedi dechrau yn y sector preifat, yna ni fyddai atgyfeiriad o'r sector preifat i'r GIG yn dechrau cloc AiD newydd ond byddai'n cael ei gofnodi fel gofal dilynol parhaus. Dim ond petai newid sylweddol wedi'i gynllunio i</p>

	driniaeth y byddai cloc AiD newydd yn dechrau.
--	--

Safbwynt y claf

O ganlyniad i natur arbenigol rhai llwybrau, efallai na fyddant yn cael eu cynnwys yn y targed 26 wythnos.

Dylech gael gwybod beth yw'r amseroedd aros disgwylidig ac, fel y nodwyd yn flaenorol, y rheol aur yw mai eich blaenoriaeth glinigol fydd y sbardun allweddol ac y dylech aros cyn lleied o amser â phosibl.

Eithriadau targed AiD 26 wythnos

27. Mae'r tabl isod yn nodi rhai gwasanaethau penodol sydd heb eu cynnwys yng nghwmpas y targed AiD 26 wythnos. Mae'r rhain yn wasanaethau y gofynnwyd am eglurder yn eu cylch wrth ddatblygu'r rheolau hyn. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Heb ei gynnwys yng nghwmpas y targed AiD 26 wythnos	
Maes gwasanaeth/ grŵp cleifion sydd heb ei gynnwys	Nodiadau
Achosion gofal brys	Unrhyw achos gofal brys. Rhoddir rhagor o wybodaeth am reoli atgyfeiriadau sy'n deillio o achos gofal brys yn y ddogfen hon.
Gwasanaethau iechyd meddwl	Pob gwasanaeth iechyd meddwl gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
Gofal lliniarol	Gan gynnwys gofal hosbis.
Mewnblaniadau cochlea	Y Ganolfan Beirianeg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol driniaeth yw darparu mewnblaniadau cochlea yn benodol.
Gwasanaethau sgrinio	Byddai penderfyniad i atgyfeirio o wasanaeth sgrinio yn dechrau cyfnod AiD newydd.
Pediatriyddion cymunedol	Byddai penderfyniad i atgyfeirio o bediatriyddion cymunedol yn dechrau cyfnod AiD newydd.
Triniaeth dialysis arferol	Byddai penderfyniad i atgyfeirio yn dilyn sesiwn dialysis yn dechrau cyfnod AiD newydd.
Obstetreg	Byddai penderfyniad i atgyfeirio o obstetreg am gyflwr nad yw'n obstetraidd yn dechrau cyfnod AiD newydd.
Triniaeth ffrwythlondeb	Mae triniaeth ffrwythlondeb lefel 3 arbenigol yn destun cynnal uchswm amser aros o 18 mis a gymeradwyir gan bolisi.
Addysg ddeintyddol israddedig	Ni chaiff gofal deintyddol sylfaenol a ddarperir mewn lleoliad gofal eilaidd neu drydyddol at ddiben cefnogi addysg ddeintyddol israddedig yn unig ei gynnwys.
Trawsblaniad a threialon clinigol	Pan gytunir ar opsiwn triniaeth lle ymunir â rhestr Drawsblannu neu dreial clinigol, bydd y cloc AiD yn stopio. Mae'r amser aros ar gyfer y gwasanaethau hyn y tu allan i'r rheolau AiD.

Safbwynt y claf

Bydd y clinigydd sy'n atgyfeirio eich manylion i'w hadolygu yn eu hanfon i'r maes arbenigol sydd fwyaf priodol ar gyfer eich angen yn ei farn ef neu hi.

Dylai ond atgyfeirio'n benodol at feddyg ymgynghorol/gweithiwr meddygol proffesiynol wedi'i enwi lle:

1. ef neu hi yw'r unig glinigydd â'r sgiliau cydnabyddedig i ddelio â'ch anghenion clinigol **neu**
2. rydych wedi bod yng ngofal y clinigydd am yr un cyflwr/cyflwr tebyg yn ddiweddar.

Y gweithiwr meddygol proffesiynol sy'n cael ac yn adolygu eich atgyfeiriad fydd yn arddel barn glinigol am eich blaenoriaeth glinigol i'ch gweld. Yna, bydd yn hysbysu'r gwasanaethau trefnu apwyntiadau er mwyn cytuno ar eich apwyntiad.

Mae'n bwysig bod eich holl fanylion perthnasol yn gywir ac yn gyfredol megis:
gwybodaeth gyswllt; anghenion cyfathrebu arbennig; Os ydych yn gyn-aelod o'r lluoedd arfog, efallai y cewch flaenoriaeth mewn perthynas â rhai cyflyrau.

Cyfrifoldebau clinigol

Cyfrifoldebau staff clinigol o ran monitro amseroedd aros

28. Mae amseroedd aros cleifion yn un o ddangosyddion ansawdd gwasanaeth. Dylai clinigwyr fod yn ymwybodol o'r amseroedd aros cyfredol sy'n gymwys i'w gwasanaeth, a gweithio gyda Blau er mwyn cymryd camau lle nad yw'r amseroedd aros hynny yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o ansawdd gofal.
29. Rhaid i staff clinigol fod yn ymwybodol o ofynion cenedlaethol a pholisïau sefydliadol o ran amseroedd aros. Fel rhan o hyn, dylent fod yn llwyr ymwybodol o'u hamseroedd aros cyfredol eu hunain a defnyddio'r wybodaeth hon i drafod opsiynau ac amseroedd aros posibl gyda'u cleifion ar hyd eu llwybr.
30. Dylai clinigwyr sicrhau bod eu camau gweithredu yn hyrwyddo'r egwyddor y dylai cleifion aros cyn lleied o amser â phosibl am driniaeth.
31. Dylai clinigwyr hefyd sicrhau bod cleifion yn ffit i barhau â'r driniaeth fwyaf priodol. Os nad ydynt yn ffit, dylid trafod hyn gyda'r claf er mwyn deall ei opsiynau.
32. Rhaid i atgyfeirwyr ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd darbodus er mwyn sicrhau y cymerir y camau atgyfeirio mwyaf effeithlon posibl, sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n lleihau'r camau sydd eu hangen er mwyn cael triniaeth.
33. Dylai clinigwyr wneud penderfyniadau mewn modd amserol, a dylai unrhyw atgyfeiriadau pellach gael eu cwblhau'n brydlon, yn ôl canllawiau lleol/cenedlaethol, a chynnwys gwybodaeth ddigonol er mwyn galluogi'r clinigydd sy'n gweld y claf i gymryd ymyriadau priodol gan sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl. Rhaid i atgyfeirwyr sicrhau bod y claf yn ymwybodol ac yn cytuno i'r atgyfeiriad gael ei wneud.
34. Rhaid i glinigwyr gydweithredu â systemau lleol cytûn er mwyn gallu cofnodi canlyniad clinigol pob rhyngweithiad â chleifion, boed hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy lythyr.

35. Rhaid i glinigwyr mewn gofal eilaidd neu drydyddol sicrhau bod y claf a'i glinigydd gofal sylfaenol yn cael gwybod am bob penderfyniad a wneir am ei ofal neu driniaeth yn amserol, p'un a ydynt yn cael eu gwneud yng ngŵydd y claf ai peidio.
36. Rhaid i glinigwyr sicrhau bod unrhyw ymyriad clinigol fel profion neu driniaeth yn glir i gleifion, a ph'un a yw'n gam ar y llwybr cytûn neu'n cael ei ystyried yn ddechrau triniaeth ddiffiniol ac fel y cyfryw ei fod yn dod â chloc y llwybr i ben.

Safbwynt y claf

Dylech drafod y rheswm dros yr atgyfeiriad a'r opsiynau posibl gyda'r meddyg teulu/ deintydd/ optometrydd (y gweithiwr proffesiynol sy'n eich atgyfeirio).

Pan gytunwch gael eich atgyfeirio, rydych yn dechrau ar lwybr gofal a fydd yn defnyddio adnoddau gwerthfawr y GIG. Ar unrhyw adeg wrth i chi aros, os byddwch yn teimlo nad ydych am gael eich atgyfeirio mwyach, rhaid i chi roi gwybod i'ch meddyg teulu a'r ysbyty fel y gellir stopio eich llwybr.

Fel rhan o'r atgyfeiriad, efallai y gofynnir i chi am wybodaeth ychwanegol naill ai gan eich meddyg teulu neu'r ysbyty, y gall fod ei hangen er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich gweld gan yr unigolyn mwyaf priodol yn yr amser byrraf.

Atgyfeiriadau

37. Mae'r cyfnod AiD yn dechrau pan fydd atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd deintyddol cyffredinol i feddyg ymgynghorol mewn gofal eilaidd neu drydyddol, a chan unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall lle mae protocolau atgyfeirio yn bodoli. Bydd y cloc yn dechrau ar y dyddiad y bydd y sefydliad yn cael yr atgyfeiriad.
38. Rhaid i atgyfeirwyr ddefnyddio'r camau atgyfeirio mwyaf effeithlon posibl, sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n lleihau'r camau sydd eu hangen er mwyn cael triniaeth, yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus. Fel rhan o'r wybodaeth atgyfeirio, dylai atgyfeirwyr gynnwys manylion cyswllt cyfredol cleifion sydd wedi'u dilysu, gan gynnwys rhifau ffôn symudol a chyfeiriadau e-bost lle maent ar gael. Dylai atgyfeirwyr ofyn am ganiatâd y claf i'r BI gysylltu ag ef neu hi mewn ffyrdd fel neges destun, e-bost neu dros y ffôn a dynodi a ganiateir i hyn. Dylid cynnwys hyn yn y wybodaeth atgyfeirio. Rhaid i Blau sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan yr unigolyn mwyaf priodol unwaith y daw'r atgyfeiriad i law ac y caiff ei dderbyn.
39. Dylai Blau roi gwybodaeth gyfredol i atgyfeirwyr am lwybr y claf a ddilynir, yr amser aros tebygol a ble y darperir y gwasanaeth, er mwyn cyfleu hyn yn glir i'r claf. Dylai unrhyw drafodaeth hefyd gael ei hategu gan wybodaeth ysgrifenedig i gleifion, a ddarperir naill ai yn ystod yr ymgynghoriad neu drwy eu cyfeirio at wybodaeth ychwanegol. Dylai Blau sicrhau bod systemau ar waith i ddiweddarau'r wybodaeth hon a sicrhau ei bod ar gael i atgyfeirwyr.
40. Os gwneir atgyfeiriad ar gyfer triniaeth nad yw'n cael ei chynnig gan y BI, dylai gael ei ddychwelyd at yr atgyfeiriwr gydag esboniad llawn, heb i unrhyw gloc ddechrau.
41. Pan wneir atgyfeiriad i glinigydd neu arbenigedd nad yw'n trin y cyflwr hwn, ond ei fod yn cael ei drin gan y BI, y BI sy'n gyfrifol am gyfeirio'r atgyfeiriad at y clinigydd / tîm clinigol cywir ac nid yw'r cloc yn stopio.
42. Pan fydd y BI yn cyfeirio atgyfeiriad mewn camgymeriad at glinigydd nad yw'n trin y cyflwr hwn, ni fydd atgyfeiriad ymlaen at y clinigydd

priodol yn stopio'r cloc. Rhaid i'r claf gael ei weld gan y meddyg ymgynghorol newydd o fewn yr un cyfnod AiD.

43. Pan na fydd atgyfeiriad yn cydymffurfio â chanllawiau atgyfeirio cytûn, ni ddylai'r atgyfeiriad ddechrau nes i'r atgyfeiriwr gadarnhau cydymffurfiaeth lawn a bod priodolrwydd yr atgyfeiriad wedi'i gadarnhau. Gall hyn gynnwys holiaduron penodol er mwyn cefnogi'r broses flaenoriaethu. Dylai Blau weithio gyda gofal sylfaenol er mwyn ymdrin ag atgyfeiriadau o'r fath o fewn 48 awr.
44. Os na fydd yr atgyfeiriad yn cynnwys digon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniad clinigol, dylai gael ei ddychwelyd at yr atgyfeiriwr i'w gwblhau, gyda chanllawiau ar yr hyn sydd ei angen. Bydd y cyfnod AiD yn parhau tra bod y wybodaeth yn cael ei chasglu gan nad yw'r oedi yn ymwneud â thorri'r cytundeb a rennir gan y claf, ond oherwydd proses y GIG.
45. Mae angen i Blau weithio gyda gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod llifau gwybodaeth o ansawdd da rhwng y ddau faes er mwyn cefnogi gofal cleifion effeithiol.

Safbwynt y claf

Rôl yr ysbyty yw cynnig apwyntiad i chi o fewn y terfynau amser clinigol y gofynnir amdanynt gan eich meddyg ymgynghorol a, lle bo modd, o fewn yr amseroedd aros cenedlaethol.

Tra yr ymdrechir i sicrhau ei fod mor agos â phosibl i'ch cartref, yn dibynnu ar yr arbenigedd a'r amseroedd aros, efallai y bydd yr apwyntiad cyflymaf ar safle arall.

Cewch gynnig apwyntiad sy'n gweddu orau i'ch gofynion; fodd bynnag, cewch gyfle i'w newid os na fydd yn addas pan gaiff ei gynnig.

Unwaith y byddwch wedi cytuno ar apwyntiad, gallai unrhyw newidiadau dilynol sydd eu hangen arnoch arwain at aros mwy o amser neu hyd yn oed ddychwelyd eich gofal at eich meddyg teulu, os na fyddwch yn dod i apwyntiad heb roi gwybod ymlaen llaw.

Nodir y ffordd y caiff eich apwyntiad ei drefnu yn y llythyr/galwad ffôn/neges destun derbyn. Rhaid i chi gymryd rhan lawn yn y broses gytûn neu efallai

Trefnu apwyntiad a chynnig rhesymol

Prosesau trefnu apwyntiad

46. Dylid trefnu pob apwyntiad i gleifion gan ddefnyddio'r system trefnu apwyntiadau sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae angen i'r prosesau a ddefnyddir gan Blau gael eu cyfleu'n glir i gleifion ar y pwynt atgyfeirio er mwyn sicrhau bod cleifion yn glir ynghylch eu rôl yn y broses leol. Dylai pob apwyntiad gael ei wneud gan gynnwys y claf a dylai ei rôl o ran gwneud unrhyw newidiadau fod yn glir o ran y ffordd y cytunir ar yr apwyntiad. Rhaid cadw at hyn, hyd yn oed lle nad oes gan y sefydliad fanylion cyswllt llawn y claf.
47. Ni ddylai unrhyw sefydliad fod yn ceisio cyfnodau ddim ar gael er mwyn cyflawni targedau. Dylai'r broses trefnu apwyntiad ganolbwyntio ar gytuno ar ddyddiad, ac nid yn syml gynnig dau apwyntiad yn unig (*gweler rhagor o fanylion am gynnig rhesymol ar dudalen 21*).
48. Lle defnyddir model cwbl awtomataidd, a bod y Bl yn anfon llythyr/neges destun at y claf, neu'n ei ffonio, yn cynnig dyddiad iddo, dylai fod gan y Bl broses ar waith sy'n galluogi'r claf i chwarae rôl weithredol o ran newid yr apwyntiad os nad yw'n gyfleus. Mae angen i gleifion fod yn glir ynghylch eu rôl yn cytuno ar ddyddiadau wrth fodloni egwyddorion cyd-gynhyrchu. Mae angen i'r broses hon gael ei hegluro i'r cleifion yn glir wrth eu hatgyfeirio. Lle bynnag y bo modd, dylai sefydliadau sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn eu tro, gan alluogi ystyried blaenoriaeth glinigol (*gweler yr adran ar drefnu apwyntiad yn uniongyrchol ac yn rhannol ar dudalen 19*).
49. Os gwelir claf o fewn chwe wythnos, dylai system trefnu apwyntiadau uniongyrchol gael ei defnyddio. Os bydd yr apwyntiad fwy na chwe wythnos i ffordd, bydd angen cadarnhau derbyn yr atgyfeiriad drwy lythyr, neges destun neu dros y ffôn.
50. Rhaid i bob ymgais i gysylltu â'r claf o dan y prosesau trefnu apwyntiadau gael eu cofnodi a bod ar gael i'w harchwilio.

Safbwynt y claf

Yn aml, efallai y bydd yr ysbyty am gysylltu â chi dros y ffôn. Sicrhewch fod gan eich meddyg teulu a'r ysbyty eich manylion diweddaraf.

Os bydd unrhyw broblem yn cysylltu â chi drwy neges destun neu dros y ffôn, rhowch wybod i'ch meddyg teulu a'r ysbyty.

Trefnu apwyntiad yn uniongyrchol

51. Gall y broses o drefnu apwyntiad yn uniongyrchol ddigwydd mewn dwy ffordd. Gall apwyntiad naill ai gael ei drefnu wyneb yn wyneb â'r claf neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r claf drwy llythyr/e-bost a/neu neges destun.
52. O dan y broses trefnu apwyntiad yn uniongyrchol, os gwneir yr apwyntiad dros y ffôn, dylai'r BI geisio gysylltu â'r claf ddwywaith o leiaf. Rhaid i'r galwadau ffôn hyn ddigwydd ar ddiwrnodau gwahanol, a rhaid i o leiaf un fod y tu allan i oriau gwaith arferol (dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm). Os na lwyddwyd i gysylltu â'r claf, rhaid anfon llythyr ato yn gofyn iddo ffonio a threfnu apwyntiad neu gadarnhau y bydd yn dod iddo. Os na fydd y claf wedi ymateb i'r llythyr yn ei atgoffa o fewn pythefnos i ddyddiad anfon y llythyr, a bod o leiaf bedair wythnos wedi mynd heibio ers ceisio cysylltu ag ef y tro cyntaf, dylai'r claf gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, gan roi gwybod i'r claf a'r atgyfeiriwr.

Trefnu apwyntiad yn rhannol (proses dau gam)

53. O dan y broses trefnu apwyntiad yn rhannol, rhaid anfon cydnabyddiaeth at y claf pan fydd yr atgyfeiriad yn dod i law a'i fod wedi'i dderbyn. Dylai hon egluro'r broses o drefnu'r apwyntiad ar ei gyfer. Yna, dylai llythyr gael ei anfon at y claf bedair wythnos cyn y disgwylir ei weld, yn gofyn iddo ffonio a threfnu apwyntiad yn y 10 diwrnod nesaf (llythyr galwad ffôn).
54. Os na fydd y claf wedi ymateb i'r llythyr galwad ffôn o fewn pythefnos, dylid anfon llythyr yn ei atgoffa neu gysylltu ag ef mewn ffordd arall (e-bost, neges destun, ac ati) gan ofyn iddo gysylltu o fewn pythefnos arall a nodi, os na wneir hynny, y caiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros.
55. Os bydd y broses trefnu apwyntiad leol yn anfon dyddiad arfaethedig ar gyfer yr apwyntiad yn yr ail llythyr, (ar ôl y llythyr cydnabod o'r atgyfeiriad), dylai'r claf gael gwybod yn glir beth yw ei opsiynau a'r

Safbwynt y claf

Mae ystod eang o apwyntiadau mewn llawer o arbenigeddau, a gall y dewis o ddyddiadau ac amseroedd ar gyfer un arbenigedd fod yn gyfyngedig.

Gwneir pob ymdrech i gytuno ar ddyddiad addas gyda chi ond gall fod angen bod yn hyblyg er mwyn cytuno ar ddyddiad ac amser addas pan gynhelir y clinig sydd ei angen arnoch.

Os na fyddwch yn gallu mynd i apwyntiad yn ystod y cyfnod yr anelir ato, gwneir addasiad i'ch cloc amser aros, ac eglurir hyn i chi pan drefnir eich apwyntiad.

amserlen (pythefnos) er mwyn newid yr apwyntiad hwn. Ar ôl y dyddiad hwn, tybir bod yr apwyntiad wedi'i gytuno gan y naill ochr a'r llall ar yr amod bod y dyddiad wedi'i anfon o fewn tair wythnos i'r dyddiad a gynigir. Rhaid cynnig y cyfle i gadarnhau'r dyddiad, naill ai drwy atgoffa'r claf dros y ffôn neu drwy neges destun.

Methu â chysylltu â chlaf

56. Os na fydd y claf wedi ymateb i'r broses o drefnu apwyntiad o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y ceisiwyd cysylltu ag ef y tro cyntaf, dylai gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, gan roi gwybod i'r atgyfeiriwr.

Cynnig rhesymol

57. Diffinnir cynnig rhesymol i glaf fel unrhyw ddyddiad y mae'r claf a'r sefydliad yn cytuno arno. Gellir ond cymhwyso rheolau amseroedd aros ar sail y cynnig hwn wedyn (e.e. Methu Dod CNA, Heb Ddod - DNA) os cytunwyd ar ddyddiad yr apwyntiad gan y naill ochr a'r llall, ac felly yr ystyrir ei fod yn rhesymol.
58. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod y naill ochr a'r llall yn cytuno ar apwyntiadau, a bod y claf wedi cael cynnig dewis o ddyddiadau o fewn y terfynau amser cytûn, os oes angen er mwyn cytuno ar ddyddiad.
59. Dylai cleifion gael cynnig nifer o ddyddiadau a/neu amseroedd posibl, y mae'n rhaid i ddau ohonynt o leiaf fod fwy na phythefnos i ffwrdd. (gweler y rheolau ar gyfer rhesymoldeb nifer y cynigiono dan bara 63)
60. Dylai cleifion gael cynnig apwyntiadau mewn unrhyw leoliad sy'n darparu'r gwasanaeth gofynnol, yn ddelfrydol mewn lleoliad sydd agosaf i'w cartref. Ystyrir bod lleoliadau sydd bellter o gartref y claf yn rhesymol os eglurwyd hyn i'r claf pan gafodd ei atgyfeirio neu wrth gael y gydnabyddiaeth o'r atgyfeiriad.
61. Rhaid i bob dyddiad a gynigir gael ei gofnodi a bod ar gael i'w archwilio wedyn. Os na chaiff y wybodaeth ofynnol ei chofnodi, nid ystyrir bod cynnig rhesymol wedi'i wneud.
62. Gellir addasu lle na fu modd cytuno ar ddyddiad addas o fewn y cyfnod trefnu apwyntiad roeddech yn ei gynllunio'n wreiddiol. Bydd yr addasiad ar gyfer y cyfnod o wahaniaeth o'r adeg y bwriadwyd trefnu

Safbwynt y claf

Caiff cleifion nad ydynt wedi cadw apwyntiad ar unrhyw adeg ar hyd y llwybr ac nad ydynt wedi hysbysu'r sefydliad ymlaen llaw eu nodi'n rhai 'heb ddod'.

Oni fydd y clinigydd o'r farn y caiff hyn effaith glinigol ar eich gofal, bydd eich cloc yn stopio a chaiff eich gofal ei atgyfeirio'n ôl at eich meddyg teulu.

Os bydd y clinigydd am eich gweld o hyd, caiff eich amser aros ei ailosod i'r dyddiad na wnaethoch ddod i'ch apwyntiad.

apwyntiad iddynt i'r adeg pan fyddwch yn trefnu'r apwyntiad. (Dim ond wrth drefnu apwyntiad y gellir gwneud addasiad)

Gwrthod cynnig rhesymol

63. Gellir ond tybio bod claf wedi gwrthod cynnig rhesymol pan gynigiwyd o leiaf ddau apwyntiad â chyfnod priodol rhyngddynt, ac ar ddyddiadau amgen, ac na fu'n bosibl cytuno ar apwyntiad. Efallai na fydd dau apwyntiad yn bosibl ar gyfer rhai apwyntiadau, fel cytuno ar leoliadau triniaeth, dyddiadau profion diagnostig neu ar gyfer clinigau a gynhelir unwaith y mis yn unig. Mae'n briodol arfer disgrisiwn lleol o ran cynnig rhesymol yn yr achosion hyn, a dylai hyn gael ei egluro i'r claf a'i nodi yn ei gofnodion. *(Gall hefyd fod yn fuddiol cynnig mwy na dau ar y tro lle mae'n rhesymol gwneud hynny)*
64. Os bydd y claf yn datgan nad yw ar gael yn y cyfnod o amser lle gwneir y cynigion, bydd y rheolau diffyg argaeledd cymdeithasol yn gymwys. (gweler adran 105 tudalen 29)
65. Os bydd y claf ar gael yn ystod cyfnod y cynnig, ond ei fod yn gwrthod cynnig rhesymol, caiff y cloc ei ailosod. Bydd y cloc newydd yn dechrau ar y dyddiad y mae'r claf yn gwrthod yr apwyntiadau a gynigiwyd iddo.

Methu dod (CNA)

66. Nodir methu dod pan fydd y claf wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw na all ddod i apwyntiad y cytunwyd arno. Gall claf roi rhybudd ymlaen llaw hyd at, a chan gynnwys, diwrnod yr apwyntiad ond cyn union amser yr apwyntiad.
67. Os bydd claf yn methu dod ar unrhyw adeg yn ystod ei lwybr, rhaid trefnu apwyntiad newydd y cytunir arno gan y naill ochr cyn gynted â bod y claf ar gael a chaiff ei gloc ei ailosod ond bydd yn parhau ar y llwybr. Dylai'r claf gael gwybod am ailosod y cloc wrth aildrefnu'r apwyntiad.

68. Os bydd ail achos o fethu dod o fewn yr un llwybr, dylid ystyried bod y claf heb ddod gan ei fod wedi torri'r "compact" i fod ar gael yn rhesymol, ac fel y cyfryw mae mewn perygl o gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, a'r atgyfeiriwr fydd yn gyfrifol am ei ofal parhaus eto. Rhaid i'r claf a'r atgyfeiriwr gael gwybod y caiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros yn briodol.
69. Os bydd y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am y claf o'r farn na ddylid gwneud hynny, am resymau clinigol, gall barhau ar y llwybr a chaiff ei gloc ei ailosod.

Heb ddod (DNA)

70. Os na fydd y claf yn dod i apwyntiad (DNA) y cytunwyd arno heb roi rhybudd, dylai'r claf gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros, a'r atgyfeiriwr fydd yn gyfrifol am ei ofal parhaus eto. Rhaid i'r claf a'r atgyfeiriwr gael gwybod y caiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros yn briodol.
71. Os bydd y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am y claf o'r farn na ddylid gwneud hynny, am resymau clinigol, bydd yn parhau ar y llwybr a chaiff ei gloc ei ailosod.
72. Gellir ailosod statws heb ddod ddwywaith mewn unrhyw lwybr AiD penodol. Rhaid rhoi gwybod i'r claf a'r atgyfeiriwr am hynny ar lafar a/neu drwy lythyr pan gysylltir yn y dyfodol. Os na fydd y claf yn dod i apwyntiad deirgwaith neu fwy, a bod y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol o'r farn y dylai aros ar y rhestr aros, dylai'r llwybr gael ei stopio a dylai'r clinigydd ysgrifennu at yr atgyfeiriwr a'r claf gan geisio eglurhad bod angen iddo barhau ar y llwybr. Dim ond os caiff hyn ei gadarnhau gan yr atgyfeiriwr a'r claf y bydd yn cael ailymuno â'r rhestr aros ac y caiff y cloc ei ailosod i ddyddiad cadarnhad yr atgyfeiriwr a'r claf eu bod am i'r claf aros ar y llwybr. Dylai ailddechrau ar y cam mwyaf priodol o'r llwybr yn seiliedig ar ei angen clinigol a'i lwybr yn y gorffennol.

Safbwynt y claf

Dylai unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar reolaeth glinigol eich gofal ac a wnaed pan nad oeddech yn bresennol gael ei ddogfennu a'i rannu â chi a'ch meddyg teulu.

Fel rhan o unrhyw ryngweithio rhyngoch chi a'ch tîm clinigol, dylech gael gwybod beth yw'r cam disgwylidig nesaf ac unrhyw opsiynau posibl.

Os bydd yr ysbyty yn canslo apwyntiad, caiff un arall ei drefnu cyn gynted â phosibl. Ni chaiff eich amser aros ei addasu ar gyfer y newid hwn a bydd y cloc yn parhau i dician. Mae angen i'r ysbyty wneud pob ymdrech i barhau i ddiwallu'r anghenion clinigol a chenedlaethol ar gyfer eich anghenion.

Yn dibynnu ar eich llwybr a rhai o'ch dewisiadau, gall y cloc gael ei addasu. Os bydd unrhyw newid ar hyd y llwybr o ganlyniad i'r ysbyty ni ddylai unrhyw addasiad gael ei wneud.

Canlyniadau derbyn

73. Rhaid i ganlyniad gael ei gofnodi yn y system wybodaeth ar gyfer pob rhyngweithiad â chlaf, p'un a yw'n bresennol ai peidio.
74. Bydd y canlyniad yn perthyn i un o dri chategori: cloc yn parhau, cloc yn stopio, neu gloc newydd yn dechrau.
75. Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r broses o godio canlyniadau ar ôl unrhyw achos o ryngweithio â chlaf, naill ai wyneb yn wyneb neu mewn ffordd rithwir, er mwyn lleihau'r angen i ddilysu gweithgarwch heb ei godio.

Canlyniadau cloc yn parhau

76. Defnyddir canlyniad cloc yn parhau i ddiffinio pwyntiau penderfynu ar hyd y llwybr lle bydd y cloc presennol yn parhau. O fewn cyfnod AiD, bydd y cloc yn parhau i dician nes gwneir penderfyniad clinigol i stopio. Pan nad oes cyfnod AiD cyfredol, bydd y cloc blaenorol yn parhau ar stop. (*Gall cloc newydd ddechrau os bydd angen clinigol claf yn newid wrth ddarparu gofal dilynol parhaus*).
77. Os caiff apwyntiad ei ganslo gan y sefydliad, bydd y cloc yn parhau, a rhaid i apwyntiad newydd gael ei drefnu heb gael unrhyw effaith ar gloc AiD y claf.
78. Bydd pob atgyfeiriad o fewn cyfnod AiD at wasanaethau diagnostig, asesiadau therapi neu asesiadau anesthetig yn gwneud i'r cloc barhau. Pan fydd yr atgyfeiriad at ddiagnostig sydd wedi'i eithrio gellir addasu'r amser aros. (gweler atodiad A a B am brofion a gwasanaethau therapi sydd wedi'u cynnwys fel rhan o lwybr AiD) ***Nid dyma'r achos i lwybr cardiaidd, dylai pob prawf diagnostig gael ei gynnwys yn y cloc amser aros cardiaidd.***
79. Pan fydd y claf wedi cael gwybod am opsiynau gwasanaeth a chanlyniadau aros gyda meddyg ymgynghorol wedi'i enwi (a/neu safle ysbyty), gall y sefydliad ailosod y cloc i'r dyddiad y cafodd y claf wybod gan y sefydliad am ei benderfyniad. Dylai'r claf gael gwybod am ganlyniadau ei benderfyniad ar lafar neu'n ysgrifenedig. Byddai disgwyl i gleifion gadw eu lle ar y rhestr aros er mwyn cydnabod eu harhosiad

Safbwynt y claf

Er ei bod yn glir pan fydd cloc yn dechrau pan ddaw eich atgyfeiriad i law'r ysbyty, gall y cloc gael ei stopio am sawl rheswm; fodd bynnag, dylech chwarae rôl weithredol yn y broses hon.

Y prif bwynt stopio yw pan fydd y driniaeth sydd ei hangen amoch ar gyfer eich cyflwr yn dechrau, os oes angen triniaeth arnoch.

Yn dibynnu ar eich angen clinigol, gall dechrau triniaeth olygu'r dechrau'n deg, ond i eraill gall olygu diwedd y cyfnod penodol hwnnw o ofal.

blaenorol a chael eu trin yn briodol pan fo adnoddau ar gael. O fewn amseroedd aros wedi'u cofnodi, gwelir hyn fel trin claf allan o drefn ond mae'n rhesymol ac yn deg i arhosiad gwirioneddol cleifion. Dim ond *unwaith* y gellir ailosod o fewn llwybr claf unigol. Rhaid i'r claf gael gwybod am ganlyniadau ei benderfyniad, o ran ei amseroedd aros disgwyledig newydd pan wnaiff y penderfyniad, ar lafar neu'n ysgrifenedig.

80. Pan fydd cyfnod AiD claf yn digwydd mewn mwy nag un sefydliad, ac nad yw meddyg ymgynghorol y claf yn newid, bydd y cloc yn parhau pan gaiff y claf ei drosglwyddo rhwng y sefydliadau. Bydd atgyfeiriad at feddyg ymgynghorol arall **heblaw am lwybr cardiaidd** yn stopio'r cloc AiD presennol ac yn dechrau cloc AiD newydd. Rhaid i Blau sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod y cyfnodau AiD yn cael eu mesur yn gywir.
81. Pan gaiff claf ei atgyfeirio o sefydliad y GIG at sefydliad yn y sector annibynnol fel rhan o lwybr y GIG, bydd y cloc yn parhau.

Canlyniadau cloc yn stopio

82. Defnyddir canlyniad cloc yn stopio i ddiffinio pwyntiau penderfynu ar hyd y llwybr lle bydd cyfnod AiD presennol yn gorffen.
83. Defnyddir canlyniadau cloc yn stopio ar gyfer digwyddiadau sy'n gyfystyr â thriniaeth, penderfyniad nad oes angen unrhyw driniaeth neu lle nad yw'r claf ar gael am resymau meddygol neu gymdeithasol sy'n hwy na'r cyfnodau y cytunwyd arnynt.
84. Diffinnir triniaeth fel ymyriad clinigol y bwriedir iddo, ar adeg yr ymyriad, reoli cyflwr y claf.
85. Pan roddir triniaeth mewn lleoliad nad yw'n derbyn cleifion, bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad y bydd y driniaeth yn dechrau.
86. Pan roddir triniaeth yn dilyn derbyn claf, bydd y cloc yn stopio o ar y dyddiad derbyn. Os na chaiff y driniaeth ei rhoi pan fo'r claf wedi'i dderbyn, rhaid rhoi'r gorau i stopio'r cloc a bydd y cloc yn parhau.

Safbwynt y claf

Ar gyfer rhai llwybrau, gallai eich clinigydd gynnig cymryd rhan mewn treial clinigol. Cynigir hyn yn seiliedig ar eich cyflwr clinigol ac mewn ymgynghoriad â chi. Bydd angen i chi ystyried hyn a'i drafod â'ch clinigydd.

Yn ystod eich llwybr, gallwch gael eich anfon am brofion neu driniaethau therapi, a all gael eu hystyried yn opsiynau triniaeth posibl ac achos arall o stopio'r cloc. Dylai hyn gael ei egluro i chi.

Os mai'r dewis opsiwn yw triniaeth/llawdriniaeth bydd yn bwysig sicrhau eich bod yn ffit pan fo angen.

Os byddwch yn mynd yn sâl gyda chyflwr arall tra'ch bod yn aros sy'n golygu nad ydych yn ddigon iach i gael triniaeth, gellir gwneud addasiad i'ch arhosiad, tra'ch bod yn gwella.

Os bydd hyn ar gyfer cyflwr mwy hirdymor sydd dros dair wythnos, cewch eich tynnu oddi ar y rhestr aros a byddwch chi, a'ch meddyg teulu, yn cael llythyr sy'n egluro'r rhesymau a'r canllawiau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer dychwelyd i'r llwybr ar ddyddiad diweddarach.

87. Pan wneir penderfyniad i beidio â thrin claf ar y pryd, bydd y cloc yn stopio. Gall y penderfyniad hwn fod yn un clinigol, gan gynnwys monitro gweithredol, neu gall y claf benderfynu gwrthod neu oedi triniaeth. Bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad y rhoddir gwybod i'r claf am y penderfyniad.
88. Pan gaiff claf ei drosglwyddo rhwng meddygon ymgynghorol oherwydd anghenraid clinigol, sy'n atal y llwybr presennol rhag cael ei gwblhau, bydd y cloc yn stopio. Os mai cais am gyngor yw hyn yn syml, rhaid ei reoli o fewn y cyfnod AiD 26 wythnos. Y dyddiad yr eglurir i'r claf fod cyfrifoldeb clinigol am ei ofal yn cael ei drosglwyddo i feddyg ymgynghorol arall fydd y dyddiad y caiff y cloc ei stopio. Bydd cael atgyfeiriad yr ail feddyg ymgynghorol yn dechrau cyfnod AiD newydd (*nid ar gyfer llwybr cardiaidd*). Fodd bynnag, dylai'r sefydliad ystyried yr amser mae'r claf eisoes wedi aros wrth benderfynu ar flaenoriaeth/amserlenni triniaeth.
89. Os bydd claf yn ymuno â threial clinigol neu'n cael ei ychwanegu at restr drawsblannu, bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad y caiff y claf wybod am y penderfyniad.
90. Os bydd claf yn dewis cael cam(au) nesaf ei lwybr yn breifat y tu allan i'r GIG, bydd y cloc yn stopio pan gaiff y sefydliad wybod am hyn.
91. Pan fydd triniaeth ddiagnostig yn newid i ymyriad therapiwtig sy'n bodloni'r diffiniad o driniaeth, bydd y cloc yn stopio. Dyddiad yr ymyriad fydd y dyddiad y caiff y cloc ei stopio.
92. Ystyrir bod atgyfeiriad ar gyfer triniaeth therapi sydd wedi'i heithrio lle mai dyma'r ymyriad y bwriedir iddo reoli cyflwr y claf (triniaeth) yn ddechrau triniaeth ddiffiniol a chaiff y cloc ei stopio. Dyddiad stopio'r cloc fydd y dyddiad y gwneir yr atgyfeiriad. Fodd bynnag, os mai dim ond rhan o'r llwybr yw'r atgyfeiriad therapi, nid yw'n stopio'r cloc ond gellir gwneud addasiad am yr amser yn aros am y prawf. (*gweler yr adran o dan wasanaethau AiD sydd wedi'u heithrio, nad yw'n cynnwys llwybrau cardiaidd*)

93. Os caiff claf ei dderbyn fel achos brys a'i fod yn cael ymyriad ar gyfer y cyflwr y mae ganddo gyfnod AiD agored ar ei gyfer, a bod yr ymyriad yn bodloni'r diffiniad o driniaeth, caiff y cloc ei stopio. Dyddiad yr ymyriad fydd y dyddiad y caiff y cloc ei stopio.
94. Os na fydd claf yn dod i apwyntiad ac y tybir ei fod yn glinigol briodol ei dynnu oddi ar y rhestr, neu ei fod yn methu dod am yr eildro yn ystod y llwybr, neu ei fod ddim ar gael am fwy nag wyth wythnos mewn un cyfnod, bydd y cloc yn stopio. Dyddiad stopio'r cloc fydd y dyddiad y daw'r sefydliad yn ymwybodol o'r digwyddiad.
95. Os bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig o'r farn bod gan glaf gyflwr meddygol na chaiff ei ddatrys o fewn 21 diwrnod, dylai'r claf gael ei ddychwelyd at ei glinigydd atgyfeiriol, neu glinigydd arall a wnaiff drin y cyflwr, a bydd y cloc yn stopio. Dyddiad stopio'r cloc fydd y dyddiad y tybir nad yw'r claf ar gael yn feddygol ar gyfer y cyfnod hwn.
96. Os caiff claf ei dynnu oddi ar y rhestr aros am resymau heblaw am driniaeth, rhaid i'r claf a'i atgyfeiriwr gael gwybod am hyn a'r rhesymau dros y penderfyniad. Rhaid i'r wybodaeth a roddir gynnwys y rhesymau llawn dros wneud y penderfyniad a'r canllawiau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer dychwelyd i'r llwybr. Rhaid cadw llwybr archwilio llawn o'r ohebiaeth hon.
97. Os yw'r claf a gaiff ei dynnu oddi ar y rhestr aros o dan 18 oed, rhaid ystyried goblygiadau amddiffyn plant a'r risgiau iddo os caiff ei dynnu oddi arni, gan eu dogfennu hefyd. Os yw'r claf o dan bump oed, dylai'r ymwelydd iechyd gael gwybod ei fod wedi'i dynnu oddi ar y rhestr aros.

Canlyniadau cloc newydd yn dechrau

98. Ar ôl stopio cloc, dylai claf ond parhau i gael ei adolygu gan y clinigydd lle bo angen hyn am resymau clinigol. Pan barheir i adolygu claf ac y gwneir penderfyniad newydd i'w drin, bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y gwneir y penderfyniad newydd i drin. Pan fo newid sylweddol mewn triniaeth barhaus ac na ellir dechrau'r driniaeth newydd ar yr adeg y caiff y

newid ei drafod â'r claf, bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau: Enghraifft o hyn yw pan ystyrir nad yw rhyddhad poen yn effeithiol mwyach ac mai llawdriniaeth yw'r driniaeth orau bellach, byddai cloc newydd yn cael ei ddechrau pan wneir y penderfyniad hwn ac yn parhau nes i'r claf gael ei dderbyn am y llawdriniaeth. Dylid cadw llwybr archwilio llawn o hyn. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y caiff y claf wybod am y penderfyniad i newid y driniaeth. Ni fydd newid cynyddol i driniaeth barhaus yn dechrau cyfnod AiD newydd: enghraifft o hyn yw ffisiotherapi a gynigir er mwyn helpu i leddfu poen yn barhaus.

99. Os rhoddir claf, yn ystod derbyniad brys neu dderbyniad fel arall, ar y rhestr aros am driniaeth ddewisol y cynllunnir iddi ddigwydd ar ôl rhyddhau'r claf o'r gwasanaethau brys (adran damweiniau ac achosion brys a/neu dderbyniad brys), bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y caiff ei ryddhau o'i arhosiad brys.
100. Am resymau clinigol, bydd angen i rai cleifion gael triniaeth yn ddiweddarach. Bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau ar gyfer y triniaethau hyn sydd wedi'u cynllunio ar y dyddiad y daw'n glinigol briodol i gynnal y driniaeth.
101. Pan fydd claf wedi'i dynnu oddi ar y rhestr aros am resymau heblaw am driniaeth, yn bennaf nad yw wedi bod ar gael wrth geisio trefnu apwyntiadau, dylai sefydliadau adael i'r claf hunanatgyfeirio yn ôl i'r llwybr yn hytrach na chreu atgyfeiriad newydd drwy'r meddyg teulu ar yr amod bod y claf bellach yn ymrwymo i fod ar gael. (Dylid arfer disgrisiwn lleol a chyfathrebu â'r claf). Dylai'r claf ddychwelyd i'r llwybr ar y pwynt clinigol mwyaf priodol, a bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau. Dyddiad dechrau'r cloc fydd y dyddiad y daw'r atgyfeiriad i law'r BI. Y cyfnod mwyaf a ganiateir rhwng tynnu claf oddi ar y rhestr aros a hunanatgyfeiriad yw chwe mis. Ar ôl hyn, dylai atgyfeiriad newydd gael ei greu. Gall y cyfnod o chwe mis gael ei ymestyn yn amhenodol yn achos clinigau 'claf arbenigol' neu SOS (See On Symptoms), lle mae canllawiau ar waith ac wedi'u cytuno ar y cyd gan

y clinigydd a'r claf er mwyn hwyluso'r defnydd priodol o SOS ar gyfer pob claf.

Addasiadau

Claf ddim ar gael

102. Pan na fydd claf ar gael oherwydd cyflwr meddygol byrdymor, fel annwyd, gall addasiad gael ei wneud i'r cyfnod AiD. Lle gall hyn gael ei wneud gan staff derbynfa, lle bo'n ofynnol dylai gael ei gefnogi gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig, sy'n cytuno bod gan glaf gyflwr a wnaiff gael ei ddatrys o fewn 21 diwrnod. Dylai'r claf aros ar y rhestr aros weithredol a gall addasiad o hyd at 21 diwrnod gael ei wneud. Os bydd gweithiwr meddygol proffesiynol cymwysedig o'r farn nad yw'n gyflwr a ddylai gael ei ddatrys mewn 21 diwrnod, dylai'r cloc gael ei stopio.
103. Dylai'r addasiad ddechrau o'r dyddiad y penderfynir nad yw'r claf yn ffit yn feddygol a dylai barhau tan y dyddiad y datgenir bod y claf yn ffit i gael triniaeth. Ni ddylai'r cyfnod hwn fod yn fwy na 21 diwrnod ar bob cam o'r llwybr.
104. Os caiff claf ei adolygu ar ôl y cyfnod y disgwyliwyd iddo wella ac nad yw hynny wedi digwydd, neu fod cyflwr arall wedi datblygu, dylai'r claf gael ei ddychwelyd at ei glinigydd atgyfeiriol, neu glinigydd arall a wnaiff drin y cyflwr, a daw'r cyfnod AiD i ben. Ni all ail gyfnod 21 diwrnod gael ei roi ar waith ar yr un cam o'r llwybr.
105. Pan na fydd claf ar gael am resymau cymdeithasol, gall addasiad gael ei wneud i'r cyfnod AiD. (*uchafswm o 8 wythnos*)
106. Pan fydd llai na phythefnos pan nad yw ar gael, ni chaiff unrhyw addasiad ei wneud.
107. Pan na fydd y claf ar gael am gyfnod o bythefnos i wyth wythnos, gall addasiad gael ei wneud am y cyfnod llawn nad yw ar gael.
108. Pan na fydd y claf ar gael am fwy nag wyth wythnos, dylai'r claf gael ei ddychwelyd at yr atgyfeiriwr ond dylai hyn gael ei drafod a'i gytuno gan ei feddyg ymgynghorol.

Gwasanaethau AiD sydd wedi'u heithrio

109. Os caiff claf ei atgyfeirio at wasanaeth diagnostig neu therapi nad yw'n dod o dan gwmpas y targed AiD 26 wythnos, gellir gwneud addasiad os yw'n rhan o'i lwybr. Dim ond os yw'r mewnbwn yn hanfodol cyn y gall y driniaeth fwriadedig ddigwydd y gellir gwneud addasiad.
110. Pan fydd yr atgyfeiriad am brawf diagnostig sydd wedi'i eithrio, bydd yr addasiad yn gymwys o ddyddiad yr atgyfeiriad i'r dyddiad y cynhelir y prawf.
111. Pan fydd yr atgyfeiriad am asesiad therapi neu driniaeth interim sydd wedi'i heithrio, bydd yr addasiad yn gymwys o ddyddiad yr atgyfeiriad i'r dyddiad y cynhelir yr asesiad neu'rmyriad.

Gofal wedi'i gynllunio

112. Mae gofal wedi'i gynllunio yn ymwneud â derbyniadau dewisol a gynllunnir i ddigwydd yn y dyfodol, lle, am resymau meddygol, y mae'n rhaid eu hoedi cyn y gellir cyflawni ymyriad penodol. Bydd hyn yn cynnwys ail ran triniaeth ddwyochrog, triniaethau dilyniannol, ymyriadau lle mae angen oedi oherwydd aeddfedrwydd datblygiadol, a thriniaethau gwylidwriaeth.
113. Pan fydd angen i glaf gael triniaeth ddwyochrog neu ddilyniannol yn glinigol, caiff cyfnod AiD y driniaeth gyntaf ei reoli'n arferol o dan y rheolau AiD. Bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau pan dybir bod y claf yn ffit ac yn barod i gael yr ail driniaeth neu driniaeth ddilynol. Bydd y cloc yn dechrau ar y dyddiad y gwneir y penderfyniad i dderbyn y claf a bydd yn stopio ar y dyddiad y derbynnir y claf am yr ail driniaeth neu driniaeth ddilynol.
114. Pan fydd angen gohirio ymyriad gofynnol nes y cyrhaeddir lefel benodol o aeddfedrwydd datblygiadol, caiff y claf ei fonitro nes ei fod yn barod i gael y driniaeth. Pan wneir y penderfyniad hwn, bydd y cyfnod AiD presennol yn gorffen. Bydd cyfnod AiD newydd yn dechrau pan fydd y meddyg ymgynghorol yn penderfynu bod y claf yn barod ac yn ffit i gael y driniaeth, ac y gwneir penderfyniad i'w dderbyn. Bydd y cloc yn dechrau ar y dyddiad y gwneir y penderfyniad i dderbyn y claf a bydd yn stopio ar y dyddiad y derbynnir y claf am y driniaeth.
115. Pan fydd ymyriad a gynllunnir yn rhan o raglen gwylidwriaeth ni fydd unrhyw gyfnod AiD yn gymwys. Pan wneir penderfyniad i ddechrau rhaglen gwylidwriaeth, bydd y cyfnod AiD presennol yn gorffen. Gall hyn fod o ganlyniad i ymyriad cychwynol neu brawf diagnostig sy'n arwain at y rhaglen gwylidwriaeth.

Gofal brys

116. Mae rheolau AiD ond yn gymwys i lwybrau dewisol yn unig ac felly ni fydd derbyniadau sy'n deillio'n uniongyrchol o dderbyniadau brys yn dechrau cyfnod AiD. Fodd bynnag, bydd llwybr dewisol neu lwybr wedi'i gynllunio newydd a gychwynnir drwy achos brys yn dechrau cyfnod AiD newydd.
117. Os gwelir claf yn ystod derbyniad brys neu dderbyniad gan dîm meddyg ymgynghorol ac y trefnir apwyntiad dilynol o dan ei ofal neu mewn clinig brys penodol, ni fydd hyn yn dechrau cyfnod AiD newydd. Byddai penderfyniad diweddarach i drin y claf yn dechrau cyfnod AiD newydd. Byddai'r cloc yn dechrau ar y dyddiad y gwneir y penderfyniad.
118. Os gwelir claf yn ystod derbyniad brys neu dderbyniad gan dîm meddyg ymgynghorol ac y gwneir penderfyniad i drin y claf ar sail ddewisol neu wedi'i chynllunio, byddai cyfnod AiD newydd yn dechrau. Byddai'r cloc yn dechrau ar y dyddiad y rhyddhawyd y claf o ofal brys.
119. Os caiff claf ei atgyfeirio yn ystod derbyniad brys neu dderbyniad i feddyg ymgynghorol arall y tu allan i'r achos brys, bydd yr atgyfeiriad yn dechrau cyfnod AiD newydd. Byddai'r cloc yn dechrau ar y dyddiad y caiff yr ail feddyg ymgynghorol yr atgyfeiriad.
120. Os caiff claf â chyfnod AiD presennol ei dderbyn fel achos brys a'i drin am y cyflwr hwnnw yn ystod ei arhosiad brys, bydd y cyfnod AiD yn gorffen. Bydd y cloc yn stopio ar y dyddiad y cyflawnir y driniaeth.
121. Os caiff claf â chyfnod AiD presennol ei dderbyn fel achos brys, ond na chaiff ei drin am y cyflwr hwnnw yn ystod ei arhosiad brys, bydd y cloc yn parhau. Os penderfynir nad yw'r claf yn ffit yn feddygol i gael y driniaeth y mae'n aros amdani, dylai'r rheolau sy'n gymwys pan nad yw claf ar gael gael eu dilyn.

Atebolrwydd

Cofnodi a chyflwyno adroddiadau

Fformatau adrodd

122. Rhaid cofnodi pob targed yn ôl gofynion Geiriadur Data GIG Cymru. Rhaid i sefydliadau gyfeirio at y geiriadur data am fanylion fformatau, meysydd, amserlenni a llwybrau adrodd gofynnol.
123. Rhaid i Blau sicrhau bod systemau priodol ar waith i nodi'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn bodloni'r gofynion adrodd.

Atebolrwydd am fonitro llwybrau agored

124. Y BI sydd â chyfrifoldeb clinigol cyfredol am y claf sy'n atebol am fonitro llwybr y claf hwnnw (heblaw am ganser).
125. Pan fydd cyfnod AiD y claf yn cynnwys mwy nag un sefydliad neu system wybodaeth, rhaid i Blau sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod modd rhannu gwybodaeth briodol a mesur cyfnodau AiD yn gywir, (yn enwedig ar gyfer llwybrau canser a llwybrau cardiaidd pan fo'r cloc yn parhau ar hyd y llwybr o'r atgyfeiriad i'r ymyriad a/neu lawdriniaeth)
126. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr sector annibynnol (nad yw'n rhan o'r GIG), y BI sy'n comisiynu'r llwybr sy'n atebol am fonitro llwybr y claf hwnnw. Rhaid i Blau sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod y cyfnodau AiD yn cael eu mesur yn gywir.
127. Pan wneir atgyfeiriad at ddarparwr y GIG yn Lloegr, darparwr y GIG yn Lloegr sy'n atebol am fonitro llwybr y claf hwnnw. Rhaid i ddarparwr y GIG yn Lloegr sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod cyfnodau AiD yn cael eu mesur yn gywir. Mae angen i dargedau Cymru gael eu rhannu fel rhan o unrhyw gontract â darparwr eraill y GIG (Cymru a Lloegr).

Atebolrwydd am berfformiad

128. Pan gaiff cyfnod AiD y claf ei reoli'n gyfan gwbl o fewn un BILL, y BI hwnnw sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau.
129. Pan fydd cyfnod AiD y claf yn cynnwys mwy nag un BI, BI cartref y claf sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau AiD.
130. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr sector annibynnol, y BI sy'n comisiynu'r gweithgarwch sy'n atebol.
131. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr yn Lloegr, y BI sy'n comisiynu'r gweithgarwch sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau.
132. Pan gaiff llwybr y claf ei gomisiynu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Pwyllgor hwnnw sy'n atebol am berfformiad yn erbyn y targedau. Rhaid i Blau a'r Pwyllgor gyda'i gilydd sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod y cyfnodau AiD yn cael eu mesur yn gywir.

Atebolrwydd am adrodd

133. Y BI â chyfrifoldeb clinigol dros y claf ar ddyddiad cofnodi'r cyfrifiad sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn targed yr amser aros llwybr agored.
134. Y BI â chyfrifoldeb clinigol dros y claf ar adeg triniaeth sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed amser aros llwybr caeedig.
135. Pan gaiff gweithgarwch y GIG ei gomisiynu o ddarparwr sector annibynnol, y BI sy'n comisiynu'r llwybr sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed. Rhaid i Blau sicrhau bod protocolau cyfathrebu yn cael eu defnyddio fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu, a bod y cyfnodau AiD yn cael eu cofnodi'n gywir. Pan wneir atgyfeiriad at ddarparwr yn Lloegr, y darparwr hwnnw sy'n gyfrifol am adrodd ar berfformiad yn erbyn y targed. Rhaid i Blau sicrhau bod

gofynion adrodd wedi'u cynnwys yn gytundebol mewn trefniadau comisiynu.

Rhestr Termâu

Mae'r rhestr termâu hon yn cynnig diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon. Lle bo modd, defnyddir diffiniad Geiriadur Data GIG Cymru, a dylid cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf ohono am ddiffiniadau cyfredol lle bo angen. Dim ond mewn perthynas â'r ddogfen hon y dylid ystyried y diffiniadau esboniadol hyn.

Targed atgyfeirio i driniaeth 26 wythnos	Targed amseroedd aros Llywodraeth Cymru a sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2009, na ddylai unrhyw glaf aros mwy na 26 wythnos o atgyfeiriad i driniaeth.
Monitro gweithredol	Ymyriad clinigol lle penderfynir monitro cyflwr claf yn agos o fewn gofal eilaidd, gan arwain at gymryd camau er mwyn sicrhau bod y claf yn cael ei asesu'n rheolaidd ac y gellir ymateb i unrhyw newid yn ei gyflwr.
Addasiad	Cyfnod o amser lle nad yw'r claf ar gael, am resymau clinigol neu gymdeithasol, neu lle caiff y claf ei atgyfeirio at wasanaeth sydd y tu allan i gwmpas AiD.
Derbyn	Derbyn claf ar gyfer triniaeth achos dydd neu glaf mewnol.
Targed canser	Targed amseroedd aros Llywodraeth Cymru ar gyfer triniaeth ganser: 62 diwrnod ar gyfer atgyfeiriad canser a amheuir brys (USC) a 31 diwrnod ar gyfer atgyfeiriad canser a amheuir nad yw'n frys (NUSC).
Targed AiD cardiaidd	Targed amseroedd aros Llywodraeth Cymru na ddylai unrhyw glaf aros mwy na 26 wythnos o atgyfeiriad i driniaeth.

Cardiolegydd	Clinigydd sy'n treulio'r rhan fwyaf o'i sesiynau clinigol mewn cardioleg.
Canlyniad clinigol	Cofnod o benderfyniad clinigol gan glinigydd. Ni chaiff y penderfyniad hwn ei wneud mewn amgylchedd clinigol o reidrwydd.
Cloc yn parhau	Unrhyw ddigwyddiad ar hyd llwybr y claf, ond nad yw'n gyfystyr â dechrau cloc neu stopio cloc o fewn rheolau AiD.
Ailosod cloc	Proses weinyddol i newid dechrau'r cyfnod AiD a gofnodwyd i ddyddiad y digwyddiad sydd wedi arwain at ailosod y cloc.
Dechrau cloc	Digwyddiad sy'n cychwyn cyfnod AiD o fewn rheolau AiD.
Stopio cloc	Digwyddiad sy'n gorffen cyfnod AiD o fewn rheolau AiD.
Meddyg ymgynghorol:	Unigolyn sydd wedi'i contractio gan fwrdd iechyd sydd wedi'i benodi gan Bwyllgor Penodiadau Cynghorol. Rhaid iddo neu iddi fod yn aelod o Goleg Brenhinol neu gyfadran. Mae hyn yn cynnwys meddygon teulu lle maent yn gyfrifol am ofal cleifion a bod trefniant â bwrdd iechyd. Ar gyfer adrannau diagnostig, mae hyn yn cynnwys gwyddonydd anfeddygol sydd â'r un statws â meddyg ymgynghorol.
Penderfyniad swyddfa meddyg ymgynghorol	Unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar reolaeth glinigol y claf ac a wnaed heb i'r claf fod yn bresennol.
Atgyfeiriad rhwng meddygon	Unrhyw achos o atgyfeirio claf mewn amgylchedd gofal eilaidd/trydyddol rhwng meddygon

ymgynghorol	ymgynghorol.
Methu dod (CNA)	Cofnodir 'methu dod' yn achos unrhyw glaf sy'n cysylltu â'r sefydliad i ddweud na fydd yn gallu dod i'w apwyntiad y cytunwyd arno.
Penderfyniad i drin	Cofnodi penderfyniad i dderbyn claf i sefydliad gofal iechyd penodol.
Penderfyniad i beidio â thrin	Penderfyniad clinigol nad oes angen trin y cyflwr yr atgyfeiriwyd y claf ar ei gyfer, ar hyn o bryd. Fel rheol bydd hyn yn arwain at ddychwelyd y claf at y meddyg a wnaeth ei atgyfeirio.
Arhosiad diagnostig	Yr amser aros rhwng cael atgyfeiriad am ymchwiliad diagnostig a'r apwyntiad ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw.
Heb ddod (DNA)	Caiff cleifion nad ydynt wedi cadw apwyntiad ar unrhyw adeg ar hyd y llwybr ac nad ydynt wedi hysbysu'r sefydliad ymlaen llaw eu nodi'n rhai 'heb ddod).
Mynediad uniongyrchol	Cleifion a gaiff eu hatgyfeirio'n uniongyrchol yn hytrach na thrwy glinig a arweinir gan feddyg ymgynghorol.
Trefnu apwyntiad yn uniongyrchol	Methodoleg trefnu apwyntiad lle cytunir ar apwyntiad drwy gyswllt uniongyrchol rhwng y sefydliad a'r claf.
Atgyfeiriad uniongyrchol	Atgyfeiriad a wneir gan glinigydd mewn gofal sylfaenol yn uniongyrchol at wasanaeth diagnostig neu therapi.
Derbyniad brys	Cleifion a dderbynnir i'r ysbyty pan na ragwelir hynny ac am gyfnod byr oherwydd angen clinigol.

Claf arbenigol	Cleifion â chyflwr iechyd hirdymor sy'n dod yn 'arbenigwyr' ar eu gofal eu hunain er mwyn gwella ansawdd eu bywyd.
Triniaeth ddiffiniol gyntaf	Unrhyw driniaeth gychwynol sy'n trin canser y claf, yn sefydlogi ei symptomau canser, neu'n sefydlogi ei iechyd fel y gall triniaeth ganser ddechrau
Newid cynyddol mewn triniaeth	Newid bach i'r cynllun triniaeth presennol, e.e. addasu dos meddyginiaeth a ragnodwyd.
Arhosiad cleifion mewnol/achos dydd	Yr amser aros rhwng gwneud penderfyniad i drin claf fel claf mewnol/achos dydd a'i dderbyn am y driniaeth.
Triniaeth fwriadedig	Ymyriad sydd, ar yr adeg honno, yn anelu at reoli cyflwr y claf.
Triniaeth dros dro	Ymyriad sy'n anelu at helpu'r claf i ymdopi â'i gyflwr nes bod modd rhoi'r driniaeth a gynllunnir.
Bwrdd Iechyd (BILI)	Corff statudol y GIG.
Cytundeb ar y cyd	Wedi'i gytuno gan y claf a'r BILI.
Digwyddiad lle na dderbynnir claf	Digwyddiad lle mae'r claf yn dod am apwyntiad ond nad oes gwely na tholi wedi'i gadw ar ei gyfer, e.e. apwyntiad cleifion allanol.
Atgyfeiriad nad yw'n ganser a amheuir brys (NUSC)	Claf sydd wedi cael diagnosis canser na chafodd ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu fel USC na'i uwchraddio gan yr arbenigwr wrth ddadansoddi atgyfeiriad y meddyg teulu.
Sefydliad	Y gwasanaeth gofal eilaidd, sef yr Ymddiriedolaeth gynt.

Cyswllt y tu allan i oriau	Rhwng 6pm a 9pm yn ystod yr wythnos a rhwng 9am a 9pm ar y penwythnos.
Trefnu apwyntiad yn rhannol	System lle cytunir ar apwyntiadau â'r claf, yn dilyn cais ysgrifenedig gan y BILI i'r claf ffonio i drefnu apwyntiad.
Dyddiad dechrau'r llwybr (DDLl)	Fe'i defnyddir o fewn y targed AiD cardiaidd i ddynodi dyddiad dechrau gwreiddiol y cloc pan ddaw atgyfeiriad i law.
Llwybr y claf	Proses gofal claf ar gyfer cyflwr penodol o fewn y GIG cyfan, o ofal sylfaenol ymlaen.
Gofal wedi'i gynllunio	Derbyniadau dewisol a gynllunnir i ddigwydd yn y dyfodol, lle, am resymau meddygol, y mae'n rhaid eu hoedi cyn y gellir cyflawni ymyriad penodol.
Amgylchedd cyfunol	Dyluniad gwasanaeth lle mae pawb wedi cael gwybod, ar adeg yr atgyfeiriad neu'r ymweliad cleifion allanol cyntaf, fod grŵp o glinigwyr yn cydweithio er mwyn darparu'r gwasanaeth, a lle gall cleifion gael eu gweld gan unrhyw un o'r clinigwyr yn y grŵp, ar unrhyw gam o'r driniaeth.
Cynnig rhesymol	Unrhyw gynnig o apwyntiad y mae'r claf a'r BI yn cytuno arno gyda'i gilydd.
BI yn cael atgyfeiriad	Tybir bod yr atgyfeiriad wedi dod i law pan fydd yn cyrraedd y gwasanaeth gofal eilaidd neu drydyddol gyntaf, waeth pa adran neu unigolyn sy'n ei gael. Bydd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau electronig a phapur.
Canllawiau atgyfeirio	Meini prawf ysgrifenedig a ragbennir sy'n cael eu ffurfioli a'u cytuno rhwng y gweithwyr gofal iechyd

proffesiynol sy'n gwneud yr atgyfeiriad ac yn ei gael.

Protocolau atgyfeirio

Cytundebau a wneir ac a ddogfennir yn lleol er mwyn nodi ffynonellau a dderbynnir ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau penodol.

Atgyfeirio i driniaeth

Y cyfnod rhwng gwneud atgyfeiriad ar gyfer cyflwr penodol a dechrau triniaeth ar gyfer y cyflwr hwnnw.

Cyfnod AiD

Caiff yr amser aros ei fonitro gan ddefnyddio'r cysyniad o gloc, a fydd yn dechrau ac yn stopio yn ôl digwyddiadau a thrafodion ar hyd llwybr y claf. Y cyfnod o amser a fesurir rhwng dechrau a stopio cloc, o dan reolau AiD, a gofnodir fel yr amser aros AiD.

Rhaglen sgrinio

Rhaglen sgrinio genedlaethol gydnabyddedig ar gyfer cyflyrau penodol e.e. Rhaglen Sgrinio Canser ar y Fron.

Gofal eilaidd

Gofal y GIG a ddarperir yn dilyn atgyfeiriad o ofal sylfaenol.

Hunanatgyfeiriad

Y broses lle mae claf yn ysgogi apwyntiad gyda gwasanaeth gofal eilaidd, heb atgyfeiriad gan glinigydd gofal sylfaenol nac eilaidd.

Cyflwr meddygol byrdymor

Cyflwr meddygol sy'n golygu na ellir symud ymlaen i gam nesaf y llwybr am lai nag 21 diwrnod.

Clinigau SOS

Clinigau mynediad uniongyrchol arbenigol y mae cleifion arbenigol yn mynd iddynt i gael sylw brys.

Cam y llwybr

Rhan o'r cyfnod AiD. Mae pedwar cam: atgyfeiriad

am apwyntiad cleifion allanol cyntaf; aros am brawf diagnostig; aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol; aros o'r penderfyniad i drin i ddechrau triniaeth. Mae camau'r llwybr yn cydgyffwrdd, nid oes rhaid iddynt ddigwydd yn y drefn hon, a gall unrhyw gam unigol ddigwydd fwy nag unwaith mewn unrhyw lwybr penodol.

Newid sylweddol mewn triniaeth

Newid sylweddol i'r cynllun triniaeth presennol, e.e. newid o roi meddyginiaeth drwy'r geg i'w roi drwy'r croen

Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig

Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'i gymeradwyo gan y meddyg ymgynghorol yn gymwysedig i wneud penderfyniad am ffitrwydd meddygol claf i fynd ymlaen i gam nesaf y llwybr.

Gweithdrefnau gwylidwriaeth

Gweithdrefnau a ailadroddir ar adegau cytûn er mwyn monitro cyflwr y claf.

Gwaharddiad

Cyfnod pan fo saib yn y cloc canser neu gardiaidd am nad yw'r claf ar gael neu am nad yw'n ffit yn feddygol oherwydd cyd-afiachusrwydd i symud ymlaen i gam nesaf y llwybr.

Gofal trydyddol

Gofal arbenigol y GIG mewn gwasanaethau a ddynodwyd i ddarparu'r gwasanaeth mewn canolfan arbenigol, ac a ddarparwyd o ganlyniad i atgyfeiriad o ofal eilaidd.

Gwasanaethau therapi

Gwasanaethau'r GIG sy'n darparu triniaeth gan broffesiynau cofrestredig y Cyngor Proffesiynau Iechyd h.y. therapiau celfyddydol, deieteteg, therapi galwedigaethol, orthoteg, orthoteg a phrosthetheg, ffisiotherapi, podiatreg, therapi

lleferydd ac iaith.

Trin mewn trefn

Rheoli'r rhestr aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld a'u trin yn y drefn briodol, yn seiliedig ar eu hangen clinigol a'r amser maent wedi bod yn aros. Mae angen i Blau allu egluro a dangos unrhyw amrywiad i gyfraddau trin mewn trefn drwy eu polisïau lleol ar yr amod eu bod yn adlewyrchu nodau strategol eraill Llywodraeth Cymru

Atgyfeiriad USC

Atgyfeiriad lle mae'r meddyg teulu yn amau canser a gadarnheir gan yr arbenigwr. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i ddulliau atgyfeirio USC yn unig dynodedig e.e. llinellau ffacs.

Atodiad A

Profion diagnostig a gynhwysir

- Enema bariwm
- Tomograffi cyfrifiadurol (CT)
- Ecocardiogram
- Electromyograffeg
- Endosgopi
 - Broncosgopi
 - Colonosgopi
 - Sigmoidosgopi
 - Gastrosgopi
 - Sistosgopi
- Profion straen ymarfer corff
- Fflworosgopi
- Delweddu atseiniol magnetig (MRI)
- Astudiaethau dargludo nerfol
- Sgan uwchsain nad yw'n obstetraidd
- Meddygaeth niwclear
- Patholeg
- Pelydrau X ffilm plaen
- Pwyseddau a llifau iwdynamig
- Archwiliadau fasgwlaidd

Atodiad B

Gwasanaethau therapi a gynhwysir

- Cymhorthion clyw oedolion (ar y pwynt gosod)
- Deieteteg
- Therapi galwedigaethol
- Ffisiotherapi
- Podiatreg
- Therapi lleferydd ac iaith

Atodiad C

Dogfennau polisi

WHC (2004) 067 – Diffiniadau i Gefnogi Targed SaFF Amseroedd Aros Cancer

WHC (2005) 027 – Casglu data misol ar amseroedd aros cancer i ddechrau triniaeth ddiffiniol

WHC (2005) 090 – Gweithredu Canllaw Arfer Da

WHC (2006) 081 – Cyflawni Llwybr Cleifion 26 Wythnos - Fframwaith Gweithredu

WHC (2007) 014 – Mynediad 2009 - Mesur Amser Atgyfeirio i Driniaeth

WHC (2007) 051 – Mynediad 2009 - Cyflawni Llwybr Cleifion 26 Wythnos - Cynllun Cyflawni a Gweithredu Integredig

WHC (2007) 075 – Prosiect Mynediad 2009 – Canllawiau Atodol ar gyfer Gweithredu Llwybrau Cleifion 26 Wythnos

Cancer waiting targets: A guide (Fersiwn 4) (Adran Iechyd, 2005)

A Guide to Good Practice: Elective Services (NLIAH, 2005)

Cancer Waiting Times: a Guide for Urologists (Tîm Gweithredu Cenedlaethol y GIG ar gyfer Cancer, 2006)

Amseroedd Aros Cancer SaFF 05/06 a 06/07 cofnod ymholiadau

Canllawiau Ffynhonnell Unigol ar Darged Amseroedd Aros Cancer 2006-07 SaFF (llythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r gwasanaeth, 2006)